CANLLAWIAU DYLUNIO GWYNEDD

# INDECS


**Rhan 1 ................................Canllawiau Dylunio**

Cyflwyniad ..........................................................................1

Dewis a Chynllunio Safle ....................................................2

Datblygu Safle ....................................................................3

Datblygu Cynaliadwy .........................................................4

Dyluniad Adeiladu ..............................................................5

Amgylchedd Hanesyddol ....................................................6

Datblygu mewn Trefi..........................................................7

Blaen Siopau .......................................................................8

Datblygiad Masnachol ........................................................9

Adeiladu yng Nghefn Gwlad ............................................10

Atgyweiriadau ac Estyniadau ............................................11

Addasiadau ac Estyniadau.................................................12

Atal Troseddu .....................................................................13

Eiddo Cyhoeddus...............................................................14

Tai Fforddiadwy .................................................................15

Gwybodaeth Bellach ..............................................Atodiad 1

Cysylltiadau..........................................................Atodiad 2

**Rhan 2 ................................Canllawiau Tirlunio**

Cyflwyniad

Ardaloedd Cymeriad Tiruln (ACT)

Cyfarwyddyd Ardal Gyfadran - Cordidorau Trafnidiaeth

- Tirwedd Amaethyddol

- Gwybodaeth Bellach

## CYFLWYNIAD I'R CANLLAWIAU DYLUNIO

Mae Gwynedd yn sir llawn amrywiaeth, o ddinas Prifysgol Bangor i bentrefi gwasgaredig Pen Llyn, sy'n cynnwys mynyddoedd ac arfordir, tir amaeth a choedwigoedd. Yn cysylltu hyn oll mae cymeriad arbennig yr ardal a ffurfiwyd gan ei daeareg a'i hinsawdd ac sy'n amlwg ym mhensaerniaeth gynhenid y bythynnod cerrig a llechi sy'n swatio yn y tirwedd rhag y tywydd.

Bellach, mae'r cymeriad unigryw hwn a ddatblygwyd dros gannoedd o flynyddoedd yn cael ei ddifetha'n systematig gan newidiadau graddol i'r union elfennau sy'n diffinio ansawdd ac unigolrwydd yr ardal. Mae'r newidiadau hyn, sydd yn aml yn ymateb i syniadau newydd, dulliau estron o ddylunio a mewnforio deunyddiau yn ganlyniad o ddatganiad personol unigolyn mewn ymgais gamarweiniol i greu tebygrwydd 'hanesyddol', neu drwy ymgais i wella a moderneiddio – er enghraifft, ffenestri plastig, teils to concrit, cerrig chwipio a gwrychoedd lawsonii. Yn yr un modd ag y mae Gwynedd yn ceisio gwarchod ei hiaith a'i threftadaeth diwylliannol, rhaid hefyd ceisio diogelu ei hamgylchedd gynhenid rhag newid a datblygiad digydymdeimlad a'r defnydd o ddulliau sy'n gwbl amherthnasol i'r ardal.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod sefydlu arferion dylunio da yn rhywbeth a gaiff les sylweddol drwy'r Sir i gyd, nid yn unig drwy wella ansawdd yr amgylchedd ac ychwanegu at ei delwedd a'i henw da, ond hefyd oherwydd fod dylunio da yn ganolog i ansawdd bywyd trigolion Gwynedd. Gan hynny, mae angen canllawiau i gynorthwyo a chynghori'r rhai sy'n ymwneud â'r broses gynllunio a datblygu, gan gynnwys:

- Perchnogion eiddo, i'w helpu i ddatblygu cynigion a wnaiff gyfraniad pendant i hynodrwydd a chymeriad lleol Gwynedd
- Ymgeiswyr ac asiantwyr, yn ystod y gwaith o baratoi a chyflwyno cais, ac yn y datganiad dylunio a gyflwynir gyda'r cais
- Swyddogion Rheoli Datblygu o fewn y Cyngor, wrth iddynt ddelio â cheisiadau.

Yn bwysig, mae'r canllawiau hefyd yn rhoi cyngor ynglyn â mân gynigion 'datblygiad a ganiateir'. Nid oes angen caniatad cynllunio ar gyfer y cynlluniau hyn, er nad yw hyn yn atal yr angen am ofynion statudol eraill megis Cymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu, Caniatad Adeilad Rhestredig neu reolau penodol eraill. Fodd bynnag, maent yn aml yn ymwneud â man fanylion megis drysau a ffenestri newydd a all gael effaith anghymesur ar ansawdd a chymeriad adeiladau, yn enwedig ble maent yn ffurfio rhan o grwp neu res o dai. Mae rhoi ystyriaeth briodol i ddyluniad y nodweddion hyn lawn cyn bwysiced a ymdrin â chynlluniau datblygu ar raddfa mwy.

Bydd y Canllawiau Cynllunio yn ategu canllawiau eraill a baratowyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â pholisiau cynllunio, y tirwedd, piriffyrdd ynghyd â materion amgylcheddol mwy cyffredinol. Gydai'i gilydd, byddant i gyd yn cyfrannu i godi safon amgylchedd Gwynedd.

*Trosodd…*

Tan yn gymharol ddiweddar ni chafodd cynllunio'r sylw yr oedd yn ei haeddu mewn Cyfarwyddyd Cynllunio Cenedlaethol.

Fodd bynnag rhoddwyd mwy o amlygrwydd i faterion cynllunio yn 2002 pan gyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) sy'n nodi:-

*"Gall cynllunio da warchod yr amgylchedd a gwella ei ansawdd, helpu i ddenu busnes a buddsoddiad, hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a gwella ansawdd bywyd. Dylai cynllunio da fod yn nod i bawb sydd ynghlwm â'r broses ddatblygu a dylid ei annog ym mhob man."*

Yn ogystal â'r uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi nifer o Nodiadau Cyngor Technegol, ac mae Nodyn Cyngor Technegol 12 yn delio'n benodol â Chynllunio.

Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn esbonio nad cynnyrch gorffenedig yw cynllunio yn unig ond, yn hytrach, proses. Mae'n nodi:-

*"Dylid ystyried cynllunio yn ei synnwyr ehangach fel proses gydweithredol, greadigol i ddatrys problemau - gan gynnwys pensaernïaeth, tirwedd, tanadeiledd a chynllun trefol sy'n pennu ansawdd ein hamgylchedd ac a all ddarparu'r sylfaen ar gyfer ei ddyfodol cynaliadwy."*

Mae llwyddiant cynllunio da felly yn ddibynnol ar ymglymiad y rheini sydd yn rhan o'r broses hon cyn gynted â phosibl er mwyn datblygu gweledigaeth a chytuno ar egwyddorion cynllunio.

Fodd bynnag, nid pwrpas y Canllaw Cynllunio yw pennu'r broses Gynllunio ond yn hytrach mae wedi'i fwriadu fel rhan o'r bocs offer yn y broses gynllunio.

## DEWIS SAFLE

Cyn penderfynu ar y safle, dylid ystyried:

### Defnydd y safle a'r dwysedd

- A fydd y defnydd a fwriedir i'r safle yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio'r Awdurdod Lleol?
- A ellir cynnwys yr adeiladau, y ffyrdd a'r lle parcio gofynnol ar y safle heb orddatblygu?
- A yw'r safle'n cynnig digon o le mwynderol o gwmpas adeiladau i osgoi problemau gydag goredrych eiddo eraill, bwrw cysgod a sŵn, ac i sicrhau amgylchedd braf?

### Ffyrdd mynediad a chludiant

- A yw'r ffyrdd a chysylltiadau mynediad eraill yn addas ar gyfer y math o gerbydau a maint y traffig a gynhyrchir gan y datblygiad?
- A oes cysylltiadau cludiant cyhoeddus digonol gerllaw fel y gall pobl ddi-gar gyrraedd y safle ac i leihau'r defnydd o geir?
- A ellir cadw a gwella llwybrau cerdded a beicio sy'n bodoli eisoes?

### Lleoliad

- A fydd y datblygiad newydd yn gydnaws â'i gymdogion? Mae angen lleihau'r peryglon a achosir gan draffig ychwanegol, sicrhau cyn lleied o sŵn, niwsans a llygredd ag sy'n bosibl, a chadw unrhyw risg i ddiogelwch eiddo cyn ised ag y bo modd.
- A fydd yn peryglu preifatrwydd eiddo cyfagos? Dylid ystyried y berthynas rhwng blaen a chefn adeiladau ar ac yn gyfochrog i'r safle.
- A fydd y datblygiad yn gorlwytho gwasanaethau lleol fel cludiant cyhoeddus, siopau, ysgolion, ayb?
- A yw'r safle'n addas ar gyfer datblygiad defnydd cymysg? Gall hyn ddod â manteision arallgyfeirio i'r economi, a sicrhau fod yr ardal yn cael ei defnyddio i'r eithaf drwy'r amser.

### Bywyd gwyllt a thirweddu

- A fydd y datblygiad yn bygwth unrhyw gynefinoedd bywyd gwyllt arbennig?
- A ellir cadw a gwella coridorau bywyd gwyllt sy'n bodoli ar hyn o bryd?
- Sut y gellir cadw planhigion, coed aeddfed a gwrychoedd? Mae'r rhain yn caniatáu i'r safle ymsefydlu'n gyflym ac yn paratoi dilyniant.
- A ellir defnyddio rhywogaethau brodorol addas, wedi'u haddasu i'r amgylchedd lleol, i atgyfnerthu'r hyn a blannwyd?

## NODWEDDION SAFLE

Bydd gwerthusiad manwl o'r safle'n nodi:

### Ffurf a thopograffi'r tir

- Nodweddion y safle, fel graddiannau, llynnoedd a chyrsiau dŵr, a sut y gellir manteisio arnynt
- A ydyw'n orlifdir
- Ei ddaeareg – cydweddu â defnyddiau a lliwiau naturiol, defnyddio mwynau neu gerrig mâl
- Lleoliad a rhywogaethau planhigion presennol, gan gynnwys coed unigol neu grwpiau o goed, gwrychoedd a choridorau bywyd gwyllt
- Golygfeydd pwysig i'r safle ac ar ei draws, y dylid eu cadw a'u cyfoethogi
- Mannau uchel amlwg, a all fod yn addas ar gyfer lleoli adeiladau pwysig neu allweddol

### Hinsawdd a microhinsawdd

- Effeithiau hinsawdd – amrywiaeth tymhorol, y prifwynt, llwybr ac ongl yr haul
- Addasu'r hinsawdd – cysgod a lloches gan adeiladau drws nesaf a phlanhigion aeddfed, gradd a chyfeiriad llethrau
- Effeithiau hinsoddol negyddol – pantiau rhew, 'twneli' gwynt, perygl llifogydd
- Lleihau costau ynni drwy leoli'r adeilad i fanteisio ar gyfraniad yr haul a defnyddio cysgod naturiol

### Nodweddion o wneithuriad dyn

- Adeiladau presennol y gellir eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu
- Gwasanaethau uwch ben a thanddaear, cloddfeydd neu chwareli
- Halogiad y tir gan ddefnyddiau blaenorol
- Ffyrdd, llwybrau a mynedfeydd i safleoedd; waliau a ffensys terfyn, ayb.

### Gwasanaethau


- A oes cyflenwadau a gwasanaethau pŵer digonol ar gael ar y safle neu gerllaw?
- A ellir defnyddio cronfeydd dŵr naturiol ar gyfer cyflenwad dŵr neu i gynhyrchu trydan?
- A ellid defnyddio ffynonellau ynni amgen – rhodiau daear, nwy methan, ynni haul neu wynt?
- Neu a ellid darparu adnodd i safleoedd eraill, er enghraifft, cynllun gwresogi ardal?

*Trosodd…*

# GWYNEDD

## DEWIS A CHYNLLUNIO SAFLE





## CYD-DESTUN SAFLE

Dylid asesu'r nodweddion sy'n diffinio synnwyr lleoliad yr amgylchfyd:

### Lleoliad

Diffinnir cymeriad ardal gan batrwm yr adeiladau a natur y bylchau rhyngddynt

- Dylai datblygiad newydd barchu ac atgyfnerthu'r cymeriad lleol, drwy ddilyn egwyddorion dylunio tebyg
- Lle bernir ei bod yn briodol cael graddfa neu arddull wahanol, er enghraifft, er mwyn creu canolfan neu ffocws newydd, rhaid i'r dyluniad fod yn arbennig o sensitif
- Mae gan ofodau ffurfiol batrymau strydoedd rheolaidd, plotiau o faint tebyg a llinellau adeiladu syth
- Mae amrywio maint plotiau a mannau agored, a chael ffyrdd troellog yn dilyn cyfuchliniau'r tir, yn creu anffurfioldeb
- Crëir amgaead lle mae blaen adeiladau a waliau terfyn yn dynn wrth gefnau ffyrdd neu balmentydd
- Mae angen i fannau agored fod wedi'u diffinio'n dda gan dirweddu o ansawdd uchel os am iddynt deimlo'n ddiogel a chroesawgar

### Graddfa

- Mae angen i ofodau ac adeiladau ill dau fod wedi'u dylunio ar raddfa sy'n briodol i'w lleoliad a'u swyddogaeth
- Dylid cadw gofodau eang a graddfa fawr ar gyfer datblygiadau cyhoeddus neu gorfforaethol
- Mae angen i ardaloedd preswyl fod ar raddfa fach er mwyn creu hunaniaeth unigol ac ymdeimlad o berchnogaeth bersonol

### Golygfeydd

- Mae golygfeydd ar draws y safle, i mewn ac allan ohono yn bwysig er mwyn lleoli'r datblygiad o fewn ei amgylchfyd
- Mae gofodau gwrthgyferbyniol cysylltiedig yn rhoi golygfa newidiol wrth i'r gwyliwr symud drwyddynt
- Mae bylchau, sy'n rhoi cipolygon diddorol o bwyntiau canolog neu ofodau eraill, yn denu ymchwilio pellach
- Effaith newidiadau lefelau yw cynnwys neu roi dyfnder i olygfeydd
- Gellir defnyddio datblygiad newydd, ynghyd â gwaith plannu, i guddio nodweddion diolwg sy'n bodoli eisoes

## CYNLLUN SAFLE

Mae datblygiad llwyddiannus yn dibynnu ar nifer o ystyriaethau:

### Hierarchaeth y datblygiad

- Dylid asesu pwysigrwydd cymharol pob adeilad o fewn y datblygiad cyfan, a'u lleoli'n briodol
- Dylid rhoi cymaint o sylw i ddyluniad mannau agored ag i ddyluniad yr adeiladau eu hunain
- Dylai pob elfen fod wedi'i hintegreiddio mewn cynllun unedig, hyd yn oed os cânt eu dylunio a'u hadeiladu ar wahân
- Ni ddylai ffyrdd a mannau parcio benderfynu'r cynllun, ac ni ddylid byth adael iddynt ei ddominyddu

### Symud o gwmpas y safle

- Dylai ffyrdd a llwybrau ddilyn nodweddion y tir, nid gwrthdaro â nhw, er mwyn sicrhau eu bod yn ymdoddi i'r tirwedd
- Os oes modd, dylid cadw ffyrdd a mynedfeydd sydd yno'n barod er mwyn sicrhau dilyniant patrymau defnydd tir
- Bydd hierarchaeth o ffyrdd i wahanol ddefnyddwyr yn gwella diogelwch, ac yn caniatáu rheoli niferoedd a chyflymder cerbydau
- Dylai cyfyngu ar gyflymder fod yn rhan integrol o ddyluniad ffyrdd
- Dylai'r ffyrdd fod yn glir ac yn uniongyrchol, gan greu cysylltiadau, ond gan osgoi gormod o ffyrdd trwodd sy'n anodd eu rheoli
- Dylid lleoli llwybrau yn enwedig i gerddwyr a beiciau, lle bydd ganddynt berchnogaeth ddiffiniedig ac y cânt eu defnyddio'n helaeth, i annog ymdeimlad o ddiogelwch a o ddefnydd llai o geir

### Parcio

- Mae canllawiau ar gael gan yr Awdurdod Cynllunio ar ddwysedd y ddarpariaeth barcio sydd ei hangen ar gyfer unrhyw ddatblygiad
- Mae'n haws diogelu mannau parcio sy'n amlwg yn perthyn i adeilad ac y gall ei drigolion gadw llygad arno rhag gweithgarwch troseddol
- Mae torri meysydd parcio mawr yn ddarnau llai, haws eu rheoli, yn lleihau eu heffaith ac yn gwella diogelwch
- Dylai darpariaethau parcio achlysurol ar gyfer datblygiadau preswyl fod wedi'u dosbarthu'n dda i wasanaethu anghenion y tai i gyd

*Trosodd…*

*ystyried cyfeiriad (blaen a cefn)yr adeiladau sy'n ffinio a'r safle*


*asesu graddfa ac agosatrwydd yr adeiladau cyfagos – mae graddfa fawr gyda mannau agored eang ffurfiol yn briodol ar gyfer datblygiadau masnachol neu ddinesig; mae'n well i ddatblygiadau preswyl fod yn fach a chartrefol i greu ymdeimlad o berchnogaeth*

*cael cymysgedd o adeiladau a mannau agored drwy'r datblygiad*

*edrych ar unrhyw strwythurau presennol o wneuthuriad dyn, megis adeiladau a waliau, i weld a ellir eu hailddefnyddio*

*ystyried sut mae graddfa a natur y gofodau rhwng adeiladau yn cysylltu i roi cyfres o olygfeydd newidiol a pwyntiau ffocal*

*lleoli adeiladau yn ôl eu pwysigrwydd cymharol, gydag adeiladau nodwedd ar safleoedd amlwg fel tir uchel*



*mae plannu ar raddfa fawr yn darparu sgrinio a lloches*

*Penderfynu os yw gosodiad yr ardal o'ch cwmpas yn ffurfiol ynteu'n anffurfiol, yn drefol neu'n wledig, a pha gynllun sy'n briodol i'r datblygiad newydd*

*ystyrier os oes unrhyw adeiladau nodweddol neu nodweddion tirwedd pwysig a allai fod yn bwynt ffocal*

*Ble'n briodol, cadw'r mynedfeydd presennol i'r safle a'r ffyrdd drwy'r safle; dylid dylunio pob ffordd i gysylltu'n rhesymegol â'r mannau lle mae pobl am fynd*


*defnyddio hierarchaeth o ffyrdd i reoli cyflymder a maint y traffig a gynhyrchir gan y datblygiad, gan roi blaenoriaeth i ddefnyddwyr bregus*

*ni ddylai symudiad cerbydau benderfynu'r cynllun na dominyddu – dylai ffyrdd bob amser atgyfnerthu cymeriad y safle neu'r ardal*


*dylid creu cysylltiadau priodol ar draws y safle drwy gyfrwng llwybrau clir ac uniongyrchol – mae hyn yn sicrhau y cânt ddigon o ddefnydd, ac yn gwella diogelwch a gwarchodaeth*



Mewn aml i dref a phentref, bydd strydoedd ac adeiladau'n dilyn y cyfuchliniau, gan greu anheddiad sy'n gydnaws a'i amgylchedd



Mae adeiladau uchel a strydoedd cul yn creu gofodau caeedig, trefol, gan wneud i'r adeiladau ymddangos yn uwch



Mae naws wledig i fannau agored a ddominyddir gan y tirwedd, sy'n lleihau effaith a graddfa ymddangosiadol yr adeiladau



Mae cynlluniau anffurfiol gyda ffyrdd troellog yn awgrymu cyfres o ofodau cysylltiedig a golygfeydd newidiol, gan ddenu ymchwilio pellach

## HUNANIAETH LEOL

Er mwyn integreiddio adeiladau newydd i'w hamgylchfyd, a chadw'r hunaniaeth leol, dylai dylunwyr:

- Sicrhau fod y cynigion yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio lleol
- Asesu cymeriad yr ardal drwy edrych yn ofalus ar safleoedd ac adeiladau cyfagos
- Deall nodweddion, manylwaith, defnyddiau a dulliau adeiladu traddodiadol lleol, a'u defnyddio yn y cyd-destun cywir yn unig
- Dylunio'n benodol ar gyfer y safle – ni fydd atebion dylunio safonol neu wael wedi'u 'cwsmereiddio' drwy ychwanegu nodweddion lleol yn rhoi canlyniadau boddhaol
- Ystyried effaith y datblygiad newydd ar y cymdogion agosaf, a hefyd ar y gymuned ehangach
- Mewn Ardaloedd Cadwraeth neu leoliadau hanesyddol eraill sy'n dal yn gyfan dylid mynd ati mewn modd arbennig o sensitif

Mae'r technegau i sicrhau fod adeiladau newydd yn cadw'r ymdeimlad o le yn cynnwys:

- Adeiladu o fewn patrymau strydoedd presennol, os yw'r rhain yn bodoli, a chadw at y llinellau adeiladu a ffiniau plotiau presenol
- Dylunio patrymau newydd i gydweddu â'r mannau cyfagos – mewn trefi, er enghraifft, gosodir adeiladau'n agos at gefn y palmant, ac mae ganddynt waliau terfyn neu wrychoedd tew, tra gellir defnyddio ffryntiau cynllun agored a phlannu'n isel i greu teimlad cymdogaeth wledig
- Atgynhyrchu nodweddion sy'n gyson, fel lled plot, rhychwant to, uchder bondo
- Cadw gradd o unffurfedd, drwy ddefnyddio 'arddull tŷ' i sicrhau amrywiaeth ac unigoliaeth
- Osgoi addurno diangen neu arddull ffug-hanesyddol – cadw at ffurfiau a chymesureddau traddodiadol, a manylwaith syml
- Sicrhau plannu a thirweddu gan defnyddio rhywogaethau brodorol, a rhai sy'n addas i'r lleoliad – gan gofio uchder a lledaeniad y goeden aeddfed, cwymp dail a gwaith cynnal yn y dyfodol


**Mae sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y gofynion hyn yn hanfodol i ddyluniad da, a bydd yn ychwanegu at werth yr adeilad neu'r datblygiad**

## CYNALIADWYEDD

I sicrhau ateb hyblyg a chynaliadwy mae angen rhoi ystyriaeth i bob cam o'r broses ddylunio, a hynny'n golygu

- Ystyried pob dewis cyn gwneud penderfyniad i ddatblygu
- Ymateb yn sensitif ac yn effeithiol i gyfyngiadau a chyfleoedd y safle
- Dylunio i wneud y defnydd mwyaf o adnoddau adnewyddol – gan sicrhau fod yr adeilad yn wynebu'r ffordd iawn i ddefnyddio golau a gwres yr haul, neu gasglu ac ailddefnyddio dŵr glaw, er enghraifft
- Sicrhau y gwastreffir cyn lleied o ddŵr ag sy'n bosib drwy ymgorffori technegau rheoli dŵr cynaliadwy
- Pennu defnyddiau ecolegol gadarn, gan gynnwys pren o ffynonellau adnewyddool, cerrig sadio wedi'u hadfer, a defnyddiau naturiol sydd hwythau'n ailgylchadwy
- Defnyddio technegau a defnyddiau adeiladu sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ynghyd â dulliau cynhyrchu sy'n defnyddio ychydig o ynni'n unig
- Effeithlonrwydd ynni gydol oes drwy gyfrwng lefelau uchel o insiwleiddio thermol, lleihau drafftiau sy'n colli gwres
- Dewis cynnyrch hir oes heb angen fawr o waith cynnal, ynghyd â manylwaith o ansawdd da, crefftwaith da, a defnyddio dulliau a thechnegau adeiladu cyson â nhw
- Ymgorffori cyfleoedd i leihau, ailddefnyddio neu ailgylchu gwastraff, yn ystod ac ar ôl y broses adeiladu
- Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau presennol yn lle codi rhai newydd yn eu lle
- Adfer adeiladau segur neu gyda chydig o ddefnydd i gael eu defnyddio'n llawn eto, gan gynnwys lloriau uwchben siopau a swyddfeydd masnachol
- Ailddefnyddio adeiladau sy'n adfeilion llwyr fel nodweddion tirwedd neu waliau terfyn, neu achub eu defnyddiau
- Dylunio ar gyfer diogelwch a gwarchodaeth, drwy greu ymdeimlad o berchnogaeth ar fannau agored a chyhoeddus a gwyliadwriaeth naturiol drostynt, rheoli mynediad i fannau preifat, a dileu nodweddion dylunio sy'n annog neu'n hwyluso troseddu
- Sicrhau fod modd addasu adeiladau ar gyfer newid mewn amgylchiadau yn y dyfodol e.e. anabledd ayb
- Gwneud yn siwr fod amrediad llawn o wasanaethau ar gael yn lleol, fel na fydd angen teithio allan o'r ardal na ail-leoli

*Trosodd…*






Dyma enghraifft o ddiffyg parch i hunaniaeth leol, gan ddefnyddio amrediad eang o arddulliau, defnyddiau, ffurfiau a manylwaith. Nid yw hyn yn creu cymdogaeth gydlynol gydag teimlad pendant o le.

Dyluniwyd y tai newydd (ar y dde) i adlewyrchu cymeriad, màs a graddfa'r ardal; nid yw'r dormerau ffug yn cyflawni dim ond, yn absenoldeb simneiau, maent yn torri ar linell y to ac yn atgyfnerthu patrwm rheolaidd y teras





Dylid addasu adeiladau segur o ansawdd da i'w hailddefnyddio, gan gadw eu nodweddion gwreiddiol . Nid yn unig yw hyn yn enghraifft o ddatblygiad cynaliadwy, ond hefyd yn sicrhau fod hunaniaeth yr ardal yn cael ei warchod



*Amrywiaeth màs, ffurf ac arddull*



*Mae ailadrodd elfenau yn yr wyneb hwn yn dangos ffurfioldeb*



*Mae ffenestri dwfn a thalcenni nodwedd yn mynegi 3 dimensiwn*



*Gellir ychwanegu addurnwaith at fanylwaith hanfodol*

## EDRYCHIAD

Mae'r ffactorau canlynol yn effeithio ar olwg cyffredinol adeilad.

### Màs, Ffurf a Graddfa

- Dylai siâp, maint a phresenoldeb adeilad o fewn y tirwedd neu olygfa stryd barchu ansawdd gofodol ei amgylchfyd
- Bydd creu adeilad mawr o nifer o unedau llai o ffurf briodol yn lleihau màs a graddfa ymddangosol yr adeilad

### Ffurfioldeb / Anffurfioldeb

- Caiff màs yr adeilad ei is-rannu gan elfennau, er enghraifft agoriadau ffenestri, a all gael eu trefnu'n rheolaidd neu'n anffurfiol, yn llorweddol neu'n fertigol
- Mae'n brafiach ar y llygad cael trefniant cymesur neu gytbwys o elfennau yn hytrach nag un anghytûn

### Dyfnder a Modelu

- Bydd dyfnder a modelu yn rhoi naws tri dimensiwn i wyneb a fyddai fel arall yn fflat a di-nod

### Manylion

- Tra gellir addasu manylwaith fel modd o addurno, peth ymarferol ydyw'n bennaf – er enghraifft, nodwedd saerniol neu i ddiogelu rhag y tywydd
- Anaml y bydd addurniadau a ychwanegir yn llwyddiannus os ceisiant orfodi arddull sy'n amhriodol i'r dyluniad, fel ffug drawstiau bras wedi'u haneru ar dŷ stad modern

### Defnyddiau

- Dylid defnyddio defnyddiau'n onest – gall fod yn weledol annymunol cynnal cerrig trwm, er enghraifft, ar ddeunydd llenwi ysgafn
- Mae defnyddio defnyddiau lleol yn helpu adeilad i ymdoddi i'w amgylchfyd ac yn darparu dilyniant o fewn y strydlun
- Mae gan ddefnyddiau naturiol weadau ac amrywiadau cynnil mewn lliw nad ydynt i'w gweld mewn defnyddiau gwneuthuredig

### Swyddogaeth

- Dylai swyddogaeth adeilad fod wedi'i fynegi yn ei ddyluniad


*Trosodd…*




Mae patrwm stryd traddodiadol yn rheolaidd o ran lled plotiau, rhychwant toeau ac uchder bondo, sy'n rheoli màs, ffurf a graddfa'r adeiladau, boed nhw'n amrywiol eu dyluniad neu'n adeiladau teras unfath




Mae terasau fel arfer yn eithaf unedig: mae teimlad llawer mwy anffurfiol i hwn gyda'i linell to afreolaidd a meintiau agoriadau a chyfraneddau modern.




***Màs a ffurf:***

*bydd gosodiad, uchder ac adeiladwaith adeilad, a ph'run ai y mae wedi'i wneud o un uned fawr ynteu o nifer o unedau llai cydgysylltiol, yn pennu ei fàs a'i ffurf*




***Graddfa:***

*mae graddfa ymddangosiadol yn dibynnu nid yn unig ar y maint, ond hefyd ar y dyluniad – gall adeilad dinesig, er enghraifft, ymddangos yn fwy anferth nag a awgrymai ei faint yn unig*



***Ffurfioldeb / Anffurfioldeb:***

*mae ailadroddiad teras o unedau tebyg yn ffurfiol; mae adeilad a ddyluniwyd yn glasurol hefyd yn dangos ffurfioldeb*



***Dyfnder a Modelu:***

*yn draddodiadol, gosodir ffenestri i mewn i'r wal i'w gwarchod rhag y tywydd, sy'n rhoi dyfnder i'r wynebwedd (chwith); o osod ffenestri ar wyneb y wal ceir golwg gwastad, digysgod (dde)*




Hyd yn oed os deuant o ffynhonnell leol, dylid osgoi defnyddio defnyddiau yn amhriodol – mae'r llechi crog (chwith) er yn ddull adeiladu traddodiadol, yn ymddangos yn drwsgl ar raddfa fach; mae'r cerrig rwbel wedi'u torri ar hap â pheiriant yn debycach i gerrig wyneb na blociau cerrig chwarel



Yn y cyd-destun cywir a gan ddefnyddio technegau addas, mae defnyddiau lleol yn helpu i greu synnwyr o le drwy gyfleu lliw a naws yr amgylchfyd

**DYLAI`R EGWYDDORION CYFFREDINOL HYN HEFYD FOD YN BERTHNASOL I DDYLUNIAD ESTYNIADAU**

## GWARCHOD YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

### Yr Amgylchedd Adeiledig

Yn ogystal â'r rheolau cynllunio arferol, mae cyfyngiadau pellach ar rai ardaloedd neu adeiladau penodol y mae eu priodweddau arbennig, er enghraifft pwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol, cymeriad lleol neu hunaniaeth arbennig, yn haeddu eu gwarchod.

- **Ardaloedd Cadwraeth**
  Ardaloedd y dylid cadw a chyfoethogi eu cymeriad arbennig – o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol
- **Adeiladau Rhestredig**
  Adeilad neu grwp arwyddocaol o adeiladau o werth hanesyddol, pensaernïol neu ddiwylliannol arbennig
- **Henebion Cofrestredig**
  Olion hanesyddol fel cestyll, safleoedd diwydiannol, meini hirion

### Gwarchod

- Dylai unrhyw ddatblygiad neu addasiad arfaethedig fod yn unol â pholisïau cynllunio lleol: bydd y Cyngor yn gallu cynghori
- Nid yw Ardaloedd Cadwraeth yn hanesyddol statig – anogir datblygu newydd o ansawdd da i gymryd lle neu wella elfennau amhriodol neu wael sy'n bodoli eisoes
- Dylai pob datblygiad o fewn Ardal Gadwraeth, neu sy'n effeithio ar olygfeydd ohoni, gan gynnwys trawsnewid neu ailddefnyddio adeiladau a fu'n segur, wneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad yr ardal
- Mae mesurau rheoli Ardaloedd Cadwraeth yn berthnasol i goed, terfynau, arwyddion a hysbysebion, arwynebau a dodrefn stryd; mae mannau agored a phatrymau strydoedd yn arbennig o bwysig
- Rhaid i addasiadau i Adeilad Rhestredig beidio â niweidio'i gymeriad, ei nodweddion a'i osodion mewnol, a gwarchodir y libart a'r lleoliad hefyd
- Dylid cadw elfennau gwreiddiol lle bynnag y bo modd; dylid disodli a thrwsio gan ddefnyddio'r defnyddiau cywir a thechnegau priodol i oed ac adeiladwaith gwreiddiol yr adeilad

### Tirwedd

Am gyngor ar warchod tirweddau a nodweddion ecolegol, gweler Y Tirlun yn Gweithio dros Wynedd 2001

### Cyngor a Chaniatad

- Wrth gynllunio unrhyw waith o fewn Ardal Gadwraeth neu ar Adeilad Rhestredig, dylid ymgynghori â'r Cyngor yn fuan i gael cyngor, ac i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â phob caniatad angenrheidiol
- Mae'n drosedd gwneud unrhyw waith ar Adeilad Rhestredig sydd angen caniatâd, oni chafwyd y caniatâd hwnnw

### Gwaith Priodol

- Dylai arddull neu ddyluniad a defnyddiau fel rheol gydweddu â'r adeilad gwreiddiol, er y gall gwrthgyferbyniad fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau, fel cyswllt ffenestrog rhwng dau adeilad, er enghraifft
- Rhaid gwneud atgyweiriadau ar sail tebyg-am-debyg – dylai ffenestri newydd, er enghraifft, fod yr un fath nid yn unig o ran arddull, ond o ran defnyddiau hefyd
- Dylid cadw neu gopïo ffurf a goleddf to, a defnyddio defnyddiau traddodiadol, fel llechi naturiol, teils crib clai a seliau plwm
- Mae ffenestri to a dormer gwreiddiol yn fach o ran maint, ac yn gymharol ddisylw; to crib sy'n briodol ar ddormer
- Dylid cadw simneiau hyd yn oed os ydynt yn segur; ac osgoi cyddwysiad drwy ddarparu awyriad i simneiau na ddefnyddir
- Mae gosod wyneb newydd ar adeilad drwy orchuddio, chwipio â cherrig neu rendr sment, neu dynnu rendr neu stwco gwreiddiol, yn newid ei gymeriad
- Gall ffenestri cortyn a chasment gwreiddiol, yn y rhan fwyaf o achosion, gael eu trwsio'n llwyddiannus; mae atal drafftiau'n lleihau sŵn a cholled gwres
- Dylid cadw nodweddion fel fframiau drysau, drysau panel a ffenestri to, sy'n rhan o gymeriad yr adeilad
- Byddai landeri ac ati wedi'u gwneud o haearn bwrw fel arfer; nid yw landeri a phibelli plastig yn briodol
- Gweler hefyd yr adran ar Atgyweiriadau, tudalen 11, a Thaflenni Gwybodaeth Gyhoeddus yr Awdurdod Lleol am ganllawiau pellach


### Grantiau


Efallai y bydd cymorth ariannol i wneud gwaith trwsio priodol ar gael o amryfal ffynonellau – bydd y Cyngor yn gallu dweud os ydych yn gymwys

*Trosodd…*

*Mae'r pwyntiau canlynol yn bwysig wrth ehangu neu addasu adeiladau rhestredig neu hanesyddol, a rhai o fewn Ardaloedd Cadwraeth, er mwyn cadw manylion a defnyddiau gwreiddiol, a gwarchod ac ychwanegu at gymeriad yr ardal*


*dylid cadw simneiau, gan gynnwys y cyrn simdde gwreiddiol, ac unrhyw nodweddion eraill fel y silff garreg sy'n gwarchod uniad y to a'r simnai rhag dŵr*






*cadw ffenestri to gwreiddiol o haearn bwrw, neu osod ffenestri math 'cadwraeth' newydd yn eu lle. Maent yn fach ac nid ydynt i'w gweld uwchben gorffeniad y to*

*llechi Cymreig glas neu borffor sydd ar y toeau fel arfer, yn dibynnu ar y lleoliad o fewn y sir*




*dylai nwyddau glaw – landeri a phibellau – fod o haearn bwrw, wedi'i beintio'n ddu sgleiniog gan amlaf*



*diffinnir rhai arddulliau adeiladu gan ymylon bondo a thopwaith – dylid cadw'r rhain lle maent yn bodoli ond ni ddylid eu cyflwyno yn amhriodol*

*fel rheol bydd y bondo'n agored neu ag wynebfwrdd bach yn unig*


*dylid osgoi defnyddio cerrig chwipio, yn enwedig gyda cherrig lliw neu rai wedi'u mewnforio – mae'n cuddio defnyddiau a chymeriad lleol, gan wneud i'r adeilad edrych yn ddigymeriad a dinod, heb unrhyw ymdeimlad o berthyn o fewn ei gymdogaeth*



*peidiwch â rendro dros waith cerrig neu frics, na thynnu rendr gwreiddiol*

*wrth adnewyddu ffenestri a drysau dylid gosod rhai yr un fath yn eu lle, o ran arddull a defnydd – anaml y bydd ffenestri upvc yn gweddu'n dda â ffenestri traddodiadol, gyda'u fframiau trwm, eu diffyg manylwaith mân, a'u golwg fflat*

*dylid cadw linteli uwchben ffenestri, a siliau o danynt, a phob nodwedd addurnol*



*mae waliau terfyn, ffensys a giatiau, a gwaith tirweddu sy'n effeithio ar eu lleoliad, o fewn libart adeilad rhestredig, ac mewn Ardaloedd Cadwraeth, i gyd wedi'u gwarchod yr un fath â'r adeiladau*




Mae gan Ardaloedd Cadwraeth gymeriad arbennig sydd nid yn unig yn teilyngu gwarchodaeth ychwanegol rhag datblygiad anaddas neu ymwthiol, ond sydd hefyd yn deilwng o waith gwella cadarnhaol



Gall adeiladau rhestredig fod yn bwysig fel rhan o gymeriad y drefwedd, yn ogystal â bod â chymeriad unigol



Gallant fod yn anghysbell, yn fach neu'n fawr, ond ym mhob achos rhaid i unrhyw geisiadau am addasu gadw a chyfoethogi eu arwahanrwydd



Er ei bod yn annhebygol y caiff heneb gofrestredig ei addasu, edrychir yn graff ar unrhyw ddatblygiad a allai effeithio ar ei amgylchedd a'i leoliad

## SAFLEOEDD MEWNLENWI

Wrth ddylunio ar gyfer safleoedd bach neu safleoedd mewnlenwi, neu ailfodelu adeiladau sy'n bodoli mewn lleoliad canol tref, dylid ystyried y ffactorau canlynol:

- Mae'n hanfodol gwneud dadansoddiad gofalus o'r ymdeimlad o amgaead o gwmpas y safle, ei ffurfioldeb a'i raddfa, ac ymateb iddynt
- Mae defnydd cymysg, yn enwedig yng nghanol trefi, yn annog y defnydd mwyaf bob awr o'r dydd, ac yn gwella diogelwch; ond mae angen rhoi sylw arbennig i reoli sŵn, llygredd goleuni ayb.
- Mae angen deall yn iawn beth yw egwyddorion dyluniad adeiladau cyfagos, a hynny'n bensaernïol a hanesyddol, er mwyn sicrhau fod yr adeilad newydd yn ymateb yn effeithiol
- Bydd dynwared manylion pensaernïol cyfagos allan o'u cyd-destun yn rhoi synnwyr ffug o raddfa neu werth hanesyddol, ac anaml iawn y cynhyrchir adeilad o safon fel hyn
- Lle bo gan y strydlun gymeriad pendant iawn neu ei fod yn hanesyddol gyfan, bydd angen i'r dyluniad fod yn arbennig o sensitif, ond ni ddylai geisio copïo'i amgylchfyd o reidrwydd
- Efallai y bydd dyluniad modern da yn fwy priodol, yn enwedig i safle pwysig neu lle bydd yn creu canolbwynt; gall ategu ac ychwanegu at y strydlun o'i gwmpas, creu dilyniant hanesyddol a sicrhau llwyddiant economaidd i'r ardal
- Gellir cadw hunaniaeth gorfforaethol, ond dylai fod yn gynnil; dylai blaen siopau safonol, arwyddion a manylwaith mewn arddull tŷ, goleuadau, a chynlluniau lliw corfforaethol i gyd ddilyn rheolau sylfaenol graddfa a chyfrannedd, a dylid eu dylunio i fod yn gydnaws â'r arddull adeiladu
- Gellir cynyddu oriau defnyddio canol tref drwy ddarparu amrediad o wasanaethau fel caffis hwyr; mae siopau sydd wedi cau'n edrych yn llai brawychus os oes golau yn ffenestri'r siop, neu os oes golau'n tywallt allan drwy griliau diogelwch mewnol mandyllog, yn hytrach na chael caeadau diogelwch caeedig
- Dylid ystyried a oes angen ailddatblygu – mae gwneud defnydd llawn o loriau uwch ben siopau yn cynnig dewis arall cynaliadwy, a gall fod yn fwy ymarferol yn economaidd

## SAFLEOEDD MWY

Lle cynllunnir datblygiadau mwy, fel stad o dai newydd er enghraifft, mae'r canllawiau dylunio sylfaenol yn dal i fod yn berthnasol:

- Dylid rhoi sylw arbennig i gyd-destun gofodol yr ardal, felly byddai datblygiad o fewn ffiniau tref fel rheol yn ffurfiol, gyda theimlad gweddol amgaeedig, i osgoi ymlediad swbwrbia; gall patrwm anffurfiol mwy agored fod yn briodol ar gyfer cyrion y dref
- Mewn rhai amgylchiadau, gall datblygiad sydd â phwrpas gwahanol fod yn wahanol i'w gymdogion – er enghraifft, cynllun tai preswyl nesaf at ardal siopa canol y dref, neu ddatblygiad masnachol y bwriedir iddo fod yn gatalydd ar gyfer adfywio ardal sydd wedi mynd â'i phen iddi
- Rhaid i'r dyluniad, fodd bynnag, fod yn arbennig o sensitif, er mwyn sicrhau y cedwir ac y cyfoethogir cymeriad y lleoliad a'i ymdeimlad o le
- Dylai llwybrau clir, uniongyrchol i gerddwyr, a mesurau i leihau'r traffig a gynhyrchir, fod yn hanfodol i ddyluniad y safle; dylid datblygu cynllun y ffyrdd ochr yn ochr â chynllun y safle, nid fel y ffactor sy'n ei reoli
- Dylid dylunio adeiladau'n benodol ar gyfer y safle; nid yw mathau tai safonol, er enghraifft, yn ymaddasu'n dda i newidiadau lefelau fel arfer, a gellir gwneud y defnydd gorau o safle lle mae modd pennu cyfeiriadaeth tai i ddefnyddio'r topograffi, cael y budd mwyaf o'r haul, ac ymateb i nodweddion o'u cwmpas
- Mae naws oesol i waith dylunio modern da, a gall wella ac ychwanegu at ardal; dylid osgoi manylwaith 'ffasiynol' ac arddulliau ffug-hanesyddol sy'n dechrau dangos ôl dyddio, neu fathau tai safonol sydd heb unrhyw berthnasedd lleol
- Fe all fod yn briodol ailddefnyddio neu addasu adeilad segur o ansawdd da, neu grwp o adeiladau, fel hen safle diwydiannol, lle gellir dod o hyd i ddefnydd newydd addas sy'n unol â pholisi'r Cyngor, ac ar yr amod na pheryglir cymeriad yr adeilad a'r ardal o'i gwmpas

*Trosodd…*

Mae datblygiadau modern da yn parchu eu cymdogion, hyd yn oed os oes gwrthgyferbyniad rhyngddynt; byddant bob amser yn cyfoethogi ac yn cynnal naws eu hamgylchedd






*Croesawir dylunio arloesol a defnyddiau modern, dim ond iddynt gydweddu a chyfoethogi'r ardal o'u hamgylch*

*Dylai adeilad newydd mewn safle mewnlenwi cyfyngedig ddilyn yr egwyddorion màs, ffurf a graddfa a sefydlwyd gan yr adeiladau o'i gwmpas – lle mae plot mwy ar gael, efallai y bydd yn briodol is-rannu'r adeilad yn weledol i atgynhyrchu lled y plotiau yn unol â'r adeiladau cyffiniol*



Rheolir patrwm rheolaidd stryd gan fàs, ffurf a graddfa; mae adeiladau sydd heb ddilyn yr egwyddorion hyn yn rhoi teimlad digyswllt i flaen y stryd







Gall adeilad amlwg greu canolbwynt naturiol ar safle cornel



Collwyd cyfle i osod adeilad cyffrous o ansawdd uchel ar y safle cornel hwn o blaid ateb saff, sy'n gwneud dim ond osgoi gwrthdaro â'i gymdogion



I'r gwrthwyneb, mae'r adeilad ar y safle cornel hwn yn gwneud gosodiad pendant ond ar yr un pryd mae'n eistedd yn dwt ymysg ei gymdogion



Bydd dyluniad modern yn edrych allan o le os nad yw'n ystyried graddfa, ffurf na defnyddiau ei gymdogion



Dylai arddull a ffurf adeiladau modern fod yn berthnasol i'w hamgylchfyd – mae'r arddull trefol hwn yn gwneud i rywun feddwl am ardal adeiledig drefol, nid safle lled-wledig



Ni ellir rhoi 'cymeriad hanesyddol' i adeilad newydd digydymdeimlad drwy ychwanegu manylion ffug ac amherthnasol

## BLAEN SIOPAU

Yn draddodiadol, roedd blaen siopau'n cynnwys yr elfennau canlynol:

**A** **Wynebfwrdd ac arwydd**, gyda
**B** **Cornis** er mwyn gwarchod rhag y tywydd, a
**C** **Blwch Pen Pilastr**
Gall y wynebfwrdd, â llythrennau wedi'u peintio, fod ar ongl i ganiatáu darllen yr arwydd o'r stryd; gall blwch bleind ar gyfer adlen gynfas gael ei leoli dan y cornis. Maint, uchder a chymhareb y wynebfwrdd sy'n pennu graddfa a chyfrannedd blaen y stryd; i oleuo dylid defnyddio goleuadau cudd

**D** **Ffenestr**, wedi'i is-rannu gan
**E** **Croeslath** (lorweddol) a
**F** **Postyn ffenestr** (fertigol)
Ni ddylid gorchuddio'r gwydr ag arwyddion neu sticeri – dylid gadael i'r cynnwys hysbysebu'i hun

**G** **Pilastr, gyda**
**H** **Capan neu Gorbel** ar y pen uchaf, a
**I** **Bôn ar y gwaelod**
Mae hyn yn rhoi pwyslais fertigol, a chryfder gweledol a chynhaliaeth i'r lloriau uwch; dylid cadw pilastrau rhwng dau flaen siop nesaf at ei gilydd pan gysylltir dau adeilad

**J** **Blaen stondin**
Mae'n ffurfio gwaelod cryf i'r ffenestr ac yn darparu gwarchodaeth ar lefel isel

### Adeiladau sy'n bodoli eisoes

- Dylid cadw blaen siopau gwreiddiol sy'n bodoli eisoes a'u trwsio os oes modd
- Dim ond lle mae cofnodion hanesyddol ar gael yn dangos y gwreiddiol y dylid atgynhyrchu blaen siop coll neu un sydd wedi'i ddifetha'n ddrwg
- Os nad oes cofnodion, mae dyluniad mwy modern, ond gyda chydymdeimlad, yn well nag atgynhyrchiad hanesyddol amheus

### Adeiladau newydd

- Dylai blaen siop cyfoes fod yn berthnasol i'r adeilad ei hun a'i gymdogion o ran cyfrannedd, graddfa ac arddull, ond heb eu copïo
- Ni ddylid rhoi hunaniaeth ffug-hanesyddol i adeiladau newydd drwy gyfrwng blaen siop hen-ffasiwn
- Wrth arddel llinellau syml, clasurol ac amrediad cyfyngedig o ddefnyddiau, ceir dyluniad sy'n gweddu'n dda i'w amgylchfyd ac na fydd yn dyddio

## CANLLAWIAU

Gall holl gymeriad canol tref neu bentref gael ei newid wrth gyflwyno blaen siopau amhriodol; dyma bwyntiau i'w cofio:

- Dylid cadw at raddfa a chyfrannedd y gwreiddiol, a ddylai gyd-fynd â siopau drws nesaf
- Mae angen cadw digon o adeiladwaith solid ar y naill ochr a'r llall i'r agoriad, neu bydd golwg wan ar y blaen, heb ddigon o gynhaliaeth strwythurol i'r lloriau uwch
- Lle cyfunir dwy uned neu ragor, dylid is-rannu blaen y siop newydd i atgynhyrchu lled plotiau'r adeiladau uwch ben
- Yn draddodiadol, pren meddal wedi'i beintio oedd defnydd blaen siopau; mae'n well osgoi pren caled, alwminiwm neu ddefnyddiau tebyg yng nghanol tref neu bentref hanesyddol
- Dylid cadw 'blaen stondin' neu ddarn adeiladwaith solid o dan ffenestr y siop – mae hyn yn fwy boddhaol i'r llygad, yn amddiffyn rhag lladron sy'n gyrru ceir i mewn i ffenestri siop, ac yn caniatáu codi'r llawr arddangos mewnol yn nes at lefel y llygaid
- Mae drysau mewn cilfan yn darparu lloches, yn cynyddu arwynebedd y ffenestri arddangos, ac yn darparu lle diogel i'r drws agor
- Nid yw arwyddion mawr neu rai wedi'u goleuo'n fewnol yn briodol mewn canol tref traddodiadol – gall arwyddion peintiedig syml o fewn wynebfwrdd blaen y siop, gyda goleuadau cudd, fod yn effeithiol iawn
- Mae arwyddion a logos corfforaethol yn dderbyniol dim ond iddynt gael eu cadw o fewn terfynau uchder a lled yr wynebfwrdd
- Nid yw bleinds plastig disglair neu rai 'iseldiraidd' yn gweddu i'r ardal; mae bleinds rholio traddodiadol, sy'n cau i mewn i flwch bleinds sy'n ffurfio rhan o wynebfwrdd blaen y siop, bron yn anweledig pan fyddant wedi'u cau, ac yn rhoi cysgod effeithiol i ffenestr y siop pan fyddant wedi'u hagor
- Gall sgriniau a chaeadau diogelwch sy'n rhoi golwg garcharaidd i siop pan fydd wedi cau edrych yn fygythiol i bobl sy'n cerdded heibio, gan gyfyngu ar y defnydd o ganol y dref y tu allan i oriau siopa arferol; bydd griliau mewnol yn gadael i olau lifo allan, gan annog pobl i oedi wrth ffenestri i edrych ar y nwyddau tra yn parhau yn atalfa i ladron
- Rhaid i siopau, fel pob adeilad, fod yn gwbl agored i bawb, yn cynnwys yr anabl a'r llai abl


*Trosodd…*




Dyluniwyd blaen siopau traddodiadol a'u manylwaith i 'werthu'r siop heb fod angen addurniadau pellach fel arwyddion rhy fawr, goleuadau ffwdanllyd neu hunaniaeth gorfforaethol



Gall arwyddion rhy fawr amharu ar gydbwysedd blaen siop traddodiadol tebyg – bydd cadwyni siopau stryd fawr yn aml yn hyrwyddo hunaniaeth gorfforaethol fel hyn







Mae adlenni cynfas yn gwarchod cynnwys y ffenestri rhag golau haul uniongyrchol ond gellir eu cau o'r golwg i mewn i flaen y siop pan na fydd eu hangen



Mae bleinds Iseldiraidd bob amser yn weladwy hyd yn oed pan fyddant wedi'u cau; maent yn llawer mwy ymwthiol na bleinds traddodiadol, ac nid oes ganddynt y naws iawn ar gyfer canol tref traddodiadol

*Mae dyluniad blaen siopau traddodiadol yn amrywio, ond maent i gyd wedi'u creu o'r un elfennau – ni ddylai blaen siop modern llwyddiannus gopïo, ond dylai fod yn gydnaws â graddfa, cyfrannedd a naws gyffredinol yr adeiladau o'i gwmpas*



Mae blaen siopau sy'n ymestyn dros sawl uned heb gynhaliaeth ganolog, neu sy'n ymddangos fel pe bai eu hadeiledd yn annigonol i gario'r lloriau uwch, yn rhoi teimlad o ansadrwydd, a pherthynas wael gyda lled y plotiau gwreiddiol



Mewn gwrthgyferbyniad, mae blaen siopau'r adeilad newydd hwn, sy'n cwblhau teras o'r 18fed ganrif, yn atgynhyrchu lled y plotiau, â naws traddodiadol iddynt, ond heb fod yn ddynwarediad; mae hunaniaeth gorfforaethol i'w weld, ond yn gynnil, heb ddominyddu



Mae manylwaith modern da ar linellau traddodiadol yn parchu, ond heb ddynwared; mae blaengyrtiau taclus ac adeiladau ag arddangosfeydd bywiog yn creu ardal fasnachol fyw a chroesawgar





Nid yw caeadau diogelwch solid yn caniatáu i olau ddianc nac yn rhoi cyfle i edrych i mewn i'r ffenestr; gall gormod o siopau â chaeadau cau wneud i'r stryd deimlo fel lle i'w osgoi, sy'n anghyfforddus i bobl sy'n defnyddio'r dref fel man cyfarfod ar ôl oriau gwaith arferol nac yn croesawu rhyngweithiad naturiol gan leihau'r siawns o wyliadwriaeth oddefol



Nid yw caeadau y tu ôl i'r gwydr yn amharu ar flaen y siop; gellir gweld arddangosiadau wedi'u goleuo'n fewnol drwy griliau agored neu dyllog, gan annog pobl i edrych yn y ffenestri

## SAFLEOEDD MASNACHOL A DIWYDIANNOL

Rhaid sicrhau fod prif gynllun ar gyfer y safle yn ei le i bob datblygiad masnachol a diwydiannol, fel safleoedd manwerthu y tu allan i'r dref, stadau diwydiannol neu fasnachol a datblygiadau mawr eraill tebyg. Er y gall adeiladau unigol gael gwahanol ddylunwyr, dylent gydymffurfio â'r prif gynllun:

- Mae angen cynllunio rhwydweithiau ffyrdd, llwybrau troed / ceffyl a lonydd beicio, cysylltiadau trafnidiaeth eraill, mannau parcio a dadlwytho, mewn hierarchaeth addas – dylid rhoi blaenoriaeth i gerddwyr lle mai nhw fyddai'r prif ddefnyddwyr, fel mewn parciau siopa; gellir rhoi blaenoriaeth i gerbydau ar stadau diwydiannol
- Bydd gwaith plannu adeileddol yn diffinio a sgrinio'r safle, gan ddarparu lloches rhag y tywydd, a chyfyngu'r llygredd sŵn a golau a ddaw o'r safle
- Bydd angen ystyried lleoliad mannau cyhoeddus, mannau mwynder agored, a chynllun tirweddu ar draws y safle yn y cam dylunio cyntaf, gan ddefnyddio nodweddion sydd eisoes yno a'u cryfhau gyda phlanhigion brodorol priodol
- Bydd angen nodi adeiladau, waliau, gwrychoedd, ffensys a nodweddion tebyg sy'n bodoli eisoes ac sy'n addas i'w hailddefnyddio, a mesurau digonol ar gyfer diogelu planhigion presennol yn ystod y gwaith adeiladu ac wedyn
- Mae'n hanfodol integreiddio gwasanaethau tanddaearol, ceblau uwch ben, goleuadau, ayb., a darparu ar gyfer eu cysylltu ymhob plot
- Dylid nodi cynigion i gadw a chreu ynni lle bynnag y bo modd, ac i gyfyngu ar y defnydd o adnoddau prin, drwy ddylunio priodol, a hynny'n gynnar yn ystod y broses
- Rhaid darparu fframwaith y cytunwyd arno i sicrhau cynghanedd yn nyluniad adeiladau unigol, yn berthnasol i gymeriad yr ardal, fel y gall dylunwyr greu cynllun unedig
- Gall dylunio arloesol o safon uchel gael manteision economaidd, ac fe'i hanogir mewn lleoliadau priodol

Mae Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu prosiectau o'r fath, a dylid trafod cynigion gyda'r Cyngor yn gynnar yn y broses

## YSTYRIAETHAU DYLUNIO

Gall datblygiad ar gyfer defnyddiau masnachol neu ddiwydiannol gael effaith anghymesur ar gymeriad ardal os na wneir y peth yn dda; gall ei ddyluniad ddibynnu ar yr ardal lle y'i cynigiwyd, ond ym mhob achos, dylai berthyn i'w amgylchedd

- Dylai datblygiadau masnachol neu ddiwydiannol mewn lleoliadau hanesyddol, neu mewn ardaloedd â chymeriad arbennig, adlewyrchu'n agos graddfa, màs a ffurf yr adeiladau nesaf atynt, heb gael effaith andwyol arnyn nhw na'u defnyddwyr
- Gall ardaloedd heb gymeriad mor arbennig fod yn fwy goddefgar o ddylunio modern a hunaniaeth gorfforaethol, er efallai y bydd angen addasu atebion dylunio safonol i gydweddu â chymeriad yr ardal
- Tra bod defnyddiau a ffurfiau adeiladu traddodiadol yn well yn gyffredinol, gall dull mwy arloesol fod yn dderbyniol ar gyfer datblygiadau masnachol a diwydiannol, ar yr amod fod gwaith dylunio da a defnyddiau o ansawdd uchel yn amlwg
- Yn aml gellir addasu adeiladau segur yn llwyddiannus ar gyfer defnydd masnachol neu ddiwydiannol; dylid cadw'r cymeriad drwy osgoi newidiadau sy'n niweidiol i'r adeilad neu'r lleoliad
- Wrth addasu lloriau uwchben siopau ar gyfer defnydd preswyl neu swyddfeydd, dylid osgoi newid cymeriad yr adeilad drwy gynyddu nifer neu faint agoriadau, gosod ffenestri dormer mawr neu gau drysau i'r stryd
- Dylid sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer storio gwastraff, neu fynedfa gefn at yr adeilad er mwyn casglu sbwriel
- Bydd y defnydd o liwiau ac arwyddion corfforaethol yn dibynnu ar y lleoliad; ni fyddai rhywbeth a allai fod yn dderbyniol ar ochr ffordd fawr neu ar stad ddiwydiannol yn briodol yng nghanol pentref
- Yn yr un modd gydag arwyddion a goleuadau: dylid osgoi gormod o hysbysebu, a all fod yn wrth-gynhyrchiol ac, os yw nesaf at briffordd, dynnu sylw gyrwyr
- Dylai datblygiadau twristiaeth a hamdden yn enwedig gadw ac ychwanegu at gymeriad yr ardal, gwarchod y tirwedd, a defnyddio gwaith dylunio a defnyddiau o safon uchel

*Trosodd…*



Mae angen i ddatblygiadau diwydiannol neu fasnachol y tu allan i'r dref, neu mewn ardaloedd â chymeriad arbennig, fod yn arbennig o sensitif i'w hamgylchedd



Gall dyluniad modern sy'n defnyddio defnyddiau sy'n ymateb yn dda i'r ardal o ran graddfa, ffurf, cyfrannedd a lliw gynhyrchu ateb datblygu cynaliadwy ac ecolegol gadarn iawn



Mewn amgylcheddau llai bregus, gall fod yn dderbyniol defnyddio defnyddiau anhraddodiadol, ynghyd â manyleb o ansawdd uchel, a gan ystyried nodweddion lliw a threulio priodol



Collir synnwyr lleol o le os nad oes gan adeiladau unrhyw gydymdeimlad â graddfa, ffurf, defnyddiau nac arddull eu cymdogion




Nid yw defnydd helaeth ar 'arddull tŷ', lliwiau ac arwyddion corfforaethol yn ategu cymeriad lleol, yn enwedig mewn trefi a phentrefi hanesyddol, a dylid ei addasu i'r lleoliad



Mewn ardaloedd lle nad oes cymeriad mor glir, neu lle mae'r amgylchedd yn fodern neu drefol, mae mwy o le i fod yn wahanol ac yn newydd, o fewn amrediad o ddefnyddiau a manylion





Mae manylion ffyslyd, gormodedd o arwyddion, goleuadau a gwasanaethau, a gormod o hysbysebion, yn tynnu oddi wrth yr adeilad a golygfa'r stryd




Mae adeiladau â chaeadau diogelwch allanol, a phentyrrau sbwriel yn y stryd yn aros i'w casglu, yn gwneud i dref deimlo'n anghysurus ac anniogel y tu allan i oriau agor




Gall fod yn werth addasu unedau diwydiannol bach a mawr am resymau cynaliadwy ac economaidd, os gellir canfod defnyddiau addas










Gall canol trefi yn arbennig gael eu niweidio gan yr hyn a wna perchnogion adeiladau masnachol, fel caniatáu i loriau uwch fynd a'u pen iddynt, addasiadau anghydnaws, mynnu ar liwiau ac arwyddion corfforaethol neu wahanol, arddangos nwyddau y tu allan yn amhriodol; bydd amgylchedd taclus, wedi'i ofalu amdano'n dda, yn ddeniadol i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd, bydd yn teimlo'n fwy diogel, a gall fod o fudd i'r ardal yn economaidd ac yn amgylcheddol

## ADEILADAU NEWYDD

### Lleoliad

Mae gan y rhan fwyaf o aneddiadau gymeriad penodol iawn, y mae'n rhaid i'r datblygiad ei warchod ac ychwanegu ato

- Dylid dadansoddi'r berthynas rhwng adeiladau a gofodau o amgylch y safle – a ydynt wedi'u trefnu'n rheolaidd ynteu'n anffurfiol, a oes teimlad agored ynteu amgaeedig – a dylunio yn unol â hynny
- Dylid defnyddio topograffi'r safle er y gorau o ran cysgod, sgrinio, cyfeiriadaeth a chynllun
- Dylid dylunio cynllun ffyrdd ar gyfer mynediad hanfodol yn unig, gan roi blaenoriaeth i gerddwyr, a darparu moddau naturiol o dawelu traffig ac arafu cyflymder

### Ystyriaethau dylunio

- Dylid dylunio gan ystyried priodweddau'r adeiladau cyfagos
- Dylai pob adeilad fod yn arbennig i'w safle – anaml iawn y gall dyluniadau safonol ymateb i gyfyngiadau safle penodol
- Caiff cymeriad cefngwlad ei wanhau gan atebion dylunio safonol, sydd yn aml yn teimlo'n rhy swbwrbaidd, a chyflwyniad hunaniaeth gorfforaethol
- Mae angen i raddfa, dyluniad a defnyddiau barchu'r naws wledig; dylid osgoi datblygiadau mawr, trefol eu naws, a fyddai'n llethu'r pentref presennol
- Mae angen mynd ati mewn modd integredig i sicrhau cydweddiad rhwng yr adeiladau a nodweddion y safle – tirweddu, cynllun ffyrdd, triniaeth y terfynau a gorffeniad arwynebau
- Bydd planhigion a thirweddu meddal, a hynny gyda rhywogaethau brodorol, yn helpu i leddfu datblygiadau newydd eu cwblhau yn gyflymach, gan ddarparu dilyniant o fewn yr anheddiad
- Mae tirweddu caled, gan gynnwys palmentydd, waliau, ffensys a goleuadau stryd, yn bwysig yn weledol, a dylent gadw naws cefn gwlad, gan ddefnyddio defnyddiau ac arddulliau priodol
- Dylid dylunio i sicrhau hyblygrwydd a hir oes
    - effeithlonrwydd ynni
    - gwarchod adnoddau
    - gallu i addasu i newid yn y dyfodol
    - defnyddio defnyddiau naturiol
    - manylwaith priodol
    - ansawdd crefftwaith
    - gwarchodaeth a diogelwch

## ADDASU ADEILADAU

Mae addasu adeiladau segur, yn enwedig lle bydd hyn yn darparu cyfle i arallgyfeirio ar fferm, neu uwchraddio adeiladau gwael neu led-ddadfeiliedig, yn ddefnydd gwerthfawr o adnoddau presennol

- Bydd polisïau cynllunio lleol yn cadarnhau pa adeiladau y gellir eu haddasu, ac i ba ddibenion gwahanol
- Bydd angen i'r adeilad fod o ansawdd rhesymol ac mewn cyflwr y gellir ei adfer
- Dylai ffurf bresennol yr adeilad allu cyflawni ei ddiben newydd yn foddhaol heb fod angen gwaith addasu neu ailddylunio helaeth
- Gorau oll os yw'n agos at, neu o fewn, grwp o adeiladau, megis ysgubor segur ar fferm
- Byddai angen i'r safle gynnwys arwynebedd digonol o dir i sicrhau lle mwynderol a phreifa-trwydd, heb dynnu dim oddi wrth adeiladau drws nesaf
- Rhaid cael mynedfa addas i'r diben a fwriedir

### Dylunio ar gyfer addasu adeiladau

Dylai'r cynigion ar gyfer addasu'r adeilad a'r safle gydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol dylunio

- Ni ddylai'r defnydd newydd arfaethedig yr adeilad wrthdaro â'i gymeriad gwreiddiol na chymeriad unrhyw adeiladau cyfagos
- Dylid cadw ffurf yr adeilad gwreiddiol – gellir defnyddio cytiau presennol sydd ynghlwm wrth yr adeilad i ddarparu mwy o le, ond dylid osgoi ychwanegu estyniadau neu adeiladau allanol fel modurdai ar wahân
- Ni ddylid altro llinellau'r bondo a chrib y to; nid yw dormerau a simneiau'n addas ar adeiladau a fu gynt yn rhai amaethyddol neu ddiwydiannol, ond efallai y bydd ffenestri to'n dderbyniol
- Dylid cadw agoriadau gwreiddiol heb newid eu cyfraneddau na'u gwneud yn fwy; dylai rhai newydd, os yn hanfodol, fod yn debyg
- Dylid defnyddio defnyddiau a manylwaith priodol i'r math o adeilad, neu sy'n gydnaws â'r hyn sydd yno, er enghraifft, drysau byrddau syml ar addasiad ysgubor
- Dylai gwaith tirweddu, triniaeth arwynebau a defnyddiau terfynau fod yn briodol

*Trosodd…*



Mae pentref gwasgaredig nodweddiadol yng nghefn gwlad Gwynedd yn dangos y berthynas rhwng topograffeg ac adeiladau, sy'n gorwedd yn y tirwedd ac yn cael eu dominyddu ganddo



Mae cynllun pentrefi sefydledig yn berthnasol i ffurf y tir hefyd, gydag elfennau adeiledig yn creu mannau amgaeedig, ond sy'n dal i fod yn anffurfiol



Enghraifft dda o ddatblygiad yng nghefn gwlad sy'n defnyddio'r tirwedd, wedi'i ategu gan blannu cysgodol, i fod yn rhwystr rhag llygredd gweledol, sŵn a niwsans; i addasu'r hinsawdd a helpu effeithlonrwydd ynni'r adeiladau; i gynnal a rheoli traffig, ac i integreiddio'r amgylcheddau adeiledig a naturiol



Os eir ati i ddylunio safle ac adeilad mewn modd integreiddiol, gan ddilyn egwyddorion dylunio cyffredinol a lleol, gall hyd yn oed adeiladau newydd sy'n defnyddio defnyddiau newydd ymdoddi'n gyflym i'r tirwedd



Er ei fod wedi'i leoli'n dda, gyda choed aeddfed i'w integreiddio a'i gysgodi, mae'r tŷ yma serch hynny'n brin o gymeriad lleol yn ei fanylwaith



Mae'r datblygiad tai bychan hwn yn gwbl briodol i'w leoliad yn y pentref, gan wneud defnydd da o'r hen blotiau a therfynau



Dylid dilyn yr un egwyddorion, yn enwedig o ran lleoliad, gyda phob datblygiad yng nghefn gwlad, boed adeilad ai peidio. Mae'r parc carafanau hwn wedi'i leoli'n amlwg iawn yn y tirwedd: byddai coed cysgodi wedi'u lleoli'n dda yn lleihau'r effaith weledol wrth edrych o bell, yn gwella preifatrwydd ar y safle, ac efallai hyd yn oed yn rhoi cyfle am ddwysedd uwch





*Mae addasu adeiladau segur yn galw am ofal arbennig, er mwyn cadw'r cymeriad gwreiddiol, heb newid y ffurf yn sylweddol nac effeithio ar leoliad neu amgylchedd yr adeilad – gwell defnyddio allan-dai cysylltiedig yn lle ychwanegu estyniadau; dylid osgoi ychwanegu nodweddion anghydnaws, fel simneiau neu ddormeri i hen ysguboriau; dylid dylunio â dychymyg i ddefnyddio agoriadau drws ysgubor gwreiddiol i greu ystafelloedd braf, golau, er enghraifft, heb ddifetha cymeriad yr adeilad gwreiddiol*

## ATGYWEIRIO FFABRIG

Gall dealltwriaeth o’r rhesymau technegol ac ymarferol dros ddefnyddio defnyddiau a manylwaith alluogi penderfyniadau doeth ar ddulliau i atgyweirio ffabrig adeiladau:

### Simneiau

- Yn draddodiadol, roedd simneiau’n fawr er mwyn dal sawl ffliw, ac i amsugno ac ailbelydru gwres, gyda bandin neu fargodfeini o frics neu gerrig i atgyfnerthu’r pen uchaf a thaflu dŵr glaw i ffwrdd
- Oherwydd eu màs mae angen iddynt gael ei lleoli mewn man gweledol gryf, fel ar fan cyfarfod y talcen a’r grib
- Mae simneiau’n diffinio tai unigol drwy dorri llinellau to, ac mae eu huchder a’u manylwaith yn rhoi graddfa a chydbwysedd i olygfa’r toeau

### Toeau

- Mae toeau crib gyda gorffeniad llechi naturiol, ar oleddf rhwng 30–40°, yn gwarchod rhag tywydd garw ac yn ymdoddi i’r tirwedd
- Mae ymylon a bargodion cwta gyda throsgrogau bach yn gadarn ac yn economaidd
- Mae parapetau wedi’u chapio a cherrig yn rhoi teimlad o gryfder i’r talcen
- Yn wahanol i deils concrit, mae gan lechi naturiol arwyneb llyfn neu hollt ac amrywiadau lliwiau cynnil, gan roi gwead a gorffeniad arbennig i’r to
- Mae llechi artiffisial sy’n dynwared yr effaith hon ar gael; sicrhewch na fyddant yn newid lliw neu’n dirywio’n gyflym wrth fynd yn hen
- Er nad yw teils plaen o glai yn lleol i’r ardal, yr oeddent yn ffasiynol tua diwedd y 19eg ganrif a dechrau’r 20fed

### Ystafelloedd yn y To

- Defnyddir dormerau to crib i gynyddu uchder ffenestri sy’n goleuo ystafelloedd sydd yn rhannol yn y to, ac felly fe’u lleolir ar wyneb yr adeilad; does dim angen dormer ar ffenestri nad ydynt yn torri llinell y bondo
- Mae ffenestri to hefyd yn darparu golau ac awyriad ar lefel uchel i ystafelloedd yn y to; maent yn fach, mor ddisylw ag sy’n bosib, gyda phroffil isel ac wedi’u lleoli ar ochr ‘breifat’ y to
- Cedwir ymdeimlad o sadrwydd adeiladol drwy osod dim ond ffenestri bach mewn talcenni

### Waliau

- Mae waliau cerrig neu frics yn darparu adeiledd cryf a all wrthsefyll y tywydd; i’w hatgyweirio dylid ailbwyntio, nid gorchuddio
- Mae mortar ar gyfer pwyntio, sy’n wannach na’r garreg neu’r fricsen, ac wedi’i orffen yn gyfwyneb â hi, yn caniatáu symudiad heb gracio, ac yn gadael i’r waliau anadlu
- Adeiladwyd gwaith cerrig neu frics o ansawdd salach i gael ei rendro neu ei wyngalchu; gorffeniad priodol i wrthsefyll y tywydd fyddai rendr llyfn neu arw gan ddefnyddio tywod a cherrig mâl lleol
- Mae cerrig chwipio neu sbar chwipio modern, sy’n seiliedig ar sment, yn anhyblyg, a gall gracio, gan achosi tamprwydd
- Gosodir cerrig ar eu hwyneb gorwedd naturiol i wrthsefyll treiddiad dŵr a niwed gan rew; defnyddir cerrig gwastad neu gerrig nadd ar gyfer copaon a siliau i warchod pen waliau
- Mae defnyddiau a chadernid saerniol yn gyd-ddibynnol; does dim pwrpas i wynebau neu baneli cerrig a osodir ar y wal heb berthynas â’r adeiladwaith ac maent yn weledol wan

### Ffenestri a Drysau

- Rheolir arddull a golwg drysau a ffenestri gan eu perfformiad ymarferol yn hytrach nag ar sail addurniadol
- Mae agoriadau ar y cyfan ar raddfa fach, gyda chyfrannedd mwy o arwynebedd wal nag o arwynebedd ffenestri
- Mae bwa neu lintel weladwy dros agoriad yn dangos sadrwydd saerniol
- Mae sil ffenestr ymwthiol yn taflu dŵr oddi ar y wal
- Gosodir ffenestri’n ôl oddi wrth wyneb y wal i warchod y ffrâm – mae hyn hefyd yn cadw wyneb y tŷ rhag bod yn wastad ac anniddorol
- Mae fframiau a bariau gwydro yn gul ac wedi’u siamffro neu eu mowldio, i adael i olau’r haul ddod i mewn ac adlewyrchu i’r eithaf
- Pwyslais fertigol sydd i gwareli unigol a ffenestri fel ei gilydd; caiff ffenestri mwy eu hisrannu’n unedau cymesur llai
- Mae drysau byrddiog neu banelog ar raddfa ddynol ac yn gadarn eu hadeiledd

### Cynteddau allanol

- Bwriedir i gynteddau allanol warchod adwy’r drws rhag y tywydd, ac felly maent ar raddfa fach, ac yn syml o ran ffurf a manylion

*Trosodd…*

# GWYNEDD

## ATGYWEIRIADAU

11



Ni warchodir cymeriad lle drwy ddefnyddio arddulliau ffug hanesyddol neu gyfansoddion a manylwaith safonol o’r cymeriad lleol neu gyfnod amhenodol



Mae cadw nodweddion, manylion, ayb. presennol, neu roi rhai yr un fath yn eu lle, yn ased werthfawr i gadw cymeriad a gwerth yr eiddo



Mae ‘moderneiddio’ eiddo hŷn gyda chyfansoddion, manylwaith a gorffeniadau sydd heb ddim perthnasedd lleol na hanesyddol yn newid ei gymeriad yn llwyr



Mae angen cyplysu atgyweirio effeithiol â manylwaith addas – difethwyd ffurf osgeiddig y to a gwaith llechi da gan deils ystlys rhy fawr



Gall ehangu agoriadau ffenestri i adael mwy o olau i mewn gael effaith weledol andwyol os na ddewisir cyfraneddau ac arddulliau addas



Lle na ddymunir gosod ffenestri union yr un fath, ffenestri syml o gyfrannedd tebyg (uchder i led a gwydr i ffrâm) sydd fwyaf priodol





Mae gwaith pwyntio o sment caled, yn enwedig os yw o ansawdd gwael (chwith), a phwyntio rhubanog (dde) yn hyll a gall niweidio gwaith cerrig: bydd y mortar yn cracio i ffwrdd oddi wrth y cerrig, gan adael i ddŵr glaw a rhew dreiddio i’r wal; mae’n anhydraidd hefyd, sy’n atal y ffabrig rhag sychu, gan annog treiddiad lleithder i’r tu mewn




*simnai fawr gyda cherrig hindreulio a diferu*

*to llechi lleol o ansawdd da gyda chribau clai plaen*

*manylion bondo ac ymylon traddodiadol – bondo â wynebfwrdd bach neu ddim o gwbl ac ymylon wedi’u clip io heb estyll tywydd*

*estyll tywydd rhy fawr i’r dormer*



*pwyntio gwael ar waith cerrig gan ddefnyddio morter o liw nad yw’n gweddu*

*wal gerrig draddodiadol dibatrwm neu ar batrwm bras yn defnyddio defnyddiau lleol*



*mae ffenestri newydd â bariau gwydro ffug yn ddiffygiol o ran modelu a dyfnder – mae nodweddion adlewyrchol gwydro aml-gwarel yn arbennig o absennol*

*Tra bod yr angen i gadw cymeriad adeiladau traddodiadol yn golygu ei bod yn hanfodol defnyddio defnyddiau a chyfansoddion addas ar gyfer cynnal a chadw, gall yr effaith gyffredinol ac oes y gwaith atgyweirio ddioddef yn ddifrifol gan fanylwaith anghywir, technegau amhriodol i’r defnyddiau a ddefnyddiwyd, a chrefftwaith o safon wael*

*Gall fod angen cymeradwyaeth Rheolau Adeiladu cyn gwneud gwaith atgyweirio, i sicrhau y cydymffurfir â safonau cyfredol – gall y Cyngor eich cynghori*

## CYNLLUNIO

Cyn gwneud unrhyw addasiadau, ymgynghorwch â'ch Swyddog Cynllunio lleol, a all gynnig arweiniad cyffredinol ar eich cynigion, a chyngor ar yr isod:

- Pa addasiadau sydd angen Caniatâd Cynllunio gan y Cyngor
- Y rheolau ychwanegol sy'n weithredol mewn Ardaloedd Cadwraeth, ac ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar Adeiladau Rhestredig
- Caniatadau eraill fel Cymeradwyaeth Rheolau Adeiladu, neu fesurau rheoli penodol fel Cyfarwyddebau Erthygl 4

### Ehangu neu Wella Cyfleusterau

- Ystyriwch yr hyn ydych yn ceisio'i gyflawni yn ofalus – fe all fod ffyrdd eraill i ddarparu'r lle ychwanegol sydd arnoch ei eisiau heb adeiladu estyniad
- Fel rheol, yr unig addasiadau sy'n werth eu gwneud yw rhai a wnaiff ychwanegu at werth yr eiddo
- Peidiwch ag ymestyn y tu hwnt i'ch modd – mae gwelliannau bach sydd wedi'u gwneud yn dda yn well na chynllun rhy uchelgeisiol sydd o ansawdd gwael
- Cofiwch fod cynyddu maint adeilad yn lleihau'r gofod o'i gwmpas – gwnewch yn siwr na chaiff hyn effaith andwyol ar yr eiddo ei hun na'i gymdogion
- Gweithiwch gyda chymeriad yr adeilad gwreiddiol, nid yn ei erbyn – efallai y bydd raid ichi dderbyn fod yna rai addasiadau a fyddai'n niweidiol i'r eiddo
- Gall addasiadau digydymdeimlad, manylwaith ffwdanllyd, a 'moderneiddio' drwy dynnu cymeriad neu nodweddion, i gyd ostwng gwerth eiddo
- Ni ddylid addasu tai mewn teras neu res o adeiladau tebyg mewn unrhyw fodd sy'n dinistrio undod y grwp
- Nid yw elfennau modern fel drysau patio, drysau garej dwbl ac ystafelloedd gwydr (hyd yn oed rhai 'hanesyddol' eu harddull) bron byth yn briodol ar hen adeilad, ac ni ddylid byth eu lleoli ar wyneb cyhoeddus neu brif wyneb yr eiddo
- Mae estyniadau a dormerau to fflat yn anghydnaws a byddant yn dominyddu ffurf adeilad to crib traddodiadol; yn ogystal, mae toeau ffelt angen llawer o waith cynnal ac oes fer sydd iddynt
- Nid yw cydrannau oddi ar y silff o reidrwydd yn cynnig y gwerth gorau am arian

## MANYLION DYLUNIO

### Ffurf a Graddfa

- Ni ddylai estyniadau ddominyddu'r adeilad gwreiddiol – yn gyffredinol maent yn well yn llai o faint, gyda llinell crib is, ac wedi'u gosod fymryn yn ôl o'r gwreiddiol
- Dylai ffurf estyniad gydweddu â'r adeilad gwreiddiol – yn debyg o ran cyfrannedd, goleddf y to ac uchder y bondo
- Gellir gwneud i estyniad to crib ymdoddi i'r gwreiddiol yn ddiasiad – nid yw toeau gwastad yn draddodiadol a dim ond mewn achosion penodol iawn y byddent yn dderbyniol
- Dylai cynteddau allanol adlewyrchu arddull yr eiddo, a bod yn fach o ran graddfa

### Agoriadau Ffenestri a Drysau

- Dylai cyfrannedd wal solid i agoriadau, a chydbwysedd a chymesuredd eu trefniant, fod yn debyg i'r gwreiddiol, nid yn gwrthdaro
- Mae agoriadau sy'n dalach na'u lled yn edrych yn fwy cain na rhai llorweddol; lle caiff ffenestri eu hisrannu'n unedau llai, dylai'r rhain i gyd fod yn debyg o ran eu cyfeiriadedd
- Wrth osod drysau a ffenestri newydd dylid atgynhyrchu manylion yn ofalus; mae 'copïau' safonol o ddyluniad gwael ac arddulliau 'yr oes a fu' yn ddi-chwaeth ac yn rhoi negeseuon hanesyddol cymysg

### Manylwaith


- Dylid cadw manylion yn syml – gall fod yn briodol ailadrodd nodwedd neu arddull addurnol sy'n bodoli, ond dylid osgoi gorlethu estyniad bach â gormod o fanylder

### Defnyddiau

- Yn gyffredinol mae'n well defnyddio defnyddiau sy'n cydweddu â defnyddiau'r adeilad gwreiddiol; lle na ellir cael cyfatebiaeth dda, dylid defnyddio defnyddiau sy'n gydnaws ag arddull a naws y presennol
- Dylid osgoi cymysgu gormod o ddefnyddiau, neu ddefnyddio defnyddiau ffug fel cerrig wyneb
- Mae manylwaith a chrefftwaith da yn hanfodol i sicrhau y caiff defnyddiau oes hir
- Os yw safon y dylunio a'r manylwaith yn uchel, efallai y gellir cyfiawnhau defnyddio defnyddiau a chydrannau modern


*Trosodd…*


*os yw addasiadau'n difetha undod teras neu grwp o adeiladau tebyg, drwy dorri llinell y to, newid maint neu gyfrannedd ffenestri, ychwanegu neu dynnu cyntedd allanol neu ffenestr fwa, dileu manylion cyson neu ailorchuddio toeau a waliau, mae hynny'n anghydnaws â chymeriad y grwp a dylid ei osgoi*







*i gadw cymeriad y gwreiddiol, dylai cyfrannedd a ffurf yr estyniad ynghyd a'r manylwaith a'r deunyddiau fod yn addas i'r adeilad presennol*









*dylid osgoi estyniadau sy'n dominyddu'r adeilad gwreiddiol, yn annhebyg eu ffurf, neu'n anghymesur ag ef – mae hyn yn cynnwys estyniadau neu ddormerau to fflat, sy'n edrych yn bendrwm ac yn anghyson, a chynteddau neu ystafelloedd gwydr mawr*



*Dylai maint a chyfrannedd agoriadau, a chymhareb arwynebedd y wal i'r ffenestri fod yn debyg i'r gwreiddiol, er mwyn cadw sadrwydd a chydbwysedd*








Ni ddylid caniatáu hyd yn oed i addasiadau sy'n angenrheidiol i ddibenion ymarferol, neu sydd o ryw les fel arbed ynni, amharu gormod ar yr adeilad na'i gymdogion





Bydd addasiadau sy'n cyd-fynd ar hyd teras neu grwp o adeiladau yn cadw'r undod a'r cymeriad – trafodwch addasiadau a fwriedir gyda chymdogion. Efallai y byddai ganddynt hwythau ddiddordeb mewn gwneud gwelliannau tebyg ar yr un pryd



Nid yw arddulliau henffasiwn oddi-ar-y-silff yn atgynhyrchiad da, ac yn aml fe'u defnyddir tu allan i'u cyd-destun

## ATAL TROSEDDAU TRWY DDYLUNIAD

Gall penderfyniadau a wneir gan berchnogion a datblygwyr eiddo yn ystod y broses ddylunio a chynllunio wneud llawer i atal troseddau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, a gall hyn fod yn ofynnol fel amod wrth roi cymeradwyaeth gynllunio

### Dylunio amgylcheddol

- Gellir defnyddio dyluniad a chynllun stadau tai a diwydiannol, canolfannau siopa, meysydd parcio ayyb, i ddylanwadu ar y teimlad o ddiogelwch drwy feithrin ymdeimlad o gydberchnogaeth ar y lle
- Mae datblygiadau defnydd cymysg, heb oriau preswyliaeth sefydlog, a stadau gydag amrywiaeth o fathau o dai, yn cynyddu'r potensial ar gyfer gwyliadwriaeth naturiol
- Mae cynlluniau sy'n ymgorffori ffyrdd pengaead neu ddreifiau preifat gyda mynedfan benodol yn creu gofod amddiffynadwy lle mae'n fwy tebygol y sylwir ar ddieithriaid
- Os na fydd mannau cyffredin, llwybrau a pharciau chwarae dan lygaid sawl eiddo cyfagos, cerddwyr neu gerbydau sy'n mynd heibio, gall trespaswyr deimlo'n guddiedig, ac felly'n ddiogel
- Efallai na fydd mannau eang cyhoeddus neu sydd mewn cydberchnogaeth yn ysgogi cydgyfrifoldeb; mae mannau sy'n amlwg yn eiddo i rywun yn llai tebygol o ddenu stelcwyr
- Dylai gerddi, iardiau cefn a mannau parcio preifat fod yn weladwy o'r eiddo, ond wedi'u diffinio'n glir gan derfynau sy'n cadw trespaswyr draw – gwrychoedd dreiniog, ffensys na ellir eu dringo a giatiau a chlo arnynt; mae potensial perygl mewn lonydd culion sy'n rhoi mynediad i erddi cefn
- Ni ddylai planhigion, waliau a nodweddion tirwedd eraill roi lloches i ddarpar ladron: dylid cadw gorchudd y ddaear dan 1 metr o uchder, a chodi gorchudd dail y coed uwch lefel y pen
- Mae angen i lwybrau beic a throed fod yn weddol uniongyrchol, heb ben caeedig na mannau cuddio, a bod wedi'u goleuo'n dda; mae lleihau nifer y llwybrau drwy'r safle'n crynhoi'r traffig cerddwyr, ac yn cyfyngu ffyrdd dianc posibl
- Mae cysgodion a mannau tywyll yn rhoi cuddfannau braf i ddrwgweithredwyr – mae lefelau da o oleuo'n hanfodol i sicrhau gwarchodaeth a diogelwch, ac i sicrhau y bydd mannau agored yn ddeniadol ac y gwneir defnydd da ohonynt

### Dyluniad diogel o adeiladau

Gellir gwarchod adeiladau unigol drwy sawl mesur, a bydd llawer o'r rhain yn lleihau troseddwyr 'bachu-ar-gyfle', a gallant hyd yn oed gadw lladron penderfynol draw

- Drysau, ffenestri a giatiau cryf a diogel, gyda chloeon da gyda dull'cau'n glep'
- Mesurau gwarchod fel systemau larwm, camerâu cylch caeedig, dyfeisiau gweld drwy ddrysau a chadwyni drws
- Goleuadau ar ddrysau allanol, lonydd cefn a mannau bregus
- Swyddogion diogelwch

Mae angen ystyried y mannau gwan posib isod, a'u hepgor o'r dyluniad neu eu haddasu lle bynnag y bo modd:

- Gellir dringo waliau, adeiladau allanol, dodrefn stryd neu goed i gyrraedd ffenestri, toeau neu landeri dŵr glaw, neu i fynd i mewn i erddi
- Mae toeau gwastad, cynteddau a balconïau, yn enwedig y rhai sy'n cysylltu tai unigol, ar lefel y llawr cyntaf ac wedi'u cuddio o'r golwg
- Gellir torri cwareli gwydr bach i gyrraedd clicedi bawd, clicedi ffenestri neu folltiau
- Ffenestri to a hatshys neu gaeadau mynediad, yn enwedig os oes ganddynt baneli y gellir eu tynnu o'r tu allan
- Gall drysau patio, ystafelloedd gwydr, garejys a chytiau fod yn fwy bregus, ac yn aml bydd ganddynt ddyfeisiau cloi llai diogel na'r prif adeilad
- Gall landeri dŵr glaw a phibelli eraill, a hefyd blanhigion dringo neu ymlusgol, fod yn bwyntiau mynediad sy'n denu lladron
- Mae adeiladau neu fannau sydd heb eu cynnal yn dda yn ymddangos yn dargedau hawdd i droseddwyr, maent yn fwy tebygol o ddenu fandaliaeth, a gallant fynd yn fannau cyfarfod lle bydd ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu droseddol yn datblygu

### Diogelwch drwy Ddyluniad

Cynllun gan yr heddlu yw Diogelwch drwy Ddyluniad sy'n ceisio annog creu amgylcheddau diogel drwy sicrhau nad yw dyluniadau'n cynnig cyfleoedd ar gyfer troseddau a pherygl troseddau. Gellir mabwysiadu ei egwyddorion mewn unrhyw ddatblygiad, ond gall stadau tai sydd wedi'u dylunio a'u hadeiladu'n unol â'r canllawiau, ac sydd wedi cyrraedd y safonau cymeradwy, ennill tystysgrif Diogelwch drwy Ddyluniad.

*Trosodd…*

# GWYNEDD

## ATAL TROSEDDAU



*bydd newid arwyneb i ddynodi dreif preifat a rennir yn rhoi ymdeimlad ychwanegol nad ffordd gyhoeddus yw hon, ac y sylwir ar ddieithriaid a ddaw i mewn*

*gellir defnyddio biniau olwyn i ddringo dros waliau a ffensys – dylid cael lle diogel i'w cadw*

*dylid osgoi toeau gwastad, peipiau landeri, planhigion dringo a moddau eraill sy'n temtio pobl i geisio cael mynediad, neu eu lleoli yng ngolwg pobl sy'n cerdded heibio*

*mae ffensys neu waliau uchel a gwrychoedd llawn neu ddreiniog yng ngwaelod gerddi'n cadw trespaswyr allan; gall terfynau rhwng dau eiddo neu y gellir eu goruchwylio fod yn is, gan ei bod yn haws gweld rhywun yn trespasu*

*dylai gorchudd dail y coed fod yn uwch na 2m i roi golygfeydd clir o danynt; dylai planhigion ar y llawr fod yn is na rhyw 1m fel na ellir eu defnyddio fel cuddfan*


*yn aml lleolir cyrtiau parcio ceir a modurdai mewn grwp o'r neilltu i leihau sŵn ac aflonyddwch – gall hyn ei gwneud yn anodd i'w gwylio ac felly yn darged i fandaliaid a throseddwyr*

*dylid cau gerddi cefn â mynedfeydd a giatiau*

*mae angen i lwybrau a ffyrdd sy'n croesi'r safle fod yn uniongyrchol, yn hawdd eu gwylio, ac wedi'u goleuo'n dda i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel i'w defnyddio; gall llwybrau heb fawr o ddefnydd, fawr o olau, â digon o blanhigion i guddio ynddynt neu ffyrdd i ddianc, fynd yn lleoedd lle bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn datblygu*

*mae angen goleuadau stryd da ar bob man cyhoeddus yn cynnwys llwybrau, ond dylid cyfeirio'r golau fel nad yw'n peri niwsans i berchenogion eiddo*

*mae cymdogaeth daclus yn ennyn balchder a theimlad o berthyn; gall mannau nad ydynt yn amlwg ym mherchnogaeth rhyw eiddo cyfagos gael eu hesgeuluso*



*nid yw'n hawdd cadw llygad naturiol ar lonydd cefn ac ochr, yn enwedig os oes sawl pwynt mynediad iddynt*

*mae mesurau diogelwch da fel cloeon mortais, cadwynau drws a dyfeisiau gweld, systemau larwm ayb, yn rhoi teimlad o ddiogelwch yn ogystal â chadw lladron siawns draw*

*bydd yr henoed neu'r bregus yn teimlo'n fwy diogel os yw eu heiddo wedi'i leoli mewn man lle gall pobl sy'n cerdded heibio gadw llygad arnynt*

*dylai blaendiroedd agored nad ydynt yn gyfrifoldeb un perchennog cyfagos, fel gyda tai gwarchod, mannau chwarae, ayb, gael eu cynnal yn rheolaidd gan y Cyngor*

*rhaid i rywun sy'n dod i mewn i ffordd bengaead fynd allan yr un ffordd, sy'n dyblu'r siawns iddynt gael eu gweld*

*Bydd cyfuniad o fathau o dai yn rhoi cymysgedd o breswylwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl o gwmpas yn ystod y dydd, a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gwyliadwriaeth naturiol*

*bydd marciau clir i nodi pwynt mynediad i stad yn tynnu llinell rhwng mannau preifat a chyhoeddus, ac yn gymorth i gadw unrhyw un heb fusnes yn y stad rhag dod i mewn*

## EIDDO CYHOEDDUS

Eiddo cyhoeddus yw'r term am y mwynderau sydd ar gael i'w defnyddio ar unrhyw bryd gan y cyhoedd. Gellir eu darparu a'u cynnal gan gyrff cyhoeddus, neu gallant ffurfio rhan o gynllun datblygu, i'w cynnal un ai dan drefniant ar y cyd rhwng yr holl berchnogion neu denantiaid, neu eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Lleol.

## GOFOD AGORED

Ceir gofod agored rhwng pob adeilad, ac mae'n angenrheidiol er mwyn golau, preifatrwydd, mwynder a diogelwch

- Mae angen ystyried yn ofalus wrth ddylunio mannau agored, yr un fath â'r adeiladau
- Mae lefel uchel o fanylu a defnyddiau o ansawdd da yn hanfodol i wrthsefyll traul a chadw gwaith cynnal cyn lleied ag sy'n bosib
- Lle bynnag y bo modd, dylid ceisio sicrhau fod unrhyw fannau agored sy'n angenrheidiol ar gyfer mwynder, gwelededd wrth gyffyrdd, neu rywbeth tebyg, wedi'u cynnwys o fewn perchnogaeth yr eiddo nesaf atynt, er mwyn annog eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd
- Dylid gallu edrych dros fannau agored – mae gwyliadwriaeth yn lleihau'r risg o fandaliaeth a throseddu

## DYLUNIAD FFYRDD

Dylid cyfeirio at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd am arweiniad ar ddylunio ffyrdd. Ar ben hynny, dylid ystyried

- Dylunio i leihau'r defnydd o geir preifat, a dylunio i leihau nifer y siwrneiau a wnânt
- Ni fydd graddfa a manylder trefol yn briodol i ffyrdd a llwybrau mewn pentrefi ac yng nghefn gwlad – anaml y bydd angen cyrbiau concrit uchel a phalmentydd llydan y tu allan i drefi
- Gellir lleihau effaith ffyrdd drwy ddilyn cyfuchliniau'r tir, ac ystyried nodweddion tirwedd naturiol
- Tra bod diogelwch yn hollbwysig, dylid ystyried gofynion holl ddefnyddwyr y ffyrdd, gan gynnwys beicwyr a cherddwyr
- Mae angen i dechnegau lleihau cyflymder adlewyrchu'u lleoliad – mae band syml o setiau gwenithfaen sy'n ffurfio stribed rymblan i arafu traffig sy'n dod i mewn i bentref fel arfer yn ddigonol
- Nid oes angen arwyddion mawr yng nghanol trefi neu bentrefi lle bydd cerbydau'n teithio'n arafach

## ARWYNEBAU

Mae angen i arwynebau ffyrdd a phalmentydd fod yn addas i'r cyd-destun o'u cwmpas yn ogystal ag i'r math o draffig a fydd yn eu defnyddio

- Dylid dewis defnyddiau a mathau o balmantu addas i'r math o draffig a graddfa'r ardal – mae arwynebau di-dor fel tarmac a slabiau palmantu mawr yn briodol i fannau mawr lle ceir traffig trwm, tra bod unedau bach fel brics pafin a setiau gwenithfaen yn braf i gerddwyr
- Gydag arwynebau caled anhydraidd mae angen draeniad tanddaearol; mae palmant elfennau bychain, i ryw raddau, yn fandyllog
- Dylai defnyddiau, lliwiau a gorffeniadau arwynebau fod yn briodol i'r ardal – nid yw brics pafin coch a tharmac lliw yn addas ar gyfer canol tref o adeiladau cerrig a rendr
- Dylid cadw patrymau strydoedd traddodiadol – dylai stryd wedi'i phedestrianeiddio gadw rhyw nodwedd i ddangos hen linellau'r palmentydd, er mwyn dilyniant hanesyddol a hefyd fel dangosydd graddfa
- Gellir defnyddio gwahanol fathau o gerrig palmant i wahanu gwahanol ddefnyddiau neu ffyrdd, neu hyd yn oed i gadw pobl draw, ond dylid osgoi gormodedd o orffeniadau
- Defnyddir arwyneb y gellir ei deimlo, fel slab pafin â styds yn codi ohono wedi'i osod i mewn i'r palmant, i roi arwydd corfforol o berygl i rai â nam ar eu golwg, wrth groesfannau cerddwyr, cyffyrdd ac ati
- Mae defnyddwyr cadair olwyn angen arwynebau gweddol lyfn, palmentydd digon llydan a chyrbiau wedi'i gostwng
- Gellir defnyddio gorffeniadau arwyneb, yn ogystal â gosodiad a lled y ffordd i reoli traffig a nodi yn effeithiol blaenoriaeth rhwng cerddwyr a cherbydau
- Drwy ddewis gorffeniadau arwyneb priodol, efallai y bydd yn bosib gwahardd neu atal parcio heb fod angen llinellau melyn
- Gall datblygiadau preswyl llai fod â mannau 'rhannu defnydd', ag arwyneb sy'n nodi blaenoriaeth i gerddwyr, lle mae'n rhaid i geir yrru'n araf iawn
- Mae arwynebau meddalach fel graean neu rhisgl yn draenio'n dda, gan wneud gorffeniad da i lwybrau anffurfiol mewn datblygiadau bach, parciau, neu yng nghefn gwlad, lle bydd y draul yn gyfyngedig – mae angen i'r graean neu'r rhisgl gael ei amgáu yn addas gyda pren wedi'u staenio

*Trosodd…*




Gall diffyg strwythur ac elfennau sy'n rhoi graddfa olygu bod mannau agored mawr yn ddigymeriad, ac yn cael eu chwipio gan y gwynt; dim ond atgyfnerthu'r diffyg diddordeb a wna'r polion lamp rheolaidd



Gall mannau agored o fewn tref fod yn ganolbwynt gweithgaredd; mae mannau dal bws, digon o seddi, a digon o lefydd parcio yn hwyluso cyfarfod ar hap ac yn annog cymdeithasu




Mae angen manylwaith cryf ac arwynebau sy'n para'n dda i wrthsefyll traul mewn man cyhoeddus prysur; bydd y dewis cywir o orffeniadau'n atgyfnerthu ei gymeriad




Ar y llaw arall, wrth gadw'r patrwm stryd traddodiadol a defnyddio defnyddiau priodol, cyfoethogwyd y lôn hon a darparwyd gorffeniad deniadol ac ymarferol



Hyd yn oed os yw'r defnyddiau a'r manylion yn dda, gellir difetha'r effaith gyffredinol drwy dechnegau gosod neu grefftwaith gwael



Crëwyd arwyneb caled, ond â draeniad da, yn diffinio mannau parcio, ac yn lleihau cyflymder drwy gynhyrchu 'rymblan', yn gelfydd drwy ddefnydd da o ddefnyddiau lleol



Dylid peidio gosod manylwaith trefol fel cyrbiau concrit safonol ar ochrau ffyrdd gwledig a chael ymyl meddalach



Ar gyfer datblygiad gwledig neu led-wledig, mae defnyddiau naturiol syml fel arwynebau llwch llechi neu raean, ymylon pren, a stribedi rymblan cerrig yn gwbl briodol



Mae stribedi rymblan syml wrth fynd i mewn i bentrefi'n rhoi rhybudd gweledol a chlywedol i arafu heb fod yn rhy amlwg na diolwg

## TERFYNAU

Mae terfynau'n elfen bwysig mewn unrhyw dirwedd, ac mae angen eu hystyried yn ofalus

- Dylid cadw ac atgyfnerthu unrhyw wrychoedd, waliau neu ffensys traddodiadol sy'n bodoli eisoes
- Dylid ystyried defnyddio unrhyw waliau sydd ar ôl o adeiladau gwael presennol (na ellir eu cadw i'w hailddefnyddio), neu adennill y defnyddiau, i ddarparu terfynau o fewn safle
- Dylai graddfa a math terfynau newydd adlewyrchu'r hyn sydd o'u cwmpas, a dylid atgynhyrchu unrhyw fanylyn lleol arbennig, fel ffensys llechi
- Mewn lleoliadau trefol ffurfiol, waliau syth o frics neu gerrig sydd orau; mewn ardaloedd gwledig, mae gwrychoedd a ffensys yn fwy addas, er y dylid bob amser barchu'r amgylchiadau a'r defnyddiau lleol
- Dylai elfennau eraill fel giatiau neu gridiau gwartheg fod yn debyg o ran arddull i'r terfyn y'u lleolwyd ynddo
- Er y gellir defnyddio terfynau i ddarparu sgrinio, dylai preifatrwydd fod wedi'i gynnwys yn nyluniad cynllun y datblygiad yn y cam cynllunio cychwynnol
- Gall allan-dai gyflawni swyddogaeth terfynau'n effeithiol, ond rhaid iddynt fod wedi'u cynnal yn dda – lle mae ganddynt ddefnydd clir a gwerth chweil, fel garej, mae'n fwy tebygol y gofelir amdanynt

## ARWYDDION

Mae arwyddion yn hanfodol i roi arweiniad, cyngor a gwybodaeth, ond gall arwyddion sydd wedi'u dylunio neu eu lleoli'n wael anharddu'r tirwedd, a hyd yn oed fod yn beryglus

- Dylid mabwysiadu fformat safonol ar gyfer pob math o arwyddion cyhoeddus drwy'r amrywiaeth cyfan, fel yr arwyddion brown ar gyfer gwybodaeth i ymwelwyr, ac annog defnyddio'r fformatau hyn lle bynnag y bo modd ar arwyddion preifat
- Dylid cadw cynnwys yr arwydd yn syml – nid yw'n hawdd darllen gormod o wybodaeth, yn enwedig ar arwyddion ar ymyl y ffordd
- Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i nifer a lleoliad arwyddion, fel eu bod yn hawdd eu gweld, heb dynnu sylw oddi ar y ffordd, na chreu dolur llygad

## DODREFN

Mae'r term dodrefn stryd yn cyfeirio at eitemau fel arwyddion, bolardiau, biniau sbwriel ayb. sydd wedi'u lleoli mewn mannau neu strydoedd cyhoeddus

- Dylai'r arddull a'r defnyddiau fod yn berthnasol i gyd-destun cyffredinol yr ardal, a dylid mabwysiadu 'arddull tŷ' i osgoi blerwch
- Dylid adolygu'r gofynion a darparu dim ond eitemau hanfodol – drwy leihau arwyddion neu osod sawl arwydd ar un polyn, er enghraifft
- Dylid negodi gyda'r ymgymerwyr statudol i osod gwasanaethau dan y ddaear neu rannu polion
- Mae'n hanfodol sicrhau y caiff dodrefn stryd a phlanhigion mewn mannau cyhoeddus eu cynnal yn dda er mwyn sicrhau fod yr ardal yn groesawgar, ac er mwyn cadw fandaliaeth draw
- Mae angen darparu digon o olau er mwyn diogelwch a gwarchodaeth, ond ni ddylai achosi niwsans nac aflonyddwch i eraill. Er mwyn osgoi llygru'r amgylchedd dylid ceisio sicrhau mai dim ond tuag i lawr y mae'r golau'n disgleirio o'r lam

Gall y term 'dodrefn stryd' gyfeirio at bethau eraill hefyd

- Does dim angen llochesi bws safonol – gall canopïau gwydr modern fod yn dderbyniol mewn ardaloedd heb gymeriad arbennig, ond efallai y bydd angen dyluniad unigol priodol mewn ardaloedd hanesyddol neu bentrefi â chymeriad arbennig
- Yn yr un modd, efallai y bydd angen cadw neu adfer cabanau ffôn a blychau post traddodiadol mewn lleoliadau hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth
- Dylid annog cyfleustodau cyhoeddus i ddylunio safleoedd neu adeiladau lle cedwir offer, fel is-orsafoedd trydan, mewn arddull briodol i'r ardal leol, yn hytrach na defnyddio dyluniad safonol
- Dylai safleoedd mwynderau cyhoeddus a sgipiau sbwriel neu ailgylchu cyhoeddus gael eu lleoli o'r golwg a'u sgrinio. Er diogelwch dylid naill ai eu cadw o fewn compownd dan ofal staff yn ystod oriau agor penodol, neu eu gosod yn rhywle lle gellir cynnal rhyw ffurf arall ar wyliadwriaeth, fel maes parcio archfarchnad


*Trosodd…*



Mae rheiliau, ffensys, waliau ac ati'n chwarae rhan arwyddocaol iawn yng ngolygfa'r stryd, a dylid eu cadw lle bo modd



Mae rheiliau, ffensys, waliau ac ati'n chwarae rhan arwyddocaol iawn yng ngolygfa'r stryd, a dylid eu cadw lle bo modd



Nid yw rhywogaethau estron a blennir fel muriau cysgodi neu wrychoedd yn ychwanegu dim at gymeriad yr ardal, a gallant yrru bywyd gwyllt cynhenid i ffwrdd drwy leihau'r cynefinoedd addas sydd ar gael



Mae gormodedd o ddodrefn stryd yn gwneud i le edrych yn flêr, gan niweidio golygfa'r stryd; gellir colli gwybodaeth hanfodol hefyd os yw arwyddion traffig wedi'u cuddio




Er bod rhoi arwyddion gyda'i gilydd yn daclusach, gall darparu gormod o wybodaeth mewn un lle achosi dryswch, yn enwedig lle mae traffig yn teithio'n gyflym




Gall arwyddion syml ag 'arddull tŷ', testun hawdd ei ddarllen a symbolau safonol gael eu deall yn gyflym; cyfoethogir yr effaith drwy ddefnyddio defnyddiau priodol



Bydd dodrefn stryd da yn cyfoethogi cymeriad – mae dyluniad trwchus y bolardiau a'r rheiliau hyn, y waliau cerrig naturiol, a gorffeniad meddal arwyneb y llwybr, yn ddewis perffaith i lan y môr



Dylai goleuadau stryd fod yn addas i'w lleoliad, o ran arddull ac ansawdd y golau a roddant; dylai hyn fod yn ddigonol ar gyfer diogelwch, ond heb fod yn ymwthiol



Dylai cyfleusterau diolwg sy'n eiddo cyhoeddus gael eu sgrinio, yn enwedig os ydynt heb eu cynnal yn dda; bydd potensial ar gyfer rhyw gymaint o wyliadwriaeth naturiol yn helpu cadw fandaliaid draw

## TAI FFORDDIADWY

Tai sydd ar gael i'w prynu, eu rhentu neu eu rhan berchenogi am bris fforddiadwy sy'n cyfateb i incwm lleol, ac a ddiogelir at y pwrpas hwn yn y dyfodol.

### Mathau o dai fforddiadwy

- Tai sydd ar gael i'w prynu am bris fforddiadwy, sy'n cyfateb i incymau lleol, prisiau tai a chyfraddau llog
- Tai sydd ar gael i'w rhentu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, neu gan ddatblygwr preifat ar yr un math o delerau â thai cymdeithasol
- Tai sydd ar gael i'w rhan berchenogi ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (tai fforddiadwy cymdeithasol) neu'r Cyngor, neu ddatblygwyr preifat

### Darparu fforddiadwyedd

- Mae maint y plotiau a'u dwysedd yn dibynnu ar sawl anedd-dŷ a godir ar bob safle; ni ddylai'r plotiau fod yn rhy fawr, neu gall y cynnydd mewn gwerth dros amser olygu y byddant yn anfforddiadwy yn y dyfodol
- Bydd math a maint yr anedd-dai unigol yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau o anghenion tai lleol, a dylent fod yn ddigon bach i gadw'r costau adeiladu i lawr, ond ddim i'r fath raddau nes eu gwneud yn annerbyniol ar gyfer bywyd modern
- Glynir wrth safonau sylfaenol i sicrhau bod yr anedd-dai yn gynaliadwy, yn ymarferol, yn addasadwy ac yn economaidd i'w rhedeg a'u cynnal
- Bydd gofynion dylunio tai fforddiadwy'r un mor llym ag ar gyfer tai'r farchnad agored, a rhaid i'r datblygiadau gyd-fynd â'r cymeriad lleol i warchod a gwella'r dref neu'r pentref lle cânt eu hadeiladu
- Ar unrhyw safle, ni ddylid gallu gwahaniaethu rhwng tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored naill ai o ran safon y dyluniad na'r adeiladwaith, nac ychwaith o ran eu lleoliad yn y datblygiad

### Diogelir fforddiadwyedd drwy

- Sicrhau mai dim ond i bobl sydd â gwir angen lleol am dai fforddiadwy y ceir gwerthu'r eiddo
- Pennu'r prisiau gwerthu yn y dyfodol ar ganran y cytunir arni o werth y tai ar y farchnad agored, er mwyn cynnal y gyfatebiaeth gydag incymau lleol
- Diddymu hawliau'r deiliad i newid neu ymestyn y tŷ heb ganiatâd cynllunio penodol

### Cymhwysedd

**Er mwyn bod yn gymwys i gael tai fforddiadwy, rhaid i ymgeiswyr allu profi fod ganddynt wir 'angen' ac y dônt dan ddiffiniad 'lleol' y gymuned benodol honno**.

I gael rhagor o wybodaeth am asesu angen lleol, edrychwch ar Gynlluniau Datblygu a Pholisïau perthnasol Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd a'i Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol am Dai Fforddiadwy

### Safleoedd ar Hap a Safleoedd a Ddynodwyd

Bydd yr Awdurdod yn negodi gyda datblygwyr i bennu faint o dai fforddiadwy sydd eu hangen ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap mawr. Pennir nifer y tai fforddiadwy ar sail y dystiolaeth o'r angen ac addasrwydd y safle.

Bydd angen integreiddio'r ganran y cytunwyd arni o dai fforddiadwy mewn unrhyw ddatblygiad ar safleoedd a ddynodwyd a safleoedd ar hap mawr, i'r cynllun cyffredinol. Bydd pennu a fydd y cynllun yn un ffurfiol – gyda llinellau adeiladu a lled plotiau trefnus, yn debyg i stryd nodweddiadol mewn tref – neu'n anffurfiol – clystyrau afreolaidd o anheddau – yn dibynnu ar leoliad a chymeriad yr ardal gyfagos, ond yn y naill achos a'r llall, gellir cynnwys tai fforddiadwy mewn grwpiau o anheddau heb i neb allu gwybod mai dyna ydynt yn ôl eu lleoliad, eu maint na'u dyluniad.

### Safleoedd Eithrio Gwledig

O bryd i'w gilydd, gellir canfod gwir angen lleol am dai fforddiadwy mewn pentref na ellir mo'i ddiwallu ar safleoedd mewn mannau eraill. Yn yr achos hwn, gall yr Awdurdod Cynllunio gytuno i gynnig i adeiladu un anedd-dŷ neu ragor ar safle addas sydd union drws nesaf i ffin yr anheddle, ar yr amod na chaiff cymeriad arbennig y pentref ei beryglu. Bydd angen ystyried y ffactorau canlynol:

- Bydd yn rhaid i leoliad y tai a dwysedd y cynllun gyd-fynd â phatrwm yr anheddle sydd eisoes yno yn ogystal â nodweddion tirwedd y safle, er mwyn sicrhau bod twf y pentref yn naturiol ac yn organig
- Dylai uchder, clwstwr a ffurf yr adeiladau fod â'r un naws ag adeiladau cyfagos er mwyn peidio â'u llethu
- Dylai'r deunyddiau a'r manylion adeiladu fod yn briodol i'r ardal – dylid ystyried dyluniad cyfoes da sy'n defnyddio deunyddiau traddodiadol mewn ffyrdd arloesol yn hytrach na ffug arddulliau hanesyddol

*Trosodd…*

Safleoedd ar hap a safleoedd a ddynodwyd


*cynnal cysylltiadau i gerddwyr drwy'r safle*

*dylai'r cynllun geisio sicrhau bod cyn lleied â phosibl o anedd-dai yn edrych dros ei gilydd ac nad oes ffyrdd, safleoedd cyfagos na datblygiadau eraill yn edrych dros anheddau er mwyn osgoi sŵn ac aflonyddwch arall*

*mae cymysgedd cymdeithasol da yn cynhyrchu cymdogaeth weithredol sy'n hybu goruchwyliaeth oddefol, rhyngweithiad personol a theimlad o berchnogaeth*

*cadw nodweddion y dirwedd – cloddiau, coed aeddfed, ayb – er mwyn darparu cysgod a sgrin a chadw'r cymeriad lleol*

*dylai waliau terfyn, palmentydd ac elfennau eraill ar fannau cyhoeddus adlewyrchu'r cymeriad lleol*




*gellir cael mwy o anedd-dai mewn un man drwy rannu 'cyrtiau' cerddwyr / cerbydau sydd wedi'u gorchuddio ag arwynebau priodol i sicrhau bod pawb yn gyrru'n araf iawn. Gallai'r rhain ddarparu mynediad at fannau preifat a chyhoeddus, a goruchwyliaeth ohonynt, gan gynnwys mannau parcio cymunedol*

*Dylid datblygu safleoedd 'ar hap', sydd wedi eu dynodi ai peidio, neu safleoedd mewn trefi a phentrefi yn unol ag arfer da (edrychwch ar adrannau eraill y Canllaw Dylunio).*

*Pan drafodir darparu tai fforddiadwy gyda'r Awdurdod, dylid integreiddio unedau i'r datblygiad mewn ffordd sy'n golygu na ellir gwahaniaethu rhyngddynt a thai'r farchnad agored*

*drwy osod mannau 'gwasanaeth' fel ceginau ac ystafelloedd ymolchi i wynebu'r gogledd, a threfnu unedau'n ofalus, gellir manteisio ar olau a gwres yr haul yn yr ystafelloedd byw er mwyn arbed ynni*



*Ar safleoedd eithrio gwledig, mae hi'n hollbwysig defnyddio ffurf, clystyrau a graddfa sympathetig, gan ddefnyddio deunyddiau a chymeriad lleol, a chadw nodweddion a ffiniau'r dirwedd, er mwyn integreiddio'r newydd i wead y pentref. Ni ddylai hyn rwystro arloesedd, yn enwedig pan ddefnyddir dyluniadau llawn dychymyg i wella effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd yr adeilad*

*'ffin anheddle'*

*safle eithrio gwledig*



Tai fforddiadwy ar safleoedd eithrio gwledig

Bydd yr Awdurdod Cynllunio'n rheoli dyluniad tai fforddiadwy'n ofalus pan geisir caniatâd manwl ar gyfer adeiladu, er mwyn cydymffurfio â'r canlynol:

- Nodyn Cyngor Technegol 12 Polisi Cynllunio Cymru: Dylunio (2002) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Polisïau sydd yng Nghynllluniau Datblygu perthnasol Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd
- Adrannau perthnasol eraill y Canllaw Dylunio hwn

Boed y safle wedi'i ddynodi ar gyfer tai dan Gynlluniau Datblygu perthnasol Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd, yn safle mewnlenwi neu, fel eithriad, yn safle sydd union drws nesaf i ffin pentref, dylai dyluniad y datblygiad gyd-fynd ag arfer da. Bydd angen i ddylunwyr ddangos eu bod wedi ystyried:

- Natur, lleoliad a chyffiniau'r safle; cadw nodweddion fel llwybrau trwodd; golygfeydd i mewn ac allan; tirnodau; elfennau pwysig yn y dirwedd e.e. coed a chloddiau (edrychwch ar yr adran am Ddatblygu Safle)
- Cymeriad yr adeiladau a'r mannau agored cyfagos, er mwyn sicrhau bod graddfa, ffurf, clwstwr a ffurfioldeb / anffurfioldeb y datblygiad yn sympathetig (edrychwch ar yr adran am Ddyluniad Adeiladau ar gyfer y diffiniadau)
- Defnyddio deunyddiau a nodweddion lleol priodol ar gyfer adeiladau, ffiniau a phalmentydd (gweler yr adrannau am Ddatblygu mewn Trefi, Adeiladu yng Nghefn Gwlad a Mannau i'r Cyhoedd)
- Trafnidiaeth, effeithlonrwydd ynni, gwaredu gwastraff, cynnal a chadw yn y dyfodol, a hyblygrwydd (edrychwch ar yr adran ar Ddatblygu Cynaliadwy)
- Diogelwch a gwarchodaeth deiliaid yr eiddo, lleihau sŵn a niwsans, a chreu cymdogaethau o ansawdd sy'n meithrin ymdeimlad o berchnogaeth (edrychwch ar yr adran ar Atal Troseddu)

## Dylai tai fforddiadwy ddarparu

- Darbodaeth wrth adeiladu, gan ddefnyddio deunyddiau a thechnegau adeiladu sydd gystal, os nad yn well, na'r rheini a ddefnyddiwyd ar gyfer eiddo lleol tebyg sydd ar werth ar y farchnad agored.
- Safon o fyw sy'n fodern ac yn ddigonol a digon o le i ddiwallu anghenion y deiliaid yn hytrach na'u dyheadau h.y. dim rhy fawr nes ei fod yn anfforddiadwy yn y dyfodol
- Effeithlonrwydd ynni a rhwyddineb cynnal a chadw

## Egwyddorion Dylunio

Rhaid cytuno â'r Awdurdod ynghylch nifer, maint a math yr unedau fforddiadwy sydd i'w cynnwys mewn unrhyw ddatblygiad preswyl. Gall hyn gynnwys gwahanol fathau o dai – tai teras, tai pâr, tai sengl neu fflatiau – sy'n addas ar gyfer gwahanol bobl, a'r rheini wedi eu gwasgaru o amgylch y safle. Bydd safonau ansawdd a gofod yn berthnasol i sicrhau bod maint yr anedd-dai yn ddigonol ar gyfer y deiliaid ac yn diwallu eu hanghenion (i gael gwybodaeth am safonau datblygu penodol, edrychwch ar Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd)

Dylid dylunio'r datblygiad i greu

- Cynllun effeithlon sy'n cyd-fynd yn dda â'r ardal o'i amgylch, llwybrau trafnidiaeth a cherdded cyfredol, cyfleusterau a gwasanaethau'r ganolfan leol
- Ymdeimlad o le, drwy ffurfiau adeiledig priodol a mannau cyhoeddus deniadol, sy'n gweddu i'r cymeriad lleol
- Amrywiaeth o ran y math o dai a godir a'u dwysedd er mwyn darparu cymysgedd cymdeithasol, a sicrhau cymuned amrywiol a chynaliadwy gyda throsiant isel o breswylwyr
- Unedau fforddiadwy sydd wedi'u hintegreiddio i'r datblygiad cyffredinol ac na ellir gwahaniaethu rhyngddynt â thai'r farchnad agored
- Digon o fannau allanol ar gyfer amwynder a pharcio, er mwyn sicrhau nad yw anheddau'n edrych dros ei gilydd ac er mwyn osgoi sŵn ac aflonyddwch. Dylid gallu amddiffyn mannau preifat, h.y. dylid gallu eu gweld yn glir o'r tŷ ond dylent fod wedi'u hamgáu gan nodweddion tirwedd neu blanhigion; dylid gallu cynnal a chadw a rheoli'r mannau cyhoeddus yn hawdd drwy oruchwyliaeth oddefol o sawl annedd.
- Mae adeiladau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon drwy gynnwys deunyddiau a thechnegau adeiladau ecogyfeillgar, systemau gwresogi diwastraff, ac ynysiad thermal da, yn rhatach i'w rhedeg a'u cynnal, yn iachach i fyw ynddynt, a byddant yn ymarferol yn economaidd drwy gydol eu hoes.
- Llety hyblyg ac addasadwy sy'n briodol i bawb, gan gynnwys yr henoed, pobl anabl, neu deuluoedd gyda phlant ifanc. Gellir dylunio rhai unedau i fod â photensial i'w haddasu'n nes ymlaen, er mwyn diwallu newidiadau yn anghenion y teulu, er y bydd yn rhaid sicrhau bod yr uned dal yn fforddiadwy yn y dyfodol.
- Safonau uchel o ran dyluniad a saernïaeth, gan ddefnyddio deunyddiau lleol o ansawdd da, boed hynny mewn dulliau traddodiadol neu arloesol, er mwyn creu cymdogaeth sy'n gwarchod ac yn gwella cymeriad yr ardal o'i chwmpas


*Trosodd…*




Tai teras yw'r tai dwysedd uchaf, ac mae'r rhain yn briodol mewn trefi (chwith) a phentrefi (de); gellir creu teimlad llai ffurfiol drwy risio unedau er mwyn delio â newidiadau mewn lefelau a llinellau adeiladu afreolaidd, neu ddefnyddio nodweddion lleol, cymeriad ayb



Bydd parchu ffurf, clwstwr a graddfa adeiladau cymdogol, a defnyddio deunyddiau lleol, yn integreiddio tai newydd i'w hamgylchedd ac yn gwella'r cymeriad sydd eisoes yno.






Mae lefelau uchel o inswleiddio ac aerglosrwydd yn creu cartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon




Yn draddodiadol mae patrwm datblygu pentrefi wedi bod yn weddol anffurfiol ac, yn gyffredinol, dull eithaf llac o ddylunio cynllun, gyda phwyslais ar nodweddion caled a meddal y dirwedd, yw'r dull mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau newydd ar safleoedd mewnlenwi pentrefi a safleoedd eithriad gwledig.



Lle gellir profi bod gwir angen lleol, gellir ystyried addasu adeiladau

## GWYBODAETH A CHYFEIRIADAU

Gellir ymgynghori a'r dogfennau cyfeirnod canlynol er mwyn derbyn cyfarwyddyd ar faterion cyffredinol sy'n ymwneud â materion polisïau cynllunio a chyngor penodol ar agweddau dylunio.

### Polisi Lleol a Chanllawiau:

| | |
|---|---|
| Cynllun Datblygu Unedol | Cyngor Sir Gwynedd |
| Y Tirlun yn Gweithio dros Wynedd | Cyngor Sir Gwynedd |
| Strategaeth Beicio Gwynedd | Cyngor Sir Gwynedd |

### Cyngor ar y System Gynllunio:

| | |
|---|---|
| Chanllawiau Cynllunio Cymru | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

### Canllawiau Cynllunio Penodol:

| | |
|---|---|
| Nodyn Cyngor Technegd 12 (Dylunio) | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd | Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig |
| Cynllunio – Arweiniad i Ddeiliad Tai | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Caniatad Cynllunio – Arweiniad ar gyfer Busnesau | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| *Planning for Sustainable Development: Towards Better Practice* | Adran Drafnidiaeth a'r Rhanbarthau |
| Diogelwyd trwy Ddyluniad | Awdurdod yr Heddlu |

### Gwybodaeth i Berchnogion Adeiladau Hanesyddol: Taflenni Gwybodaeth Gyhoeddus yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Edrych ar ol eich Hen Adeiladau | Cathedral Publications gyda Chyngor Sir Gwynedd |
| Pwyntio efo Mortar Calch | Cathedral Publications gyda Chyngor Sir Gwynedd |
| Cadw ac Adneuwyddu Ffenestri Pren | Cathedral Publications gyda Chyngor Sir Gwynedd |

**Anabledd Cymru**
Cwrt Wernddu
Parc Busnes Caerffili
Van Road
Caerdydd
CF83 3ED
Ffôn: 02920 853175
Ffacs: 02920 880702
www.disabilitywales.co.uk

**Asiantaeth yr Amgylchedd**
Ffordd Penlan
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4BP
Ffôn: 01248 670770
Ffacs: 01248 670561
www.environment-agency.gov.uk

**Awdurdod / Menter Coedwigaeth Cymru**
Victoria House
Rhodfa Fuddug
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2DQ
Ffôn: 01970 625866
Ffacs: 01970 626177

**Awdurdod Datblygu Cymru**
Adran Gogledd Cymru
Uned 7
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0LJ
Ffôn: 01745 586293
Ffacs: 01745 586262
www.wda.co.uk

**Bwrdd Croeso Cymru**
Ty Brynel
2 Ffordd Fitzalan
Caerdydd
CG2 1UY
Ffôn: 029 2049 9909
Ffacs: 029 2048 5031
www.visitwales.com

**Cadw**
Plas Carew
Uned 5/7
Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 01443 336000
Ffacs: 01443 336001
www.cadw.wales.gov.uk

**Comisiwn Dylunio Cymru**
4th Floor Building Two
Caspian Way
Bae Caerydd CF10 4DQ
Ffôn: 029 2045 1964
Ffacs: 029 2045 1958
e-bost: info@dcfw.org
www.dcfw.org

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru / Cofnodion Henebion Cenedlaethol Cymru**
Plas Crug
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1NJ
Ffôn: 01970 621333
Ffacs: 01970 627701
www.rcahmw.org

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
Ardal y Gogledd-Orllewin
Llys y Bont
Parc Menai
Ffordd y Parc
Bangor
Gwynedd
LL57 4BN
Ffôn: 01248 672500
Ffacs: 01248679259
www.ccw.gov.uk

**Cyngor Gwynedd**
Cyfadran yr Amgylchedd
Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth
Uned Cynllunio Ardal Arfon
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1BN
Ffôn: 01286 682765
Ffacs: 01286 682771
e-bost:
Cynllunio/PlanningArfon@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

*Trosodd…*

**Cyngor Gwynedd**
Cyfadran yr Amgylchedd
Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth
Uned Cynllunio Ardal Dwyfor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA
Ffôn: 01758 704118
Ffacs: 01758 704053
e-bost:
Cynllunio/PlanningDwyfor@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

**Cyngor Gwynedd**
Cyfadran yr Amgylchedd
Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth
Uned Cynllunio Ardal Meirionnydd
Cae Penarlag
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2YB
Ffôn: 01341 424414
Ffacs: 01341 424440
e-bost:
Cynllunio/PlanningMeirionnydd@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

**Cywaith Cymru Artworks Wales**
Crichton House
11-12 Sgwar Mount Stuart
Caerdydd
CG10 5EE
Ffôn: 029 20 489543
Ffacs : 029 20 465458
www.cywaithcymru.org

**Heddlu Gogledd Cymru**
Glan-y-Don
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8AW
Ffôn: 0845 6071001 (lein Gymraeg)
Ffôn: 0845 6071002 (lein Saesneg)
Ffôn: 01492 517171
Ffacs: 01492 512720
www.nwalespa.org

**Parc Cenedlaethol Eryri**
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
Ffôn: 01766 770274
Ffacs: 01766 771211
www.snowdonia-npa.gov.uk

**Royal Society of Architects in Wales**
Adeilad Bute
King Edward VII Avenue
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NB
Ffon: 029 2087 4753
Ffacs: 029 2087 4926
www.riba.org

**Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref yng Nghymru**
41 Botolph Lane
Llundain
EC3R 8DL
Ffôn/Ffacs: 029 2036 4479
www.rtpi.co.uk

**Sustrans Cymru**
Suite 3
Siambrau'r Bae
Gorllewin Stryd Bute
Caerdydd CF10 5BB
Ffôn: 029 20 65 0602
Ffacs: 029 2065 0603
www.sustrans.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd**
Craig Beuno
Ffordd Garth
Bangor
Gwyned
Ll57 2RT
Ffôn: 01248 352535
Ffacs: 01248 370925
e-bost: gat@heneb.co.uk

**Ymddiriedolaeth**
Ddinesig (Cymru)
3ydd llawr
Empire House
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FN
Ffôn: 029 2045 1964
Ffacs: 029 2045 1958
www.dcfw.org

**Cefndir**

Cyhoeddwyd strategaeth tirlun ar gyfer Cyngor Gwynedd (CG) a Chyngor Sir Ynys Mon (CSYM) yn 1999. Datblygwyd y strategaethau gan ddefnyddio methodoleg LANDMAP Cyngor Cefn Gwlad Cymru sydd yn sefydlu dull systematig o gofnodi ac adfer gwybodaeth am rinweddau arbennig tirluniau. Mae'r wybodaeth yma'n cynorthwyo gwneuthurwyr penderfyni- adau ac ymgynghorwyr wrth gynllunio datblygiadau, amaeth amgylcheddol, coedwigaeth a gwellianau amgylcheddol. Mae'r broses wedi ei seilio ar asesu nodweddion neu "agweddau" o'r tirlun, ble y rhoddir gwerth berthynol i rai gyda eraill yn darparu gwybodaeth gefnogol. Mae crynodeb manylach o'r fethodoleg hon i'w gael yn Atodiad A o'r adroddiad hwn. Datblygwyd y ddogfen hon drwy fewnbwn gan yr awdurdodau lleol, ynghyd â chymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru. Craidd y strategaeth oedd isranu y ddwy ardal i Ardaloedd Cymeriad Tirlun (ACT). Mae rhestr a chynllun o'u dosbarthiad i'w weld yn Ffigwr 1.0. Mae'r ACT yn rhoi fframwaith ystyrlon o unedau tirlun, o gymeriad tebyg, y gellir gwneud penderfyniadau rheoli neu bolisi o'u cwmpas. Cred CG a CSYM, o ganlyniad i gydberthynas agos y ddwy ardal, yn arbennig yn nhermau gweledol a ffisegol yng nghyffiniau Afon Menai, y dylid ystyried unrhyw gynigion strategaeth fel un.

**Wrpas**


Un canlyniad pwysig o'r strategaeth tirlun oedd yr angen i ddatblygu ffyrdd o sicrhau bod pob un sydd â diddordeb yn y tirlun – swyddogion y cyngor, asiantaethau'r llywodraeth, perchnogion tir, ffermwyr, datblygwyr a'r cyhoedd – yn cydnabod yr angen i ystyried a deall y gwahaniaethau mewn cymeriad tirlun sy'n bodoli ar draws y ddwy ardal. Mae'r canllawiau cynllunio hyn wedi'u datblygu o ganlyniad i'r dymuniad hwn. Cyflwynir y wybodaeth yn bennaf yn nhermau y gwahanol ACT a ddynodwyd, yn hytrach na safleoedd neu ardaloedd penodol. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd ar dirwedd amaethyddol a choridorau trafnidiaeth wedi eu cynnwys ar wahân, gan fod y materion cynllunio hyn yn gyffredin i bob ardal.

**Defnydd**

Hyderi'r y bydd y nodiadau cyfarwyddyd yn rhoi syniad i'r defnyddwyr o'r amryw ffurfiau a mathau o dirwedd sydd yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae methodoleg LANDMAP wedi galluogi nodi'r amryw o elfennau sy'n llunio'r tirlun. Mae defnyddio'r ACT fel mecanwaith i gyflwyno cyngor yn darparu'r modd i archwilio'r elfennau hynny mewn perthynas â lleoliadau arbennig. Ni fu'n fwriad gan yr awdurdod i benderfynu na chyfyngu ar beth y gellid ei wneud neu ei ystyried ymhob ardal. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd wedi eu paratoi er mwyn cynorthwyo pawb i sicrhau bod y materion allweddol sy'n perthyn i'r tirlun yn cael eu hystyried pan gyflwynir cynigion datblygu neu reoli tirlun. Nid yw'r Cyngor yn dymuno rhwystro cynllunio arloesol, ond mae'n awyddus bod y rhinweddau lleol allweddol yn cael eu hystyried yn iawn. Mae nifer o'r materion allweddol yn perthyn i fwy na un ACT a bwriedir i'r defnyddwyr gyfeirio at yr ACT sydd yn berthnasol i leoliad eu cynllun arfaethedig. Er hwylustod, mae trawsgyfeiri-adau at ACT cyfagos neu ganllawiau cynllunio ehangach wedi eu darparu.

# GWYNEDD

**LLEOLIAD YR ARDALOEDD CYMERIAD TIRLUN (ACT)**




| GWYNEDD<br>GWASTATIR ARFORDIROL<br>BANGOR | ARDALOEDD<br>CYMERIAD<br>TIRLUN | 1 |
|---|---|---|

## CYMERIAD



- Gwastatir arfordirol cul, gyda massif yr Wyddfa yn ei ffinio i'r mewndir a'r Parc Cenedlaethol yn ei or-edrych
- Wedi ei rannu gan nifer o nentydd sy'n llifo o'r de i'r gogledd sydd gan amlaf mewn dyffrynoedd bychan coediog
- Patrwm y tirwedd yn bennaf yn adlewyrchu dylanwad Stad y Penrhyn – parcdir ffurfiol wedi ei gynllunio, ffermydd stad ac aneddiadau
- Wedi ei rannu gan ffordd yr A55 gyda golygfa agored o'r ardal. Pwysig er mwyn creu'r teimlad o 'fynedfa' i Wynedd
- Ffiniau brodorol, yn arbennig ffensys llechi, cloddiau a gwrychoedd

## LLEOLIAD




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**CORIDORAU TRAFNIDIAETH**

Dylai cynigion datblygu a rheoli newydd sicrhau:

- Bod effeithiau gweledol o, a thuag at, goridorau priffyrdd/rheilffordd yn cael eu hystyried yn llawn
- Bod mesurau lliniaru yn adlewyrchu strwythur y tirlun ehangach ac nad yw safleoedd yn cael eu hystyried ar ben eu hunain
- Bod y lleoliad yn ystyried tirffurfiau lleol e.e. drwy gadw'r ffiniau/coed sy'n bodoli, a lleoli adeiladau ar hyd llethrau gan osgoi torri nenlinellau. Fod yr ardal yn agos i ac yn cael ei oredrych o'r Parc Cenedlaethol
- Gan fod yr ardal yn borth i Wynedd, dylid rhoi sylw i'r oblygiadau ar ansawdd ymddangosiadol yr ardal
- Yr ystyrir nifer o adeiladau sy'n dirnodau allweddol – Castell Penrhyn, y Brifysgol, Ysbyty Gwynedd. Dylid ystyried yr effeithiau ar eu lleoliad yn llawn



**RHEOLI CYNEFIN**

Mae nifer o gynefinoedd pwysig yn yr ardal hon, gan gynnwys tir coediog llydanddail, morfeydd heli, corsydd a glaswelltir. Dylai unrhyw gynllun i ddatblygu neu reoli sicrhau:

- Bod sylw priodol yn cael ei roi i'r effaith uniongyrchol a chanlyniadol ar gynefinoedd
- Bod potensial ar gyfer datblygu neu wella cynefin yn cael ei ystyried
- Bod pwysigrwydd tir coediog llydanddail yn cael ei gydnabod
- Bod argymhellion a gweithredu unrhyw gynlluniau rheoli cynefin yn ystyried
- Tir Gofal a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol.



**TIRWEDDAU HANESYDDOL**

Mae rhan o'r ardal wedi ei chynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Mae'r ardal yn cynnwys cymysgedd o nodweddion tirwedd hanesyddol, gyda thref ganoloesol Bangor, patrymau caeau y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi eu hailresu ar hyd y darn arfordir gogleddol ac etifeddiaeth Stad y Penrhyn yn amlwg. Dylai pob cynnig ar gyfer datblygu a rheoli:

- Barchu natur patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirwedd
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll a'r gweddillion sydd wedi eu claddu (sy'n hysbys ac anhysbys) eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirwedd hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa'r elfennau hyn).



**CYRION ANEDDIADAU**

O amgylch ymylon aneddiadau dylai cynlluniau i ddatblygu:

- Fod ar ffurf a graddfa sydd yn adlewyrchu cymeriad pob anheddiad
- Gael eu hystyried o ran effeithiau ar y tirwedd ehangach, yn hytrach na'r safle yn unig
- Geisio defnyddio patrwm y tirffurf a'r llystyfiant fel cymorth i liniaru unrhyw effeithiau.

Er mwyn sicrhau bod nodweddion cynhenid y gymdogaeth yn cael eu hymgorffori yn y cynllun mae'n bwysig na ddefnyddir yr atebion safonol.

## MATERION Y DYFODOL

Mae'r ardal yn debygol o weld pwysau parhaus ar ddatblygu sy'n ceisio manteisio'n llawn ar y rwydwaith trafnidiaeth. Bydd integreiddio gyda'r tirwedd ehangach yn hanfodol. Bydd Bangor yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer datblygiad tai. Sylw trylwyr i fanylion yn angenrheidiol. Rheolaeth effeithiol o dir amaethyddol gan Stad y Penrhyn a'r Brifysgol yn hanfodol. Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar Goridorau Trafnidiaeth a Thirweddau Amaethyddol.


# GWYNEDD
## LLWYFANDIR PENISARWAUN

### CYMERIAD



- Ardal amaethyddol gyda phatrymau caeau bach/afreolaidd arbennig, bryniog
- Yn llenwi parth canol rhwng arfordir ac ucheldiroedd, ar gyfuchlin o tua 100m
- Arddangos nifer o dirffurfiau ôl-rewlifol a nodweddion megis bwa llifwaddod
- Nifer o aneddiadau bychan wedi eu clystyru'n ddwys
- Ardaloedd mawr o dir coediog a phlanhigfeydd

### LLEOLIAD




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

| | GWYNEDD<br>**PENISARWAUN PLATEAU** | ARDALOEDD<br>CYMERIAD<br>TIRLUN | **2** |
|---|---|---|---|

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**ADEILADAU – FFURF A DEFNYDDIAU**

Dylai unrhyw gynnig ar gyfer datblygiad newydd sicrhau :

- Bod lleoliad, graddfa a ffurf yr adeiladu yn adlewyrchu patrwm yr anheddiad. Mae'r mwyafrif o aneddiadau yn fach ac yn aml wedi'u clystyru'n ddwys
- Nad yw defnyddiau nad ydynt yn nodweddiadol o'r ardal megis panteils, briciau golau, yn cael ei defnyddio ac fod patrwm traddodiadol e.e. defnyddio carreg leol yn cael ei cadw.



**RHEOLI CYNEFIN**

Mae nifer o wahanol fathau o gynefin o fewn yr ardal, gan gynnwys glaswelltiroedd corsiog, corslwyni, corsydd, morfeydd a thir coediog llydanddail. Dylai unrhyw gynllun i ddatblygu neu gynllun i reoli sicrhau:

- Y caiff datblygiadau eu hintegreiddio'n y tirlun h.y. defnyddio'r tirffurf, gwrychoedd, coed a.y.y.b. a defnyddio ffiniau cynhenid
- Bod effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gynefinoedd yn cael sylw priodol
- Bod ystyriaeth yn cael ei roi i ddatblygu neu wella cynefin er mwyn cysylltu a gwaith Tir Gofal a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol
- Y caiff y potensial i gynyddu amrywiaeth planhigfeydd, yn enwedig coniffer, ei archwilio dros dymor hirach.



**TIRLUNIAU HANESYDDOL**

Mae rhan o'r ardal wedi ei chynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Mae'r ardal yn arddangos cymeriad tirlun hanesyddol arbennig, sydd wedi ei adeiladu ar elfennau (rhai yn adfeilion, rhai yn dal i gael eu defnyddio) sy'n dyddio o'r cyfnod cyn hanes ac yn dangos canrifoedd o barhad. Dylai pob cynnig ar gyfer datblygu a rheoli:

- Barchu natur y patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll a'r gweddillion sydd wedi eu claddu (sy'n hysbys ac anhysbys) eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirlun hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa yr elfennau hyn).

## MATERION Y DYFODOL


Gall yr ardal ddioddef o ddirywiad yn y sector ffermio neu newidiadau mewn arferion amaethyddol. Gweler Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dirweddau Amaethyddol.

## CYMERIAD



- Mae ymylon Massif yr Wyddfa yn cynnwys ardaloedd helaeth o hen weithfeydd llechi
- Wedi ei nodweddu gan gymunedau chwarelyddol cnewyllol bychan.
- Ardaloedd o ddwˆ r, tir coediog ac ardaloedd corsiog gwlybyn nodweddion pwysig
- Mae twristiaeth yn dod yn fwyfwy pwysig

## LLEOLIAD



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**ADEILADAU - FFURF A DEFNYDDIAU**

Dylai unrhyw gynigion datblygu newydd sicrhau:

- Bod lleoliad, graddfa a ffurf yr adeiladu yn adlewyrchu patrwm yr anheddiad. Mae'r mwyafrif o aneddiadau yn aml yn fach ac wedi clystyru'n ddwys
- Nad yw defnyddiau nad ydynt yn nodweddiadol o'r ardal, megis panteils a briciau golau yn cael eu defnyddio, gan gadw at batrymau traddodiadol, e.e. y defnydd o lechen fel deunydd ar gyfer to.
- Mae'r ardal yn ffinio â'r Parc Cenedlaethol sydd hefyd yn ei or-edrych ac yn ffurfio tirlun byffer pwysig.



**TIRLUNIAU CHWARELYDDA**

Mae llawer o'r ardal wedi ei chynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Yr ardaloedd o hen chwareli llechi gwag a thomenni gwastraff sydd efallai yn rhoi'r hunaniaeth tirlun hanesyddol a diwylliannol pennaf i Wynedd, yn ogystal â chynnig y potensial ar gyfer nifer o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol e.e. hamdden, rheoli cynefin, adfer, gwaith. Dylai bob cynnig:

- Gydnabod arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol yr ardaloedd hyn
- Barchu natur y patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Weld potensial cadwraeth natur yr ardaloedd hyn yng nghyd-destun hanesyddol a diwylliannol cyffredinol
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll a'r gweddillion sydd wedi eu claddu (sy'n hysbys ac anhysbys) eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirlun hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa yr elfennau hyn).
- Adnabod y cyfle i ddefnyddio graddfa'r safleoedd hyn i gynnal datblygiad a darparu tirlun o ansawdd arbennig



**RHEOLI CYNEFIN**

Dylai cynigion datblygu a rheoli newydd geisio:

- Darparu ar gyfer rheolaeth ehangach cynefinoedd allweddol – tir coediog llydanddail, rhostiroedd, corsydd, glaswelltiroedd a chreigiau amlwg / tomenni chwarel
- Datblygu a gwella y cynefin presennol a'i gysylltu gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol.
- Sicrhau integreiddio addas gyda rhaglenni eraill, megis Tir Gofal

## MATERION Y DYFODOL


Bydd Llanberis sy'n atyniad i dwristiaid, yn parhau i ffurfio canolbwynt ar gyfer datblygiad yn ymwneud â thwristiaeth. Mae'r ardal yma'n ffurfio rhan o Ardal Menter y Lechen a gall weld newid mewn perthynas â datblygiadau yn ymwneud â chyflogaeth. Mae angen sylw gofalus i fanylder er mwyn cyfuno y datblygiadau angenrheidiol gyda'r tirwedd. Gall ardaloedd pellennig ddioddef dirywiad yn y sector ffermio neu newidiadau mewn arfer amaethyddol. Gweler Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dirweddau Amaethyddol.

## CYMERIAD



- Ymyl llydan, hir yn agos at LCA Arfordir Menai, sy'n ymestyn cyn belled â chyrion ucheldirol Moel Tryfan a Mynydd y Cilgwyn
- Cymeriad y tirlun wedi ei ddylanwadu gan effaith rhewlifol a gwaddod a thirffurfiau canlyniadol.
- Cymysgedd mewn math o aneddiadau – pentrefi bach i drefi mawr. Caernarfon, craidd hanesyddol pwysig, gydag ymylon anheddiad modern sy'n amrywio mewn ansawdd
- Ystod o gynefinoedd arfordirol a thirweddau sy'n cyfrannu i gymeriad yr ardal.

## LLEOLIAD



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**CYRION ANEDDIADAU**

Dylai datblygiad o amgylch ymylon aneddiadau:

- Fod ar ffurf a graddfa sy'n adlewyrchu cymeriad pob anheddiad
- Gael eu hystyried o safbwynt effeithiau ar y tirlun ehangach, yn hytrach na'r safle yn unig
- Geisio integreiddio i'r tirlun gan ddefnyddio tirffurf, gwrychoedd, coed a.y.y.b. i leihau effeithiau

Er mwyn sicrhau bod nodweddion cynhenid y gymdogaeth yn cael eu hymgorffori i'r cynllun mae'n bwysig na ddefnyddir yr atebion safonol.



**TIRLUNIAU HANESYDDOL**

Mae rhan o'r ardal wedi ei chynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Mae'r ardal yn arddangos cymysgedd gymhleth o dirweddau hanesyddol sydd o gymeriad gwahanol, gan gadw elfennau o dirweddau cyn hanes, canoloesol ac ôl-ganoloesol. Dylai pob cynnig ar gyfer datblygu a rheoli:

- Barchu natur y patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll a'r gweddillion sydd wedi eu claddu (sy'n hysbys ac anhysbys) eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirlun hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa yr elfennau hyn).



**TIRLUNIAU ARFORDIROL**

Dylai cynigion datblygu a rheoli ystyried:

- Unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol ar yr ystod o gynefinoedd arfordirol
- Yr effaith weledol ar ddirnadaeth pobl o'r arfordir, ei gymeriad a'i rinweddau.



**TIRLUNIAU CHWARELYDDOL**

Yr ardaloedd o hen chwareli llechi gwag a thomenni gwastraff sydd efallai yn rhoi'r hunaniaeth tirlun hanesyddol a diwylliannol pennaf i Wynedd, yn ogystal â chynnig y potensial ar gyfer nifer o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol e.e. hamdden, rheoli cynefin, adfer, gwaith. Dylai bob cynnig:

- Gydnabod arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol yr ardaloedd hyn
- Ystyried effeithiau gweledol unrhyw gynllun. Mae nifer o'r ardaloedd yn gweddu yn hawdd i'r tirlun ehangach
- Weld potensial cadwraeth natur yr ardaloedd hyn yng nghyd-destun hanesyddol a diwylliannol cyffredinol
- Weld y cyfle i ddefnyddio y safleoedd hyn ar gyfer datblygiad ac i ddarparu tirlun o ansawdd arbennig



**RHEOLI CYNEFIN**

Dylai argymhellion datblygu a rheoli newydd geisio:

- darparu ar gyfer rheoli'r cynefinoedd allweddol drwyddynt draw – coetiroedd llydanddail, rhostiroedd, corsydd, ymyl yr arfordir, corsleoedd a gwelltir
- Datblygu a gwella y cynefin sy'n bodoli eisoes a'i gysylltu gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol
- Sicrhau integreiddio addas gyda rhaglenni eraill, megis Tir Gofal

**MATERION Y DYFODOL**


Pwysau parhaus ar ddatblygiadau yn ymwneud â thwristiaeth. Gwelliannau parhaus a phosib i ffordd yr A487. Gall Penygroes fod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgaredd cyflogaeth ychwanegol. Bydd Caernarfon yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer datblygu gwaith, tai a datblygiad yn ymwneud â thwristiaeth. Gall rheolaeth ardaloedd pellennig ddioddef dirywiad mewn ffermio neu newidiadau mewn arferion amaethyddol. Efallai y bydd angen ystyried rheolaeth arfordirol yn ofalus. Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar Goridorau Trafnidiaeth a Thirweddau Amaethyddol.

## CYMERIAD



- Ardal fechan, ymylol i weddill Gwynedd wedi ei ffurfio gan y rhannau hynny o Eryri a'r Parc Cenedlaethol
- Ucheldir, cymeriad mynyddig
- Cynnwys hen weithfeydd llechi yn Nyffryn Nantlle
- Ffiniau cynhenid: cloddiau sych

## LLEOLIAD



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**RHEOLI CYNEFIN**

Dylai cynigion datblygu a rheoli newydd geisio:

- Darparu ar gyfer rheolaeth ehangach cynefinoedd allweddol – tir coediog llydanddail, rhostiroedd, corsydd, glaswelltir corsiog a dŵr agored
- Datblygu a gwella'r cynefin presennol a'i gysylltu gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol
- Sicrhau integreiddio addas gyda rhaglenni eraill, megis Tir Gofal



**TIRLUNAU HANESYDDOL**

Mae rhan o'r ardal wedi ei chynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Mae'r ardal yn arddangos cymeriad tirlun hanesyddol cryf o gaeau bach, rheolaidd ac aneddiadau o fythynnod gwasgaredig gyda'u gwreiddiau yng nghlostiroedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sy'n cael eu cysylltu'n aml gyda'r chwarel lechi. Mewn rhannau, mae'r rhain yn gyfochrog â safleoedd archeolegol adfeiliedig o gyfnodau cynharach. Dylai pob cynnig ar gyfer datblygu a rheoli:

- Barchu natur patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll, a'r gweddillion sydd wedi eu claddu, (sy'n hysbys ac anhysbys), eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirlun hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa yr elfennau hyn).



**PERTHYNAS GYDA'R PARC CENEDLAETHOL**

Dylai unrhyw gynigion datblygu neu reoli gydnabod effeithiau gweledol posib ar ymyl orllewinol Parc Cenedlaethol Eryri. Mae golygfeydd i mewn i'r ardal o'r Parc Cenedlaethol yn allweddol. Bydd hyn yn dylanwadu ar leoliad, graddfa, ffurf a'r defnyddiau a ddefnyddir yn unrhyw ddatblygiad.



**TIRLUNAU CHWARELYDDOL**

Yr ardaloedd o hen chwareli llechi gwag a thomenni gwastraff sydd efallai yn rhoi'r hunaniaeth tirlun hanesyddol a diwylliannol pennaf i Wynedd, yn ogystal â chynnig y potensial ar gyfer nifer o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol e.e. hamdden, rheoli cynefin, adfer, gwaith. Dylai bob cynnig:

- Gydnabod arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol yr ardaloedd hyn
- Barchu natur y patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Weld potensial cadwraeth natur yr ardaloedd hyn yn y cyd-destun hanesyddol a diwylliannol cyffredinol
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll a'r gweddillion sydd wedi eu claddu (sy'n hysbys ac anhysbys) eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirlun hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa yr elfennau hyn).
- Weld y cyfle i ddefnyddio'r safleoedd i gynnal datblygiadau a darparu tirlun o ansawdd arbennig.

## MATERION Y DYFODOL

Gall newidiadau mewn arferion amaethyddol a dirywiad mewn amaethyddiaeth fod yn destun pryder. Gweler Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dirweddau Amaethyddol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **GWYNEDD**<br>**ARFORDIR GORLLEWIN LLYN** | ARDALOEDD<br>CYMERIAD<br>TIRLUN | **6** |

## CYMERIAD



- Mae darn arfordirol cul ar hyd arfordir gogleddol Pen Llŷn yn cynnwys rhan o'r Arfordir Treftadaeth
- Wedi ei nodweddu gan gyfres o dirffurfiau talsyth Bwlch Mawr, Gyrn Goch, Gyrn Ddu a Garn Boduan, yn rhedeg i lawr i wastatir arfordirol cul
- Aneddiadau bychan o werth hanesyddol a diwylliannol sylweddol
- Ystod o fathau o gynefinoedd o bwysigrwydd, yn arbennig ucheldir rhostirol ac arfordirol a cherrig brig
- Yn gorwedd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn

## LLEOLIAD



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**TIRLUNAU HANESYDDOL**

Mae rhan sylweddol o'r ardal wedi ei chynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau sydd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Mae'r ardal yn gyfoethog iawn o ran tirlun hanesyddol. Mae'n cynnwys tystiolaeth gymhleth ac eang ar gyfer ymddangosiad y tirlun ar gyfnodau gwahanol, gan gynnwys y cyfnod cyn hanes (yn arbennig yr ardaloedd ymylol), canoloesol (tref Nefyn a chaeau stribed o amgylch Morfa) a'r cyfnod diwydiannol (chwareli ac aneddiadau). Dylai pob cynnig ar gyfer datblygu a rheoli:

- Natur patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll a'r gweddillion sydd wedi eu claddu (sy'n hysbys ac anhysbys) eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirlun hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa yr elfennau hyn).



**RHEOLI CYNEFIN**

Dylai cynigion datblygu a rheoli newydd geisio:

- Darparu ar gyfer rheolaeth ehangach o gynefinoedd allweddol – tir coediog llydanddail, rhostiroedd ucheldirol / arfordirol, glaswelltir a cherrig brig / sgri
- Datblygu a gwella y cynefin presennol a'i gysylltu gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol
- Sicrhau bod integreiddio addas gyda rhaglenni eraill, megis Tir Gofal.



**TIRLUNIAU ARFORDIROL**

Mae mwyafrif yr arfordir yn hawdd i'r cyhoedd i'w gyrraedd neu'i weld. Dylai cynigion datblygu a rheoli ystyried:

- Unrhyw effeithiau uniongyrchol neu ddilynol ar yr ystod o gynefinoedd arfordirol
- Yr effaith weledol ar ddirnadaeth pobl o'r arfordir, ei gymeriad a'i rinweddau.



**DATBLYGIADAU TWRISTIAETH**

Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau twristiaeth newydd neu ehangu rhai presennol

- Geisio defnyddio tirffurf a phatrwm llystyfiant i liniaru effeithiau
- Adolygu'r potensial ar gyfer defnydd tir llai ymwthiol a llai dwys. Gall effeithiau fod yn llai os yw'r datblygiad yn llai dwys
- Adlewyrchu graddfa, patrwm a chymeriad y rhwydwaith ffyrdd lleol
- Geisio sicrhau bod elfennau adeiledig yn adlewyrchu graddfa, ffurf, patrwm ac yn defnyddio defnyddiau lleol i'r ardal
- Sicrhau bod effeithiau gweledol o ardal ehangach – llwybrau, llwybrau ceffylau, lonydd – yn cael eu hystyried yn llawn Dylid cofio bod yr ardal cymeriad yma yn gorwedd mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, tirlun o bwysigrwydd cenedlaethol.

**MATERION Y DYFODOL**


Pwysau parhaus ar ddatblygiadau yn ymwneud â thwristiaid. Dylai'r gwelliannau i'r A499 rhwng Llanaelhaearn ac Aberdesach gael eu rheoli'n ofalus. Gall newidiadau mewn arferion ffermio effeithio ar reolaeth yr ardal hon ac mae'r dirywiad yn y sector ffermio yn achos i bryderu. Gweler Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dirweddau Amaethyddol.

## CYMERIAD



- Mae gorllewin eithaf Gwynedd yn cynnwys Ynys Enlli, tirlun sydd gyda teimlad a phresenoldeb agos at yr arfordir, mae'n cynnwys rhan o'r Arfordir Treftadaeth
- Y tirffurf yn ganlyniad o effaith gweithredoedd rhewlifol ar greigwelyau hyˆn.
- Mae'r arfordir yn ymestyn o glogwyni agored yn y gogledd i'r baeau cysgodol grisiog yn Aberdaron a Phorth Neigwl
- Ystod amrywiol o gynefinoedd, nifer gyda arwyddocâd rhyngwladol a chenedlaethol, i gyd yn cynnig amrywiaeth o gyfoeth i'r tirlun
- Mae rhannau o'r ardal wedi eu nodweddu gan anheddiadau gwasgaredig sy'n nodweddiadol o ymylon gorllewinol Prydain.
- Mae datblygiadau twristiaeth (meysydd carafannau a safleoedd gwersylla) wedi dylanwadu'n gryf ar y tirlun.

## LLEOLIAD



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL




### DATBLYGIADAU TWRISTIAETH

Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu neu ehangu datblygiadau twristiaeth:

- Geisio defnyddio'r tirffurf a phatrwm y llystyfiant i liniaru'r effeithiau
- Adolygu'r potensial ar gyfer defnydd tir sy'n llai ymwthiol ac yn llai dwys er mwyn lleihau effaith y datblygiad.
- Adlewyrchu graddfa, patrwm a chymeriad y rhwydwaith ffyrdd lleol
- Geisio sicrhau bod elfennau adeiledig yn adlewyrchu graddfa, ffurf, patrwm ac yn defnyddio defnyddiau lleol yr ardal
- Sicrhau bod effeithiau gweledol ar yr ardal ehangach – llwybrau, llwybrau ceffylau, lonydd – yn cael eu hystyried yn llawn

Dylid cofio bod yr ardal cymeriad wedi'i leoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol sy'n tirlun penodedig cenedla.



### RHEOLI CYNEFIN

Dylai cynigion datblygu a rheoli newydd geisio:


- Ar gyfer rheolaeth ehangach o gynefinoedd allweddol – tir coediog llydanddail, rhostir neu laswelltir arfordirol, tir gwlyb/morfeydd a dwˆ r agored
- Datblygu a gwella y cynefin sydd eisioes yn bodoli a'i gysylltu gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol
- Sicrhau integreiddiad iawn gyda rhaglenni eraill, megis Tir Gofal



### TIRLUNIAU ARFORDIROL

Mae mwyafrif yr arfordir yn hawdd i'r cyhoedd ei gyrraedd neu ei weld. Dylai cynigion datblygu a rheoli ystyried:

- Unrhyw effeithiau uniongyrchol neu ddilynol ar yr ystod o gynefinoedd arfordirol
- Yr effaith weledol ar ddirnadaeth pobl o'r arfordir, ei gymeriad a'i rinweddau.



### TIRLUNIAU HANESYDDOL

Mae'r ardal gyfan yn gorwedd o fewn ardal sydd wedi ei chynnwys ar Gofrestr Tirlunau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Wrth ystyried cynigion datblygu neu reoli dylid ystyried pwysigrwydd cenedlaethol y tirlun cymhleth ac amrywiol yma. Dylai pob cynnig ar gyfer datblygu a rheoli:

- Barchu natur patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Barchu arwyddocâd diwylliannol y tirlun.



### PATRWM/ CYRION ANHEDDIAD

Wrth ystyried cynigion ar gyfer datblygu neu reoli'r tirlun, dylid rhoi ystyriaeth i:

- Sicrhau bod patrwm anheddiad yr ardal yn cael ei ystyried – osgoi crynoadau o ddatblygu mewn ardaloedd o anheddiad gwasgaredig
- Geisio defnyddio patrwm tirffurf a llystyfiant i liniaru effeithiau
- Sicrhau bod graddfa, ffurf a defnyddiau adeiladau yn adlewyrchu'r patrwm lleol
- Gymeriad y ffiniau brodorol presennol: cloddiau, ffyrdd wedi eu suddo a gwrychoedd gyda choed gwasgaredig.

## MATERION Y DYFODOL

Pwysau parhaus a pharhaol ar ddatblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Gall newidiadau mewn arferion ffermio effeithio ar reolaeth yr ardal hon ac mae'r dirywiad yn y sector ffermio yn achos pryder. Gall y pwysau parhaol am dai unigol/ safleoedd bach ar gyfer datblygiadau preswyl achosi 'cnewylliad' o'r pentrefi bach presennol. Gweler Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dirweddau Amaethyddol.

| | GWYNEDD<br>ARFORDIRPLLHELI-CRICCIETH | ARDALOEDD<br>CYMERIAD<br>TIRLUN | 8 |
|---|---|---|---|

## CYMERIAD



- Gwastatir arfordirol isel a chul sy'n gorwedd yn is na'r gyfuchlin 50 metr
- Wedi ei rannu gan nifer o ddyffrynnoedd afonydd bach megis Afon Erch, Afon Dwyfach ac Afon Dwyfor
- Mae'r ardal yn arddangos amrywiaeth o gynefinoedd o ardaloedd all-lanwol, systemau twyni yn ymestyn i mewn i'r tir a thirlun amaethyddol mwy nodweddiadol
- Mae twristiaeth yn nodwedd bwysig yn y tirlun gan ymestyn o ddatblygiad y bedwaredd ganrif ar bymtheg ym Mhwllheli a Criccieth i'r datblygiad gwersyll gwyliau mwy diweddar ym Mhenychain

## LLEOLIAD




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**DATBLYGIADAU TWRISTIAETH**

Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu neu ehangu datblygiadau twristiaeth:

- Geisio defnyddio'r tirffurf a phatrwm y llystyfiant i liniaru'r effeithiau
- Adolygu'r potensial ar gyfer defnydd tir llai sy'n ymwthiol ac yn llai dwys. Gall yr effeithiau fod yn llai os yw'r datblygiad yn llai crynodedig
- Adlewyrchu graddfa, patrwm a chymeriad y rhwydwaith ffyrdd lleol
- Geisio sicrhau bod elfennau adeiledig yn adlewyrchu graddfa, ffurf, patrwm ac yn defnyddio deunyddiau lleol yr ardal
- Sicrhau bod effeithiau gweledol ar yr ardal ehangach – llwybrau, llwybrau ceffylau, lonydd – yn cael eu hystyried yn llawn.



**PATRWM/ CYRION ANHEDDIAD**

Dylai cynigion ar gyfer datblygu neu reoli'r tirlun ystyried:

- Patrwm anheddiad yr ardal – osgoi crynod cryf o ddatblygiad mewn ardaloedd o anheddiadau gwasgarog
- Defnyddio tirffurf a phatrwm llystyfiant i liniaru effeithiau
- Graddfa, ffurf a defnyddiau adeiladau a'u bod yn adlewyrchu y patrwm lleol.



**RHEOLI CYNEFIN**

Dylai cynigion datblygu a rheoli newydd geisio:

- Darparu ar gyfer rheolaeth ehangach o gynefinoedd allweddol – tir coediog llydanddail, rhostiroedd, glaswelltir, dwˆ r agored, morfeydd, creigiau agored a chorsydd
- Datblygu a gwella y cynefin sydd eisioes yn bodoli a'i gysylltu gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol
- Sicrhau integreiddio addas gyda rhaglenni eraill, megis Tir Gofal



**TIRLUNAU HANESYDDOL**

Mae rhan orllewinol yr ardal, o amgylch Pwllheli, yn rhan o ardal sydd wedi ei chynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Ffurfiwyd cymeriad yr ardal gan ganolfannau 'trefol' hanesyddol wedi eu gwahanu gan barcdir. Dylai'r holl gynnigion ar gyfer datblygu a rheoli:

- Barchu natur patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Barchu arwyddocâd diwylliannol y tirlun
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll a'r gweddillion sydd wedi eu claddu (sy'n hysbys ac anhysbys) eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirlun hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa yr elfennau hyn).

## MATERION Y DYFODOL

Gwelliannau i'r A497 Abererch – Llanystumdwy. Mae'n bosib y bydd yr ardal yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Bydd Pwllheli yn arbennig yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer datblygiadau tai/gwaith/hamdden pellach. Gall newidiadau mewn arferion ffermio effeithio rheolaeth y tirlun ac mae'r dirywiad yn y sector ffermio yn achosi pryder. Gweler Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dirweddau Amaethyddol.

## CYMERIAD



- Ardal sydd yn terfynnu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i'r gogledd, dwyrain a'r de
- Mae tystiolaeth o ddylanwadau hanesyddol a diwylliannol sylweddol yn y tirlun
- Mae twristiaeth yn bwysig yn yr ardal gyda amrywiaeth o gyfleusterau cysylltiedig
- Ystod eang o gynefinoedd gwerthfawr; Tiroedd gwlyb, twyni, tir coediog llydanddail a llethrau creigiog
- Mae gan y gweithfeydd chwarel, cwmniau masnachol a'r A487(T) i gyd effaith ar y tirlun

## LLEOLIAD




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **GWYNEDD**<br>**PORTHMADOG** | ARDALOEDD<br>CYMERIAD<br>TIRLUN | **9** |

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**GORGYFFWRDD**

Mae'r Afon Glaslyn yn rhoi cynefin tir gwlyb pwysig. Mae ei gymeriad gwastad, agored yn cynnig potensial ar gyfer adennill a datblygiad. Mae'n ardal weledol amlwg ble mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i ddatblygiad er mwyn diogelu amgylchedd y lleoliad.

- Ceisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau presennol o fewn yr ardal.
- Sicrhau y caiff effeithiau gweledol eu lleihau drwy ystyriaeth ofalus i leoliad a golygfeydd o'r tirlun ehangach, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol.
- Rhoi sylw gofalus i fanylion yr ymylon, drwy ddewis math o ffiniau a defnyddiau, a thriniaeth o'r tirlun sy'n adlewyrchu cymeriad yr ardal. Osgoi blociau dwys o blannu, ceisio dilyn patrwm ffosydd, nentydd a chyrff o dwr presennol



**EFFAITH TWRISTIAETH**

Oherwydd ei natur mae'r ardal yn fangre pwysig i dwristiaid – Rheilffordd Ffestiniog, Portmeirion, Morfa Bychan a'r Marina ym Mhorthmadog ei hun, gyda'r marina yn ogystal â'i agosatrwydd at Barc Cenedlaethol Eryri.

- Dylai unrhyw ddatblygiad newydd sy'n ymwneud â thwristiaeth gael ei ystyried mewn perthynas â'r effaith weledol ehangach ar y tirlun yn ogystal ag effeithiau penodol yn lleol.
- Dylai pob datblygiad ystyried cynefinoedd o ddiddordeb rhyngwladol/cenedlaethol, megis twyni arfordirol ym Morfa Bychan, a dylid llunio cynigion er mwyn lleihau'r effeithiau a hyrwyddo rheolaeth tymor hwy.
- Dylai graddfa datblygiadau adlewyrchu ffurf a graddfa y tirlun lleol.
- Dylai triniaeth tirlun adlewyrchu patrwm llystyfiant presennol yn yr ardal. Dylid bod yn arbennig o ofalus wrth ddewis adefnyddio rhywogaethau. Efallai byddai golwg y bwriad yn gwella drwy newid manylion lleoliad a chynllunio, yn hytrach na phlannu helaeth o'r newydd



**DATBLYGIAD CYRION ANHEDDIADAU**

Mae ansawdd yr ardal cymeriad tirlun yn cael ei effeithio'n sylweddol gan yr aneddiadau sydd ynddi. Mae gan y rhan fwyaf graidd hanesyddol pwysig, gyda ystod o adeiladau o ansawdd da. Mae datblygiadau mwy diweddar sydd ar y cyrion yn newid y cymeriad hwnnw.

- Ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd sydd ar y cyrion yn parchu graddfa a ffurf y tirlun, o ran ffurf yr adeilad, maint a graddfa.
- Ceisio sicrhau bod y datblygiadau newydd yn cadw rhinweddau cynhenid yr aneddiadau.
- Ystyried gwahanol ddwysedd o ddatblygu i adlewyrchu cymeriad lleol.
- Ystyried y dewis o ddeunyddiau a lliwiau adeiladau yn ofalus er mwyn gweddu gyda'r cyd-destun lleol.
- Sicrhau y caiff triniaeth tirlun ei ystyried yng nghyd-destun y tirlun ehangach. Mae gan yr ardal gymeriad ddwysedd amrywiol o goed a thir coediog, a manylion ffiniau penodol.



**PORTH I ERYRI**

Mae'r ardal yn ffinio'n uniongyrchol â Pharc Cenedlaethol Eryri ac yn cynnig golygfeydd syfrdanol o graidd y mynydd. Mae'n borth pwysig i'r Parc Cenedlaethol ar gyfer ymwelwyr. Mewn cysylltiad â nodiadau cyfarwyddyd eraill:

- Dylai rhaglenni rheoli tir ehangach sicrhau bod nodweddion tirlun neilltuol, megis ffiniau caeau a thir coediog llydanddail, yn cael eu rheoli gyda ystyriaeth i'w rhyngberthynas gyda'r Parc Cenedlaethol.
- Dylid edrych ar yr ardal fel ardal 'buffer' i'r Parc Cenedlaethol, a sicrhau bod pob cynnig i ddatblygu yn cyfeirio at y berthynas hon.
- Sicrhau bod effeithiau gweledol ehangach ar y Parc Cenedlaethol yn cael eu hystyried wrth ystyried, lleoliad, ffurf, graddfa, defnyddiau a lliw.

## MATERION Y DYFODOL

Pwysau parhaus a pharhaol ar gyfer datblygu tai/manwerthu ym Mhorthmadog a'r cyffiniau. Gwelliannau i'r A487 Tremadog – Porthmadog – Penrhyndeudraeth. Materion rheoli arfordirol. Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar Goridorau Trafnidiaeth a Thirweddau Amaethyddol.

## CYMERIAD



- Yn perthyn yn gyffredinol i lwyfandir canolog Pen Llŷn yn yn uwch na'r gyfuchlin 50 metr
- Ardal unweddog yn gyffredinol wedi ei gwasgaru ymhlith bryniau amlwg megis Mynydd Cennin a'r Foel. Tirffurf gydag effaith amlwg gwaddod rhewlifol.
- Yn bennaf yn amaethyddol yn ei natur, mae yno blanfeydd coedwigaeth mawr megis Bwlch Derwin.
- Mae elfennau hanesyddol yn parhau, gyda nodweddion cyn hanes a chanoloesol yn bresennol, er eu bod yn aml wedi eu hynysu yn yr ardaloedd mwy o glostiroedd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg
- Mae chwarela wedi cael effaith, ac yn parhau i gael effaith ar y tirlun. Mae'r ardal gymeriad yn ffurfio 'buffer' rhwng Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn i'r gorllewin ac Eryri i'r dwyrain.

## LLEOLIAD



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**TIRLUNAU HANESYDDOL**

Mae rhan orllewinol yr ardal wedi ei gynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Mae'r ardal yn gyfoethog ac yn amrywiol iawn o ran tirlun hanesyddol, gyda thystiolaeth miloedd o flynyddoedd o ddatblygiadau ar ffurf patrymau caeau, aneddiadau wedi eu gwasgaru, safleoedd o ddiddordeb archeolegol a llwybrau trafnidiaeth. Dylai pob cynnig ar gyfer datblygu a rheoli:

- Barchu natur y patrwm a manylion cyfansoddiad hanesyddol y tirlun
- Sicrhau y caiff effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y nodweddion sy'n sefyll a'r gweddillion sydd wedi eu claddu (sy'n hysbys ac anhysbys) eu hystyried (gall hyn gynnwys effeithiau gweledol ar y tirlun hanesyddol, neu amharu ar batrwm a graddfa yr elfennau hyn).



**RHEOLI CYNEFIN**

Dylai cynigion datblygu a rheoli newydd geisio:

- Darparu ar gyfer rheolaeth ehangach o gynefinoedd allweddol – rhostiroedd, corsydd, glaswelltir, craig agored a dŵr agored
- Datblygu a gwella y cynefin sy'n bodoli eisoes a'i gysylltu gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol
- Sicrhau integreiddio addas gyda rhaglenni eraill, megis Tir Gofal



**CYRION ANEDDIADAU**

Dylai cynlluniau datblygu o amgylch cyrion aneddiadau:

- Fod ar ffurf a graddfa sydd yn adlewyrchu cymeriad yr anheddiad
- Gael eu hystyried o ran effeithiau ar y tirlun ehangach, yn hytrach na'r safle yn unig
- Geisio defnyddio patrymau tirffurf a llystyfiant i geisio lliniaru unrhyw effeithiau.

Er mwyn sicrhau fod y datblygiad yn integreiddio gyda natur gynhenid yr ardal mae'n bwysig na ddefnyddir yr atebion safonol.

## MATERION Y DYFODOL


Gall newidiadau mewn arferion ffermio effeithio ar reolaeth tir ac mae'r dirywiad yn y sector ffermio yn achosi pryder. Ehangu'r mwyngloddio yn Graianog. Gweler Nodiadau Cyfarwyddyd ar Dirweddau Amaethyddol.

## CYMERIAD



- Uned tirlun ar-wahân wedi'u amgylchynu gan Barc Cenedlaethol Eryri
- Cysylltiadau gweledol cryf â mynyddoedd cyfagos yr Wyddfa a'i chriw
- Gwastraff llechi hen chwareli'n dominyddu'r tirlun. Dyma'r dref yng Nghymru a gysylltir fwyaf â'r chwareli llechi yng Nghymru.
- Nodweddir y dref gan batrwm amlwg o dai teras traddodiadol, wedi'u toi â llechi, a ddatblygwyd fel ymateb i ehangu'r chwareli llechi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.
- Nodweddir y tir is gan gaeau bychain am yn ail â blociau o goetir llydanddail. Mae'r llethrau uwch wedi'u gorchuddio'n rhannol â phlanigfeydd coedwigaeth.


## LLEOLIAD




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**GWASTRAFF LLECHI**

Mae'n debyg mai'r tir diffaith sy'n gysylltiedig â hen chwareli llechi yw'r elfen amlycaf, yn y tirlun o gwmpas y dref. Dylai unrhyw gynigion sydd yn ymwneud â gwastraff llechi ystyried:

- Effeithiau gweledol
- Gwerth hanesyddol a diwylliannol y nodweddion hyn
- Potensial ar gyfer datblygu a chynyddu gwerthoedd bioamrywiaeth. Sicrhau y cymerir argymhellion Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gwynedd i ystyriaeth.



**FFIN YR ANHEDDIAD** Mae patrwm yr anheddiad yn nodwedd arbennig i'r ardal, a dylai datblygiad newydd:

- Fod ar ffurf a graddfa sy'n adlewyrchu cymeriad yr anheddiad craidd
- Geisio defnyddio patrwm y tir a'r tyfiant i helpu integreiddiad gwell i'r tirlun. Mae'n bwysig peidio â defnyddio cynlluniau "safonol" er mwyn sicrhau y caiff nodweddion yr ardal eu hymgorffori yn y dyluniad.



**RHEOLI COEDWIGAETH**

Mae ffin ddwyreiniol yr Ardal yn cynnwys rhannau o Goedwig Gwydir. Ardal fawr o blanigfeydd conwydd yw hon sydd o dan reolaeth y Menter Goedwigaeth. Er nad ydynt yn amlwg i'w gweld, maent yn ffurfio rhan o'r fframwaith tirlun ehangach. Mae'n bwysig asesu'r effeithiau gweledol a'r effeithiau ar fioamrywiaeth yn iawn a'u hystyried wrth wneud gwaith torri coed, ailstocio a rheolaeth coetir, e.e. rhywogaethau llydanddail ar hyd afonydd ac ymylon planigfeydd, creu llanerchau o fewn planhigfa.



**RHEOLI CYNEFIN**

Mae'r matrics cynefin ar gyfer yr Ardal yn eithaf amrywiol, ac drwy reoli gwahanol elfennau yn cynnig cyfleon i gyfoethogi a datblygu'r mathau o gynefin oedd er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o gynefinoedd. h.y. rhostir uchel a glaswelltir asidaidd, coetir derw, planigfeydd conwydd, hen chwareli llechi. Dylid ystyried y canlynol:


- Sicrhau fod unrhyw gynlluniau rheoli cefn gwlad yn cadw ac yn cyfoethogi cynefinoedd.
- Sicrhau fod argymhellion ar gyfer datblygu cynefin yn rhoi ystyriaeth i gysylltu â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gwynedd

## CYMERIAD



- Ar ymyl ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol, mae'r ardal hon yn ffurfio cylchfa o drawsnewid rhwng uwchdiroedd Arenig a rhan uchaf Dyffryn Dyfrdwy.
- Ardal amaethyddol yn bennaf, tirlun ymdonnog gyda chopaon lleol yn codi hyd at 500-metr gan gynnwys Moel y Gydros, Moel Darren, Foel Fach a Moel Emoel.
- Ceir sawl coetir llydanddail ar ochrau'r dyffryn, ynghyd â phlanigfeydd conwydd.
- Cynefinoedd amrywiol, o uwchdiroedd agored hyd at ddyffryn yrafon ac at lannau Llyn Tegid.

## LLEOLIAD



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**YMYLON YR ANHEDDIAD**

Mae arwyddion datblygiad cynyddol o gwmpas gorlifdir dyffryn yr afon yr ystad ddiwydiannol.  Mae'n bwysig fod unrhyw gynigion yn adlewyrchu yn cydnabod effeithiau gweledol posibl ar ymyl gogledd-ddwyreiniol y Parc plannu a thrin terfynau, hefyd adlewyrchu'r raddfa a'r patrwm hwn.



**COEDWIGAETH**

Mae'r coedydd llydanddail a'r planigfeydd conwydd yn nodweddion gweledol pwysig o fewn y tirlun ac yn darparu elfennau cynefin allweddol. Dylai cynigion torri coed yn y tymor gymryd i ystyriaeth yr effeithiau gweledol tebygol, a'r potensial ar gyfer datblygu cynefin cyfoethocach.

| GWYNEDD<br>**ABERMAW** | ARDALOEDD<br>CYMERIAD<br>TIRLUN | **13** |
|---|---|---|

## CYMERIAD



- Saif tref Fictoriaidd Abermaw a phentref gwyliau y Friog wrth aber yr Afon Mawddach.
- O ganlyniad uniongyrchol i'w leoliad ger y môr a'r aber, gyda thirwedd ucheldir ar y naill ochr a'r llall, mae'n cynnwys elfennau o Ardal CT 15.
- Ceir cyferbyniadau amlwg o fewn y tirlun o'r aber eang, agored, gyda thir mewndirol yn codi ar ffurf bryniau arfordirol Ardudwy i'r gogledd a mynyddoedd Cader Idris i'r de.
- Cymeriad amaethyddol sydd ar ochrau'r dyffryn gyda ardaloedd o goetir llydanddail a phlanigfeydd conwydd.
- Nodweddir yr ardal gan olygfeydd eang a phell ar hyd yr arfordir, gyda thraethau, twyni a Phont y
- Bermo dros Aber Mawddach yn nodweddion amlwg iawn.


## LLEOLIAD




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**YMYLON YR ANHEDDIAD**

Mae'r ddau brif anheddiad, Abermaw a'r Friog, yn dra gwahanol o ran graddfa a ffurf; mae'r Bermo'n anheddiad llinellol gyda glan môr Fictoriaidd ddeniadol, tra bod y Friog yn 'bentref gwyliau' modern, cnewyllol. Mae'n bwysig ystyried y materion canlynol:

- Sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau newydd yn adlewyrchu'r ffurfiau gwahanol yr anheddiadau.
- Wrth drafod cynigion lliniaru ar gyfer datblygu ar ymylon yr aneddiadau, dylid ystyried eu heffeithiau yn yr ystyr ehangaf.



**TIRLUN ARFORDIROL**

Mae'r lleoliad arfordirol agored, yn enwedig i'r gogledd o Abermaw ac o gwmpas y Friog, yn golygu na ellir trin y tirlun yn helaeth



**RHEOLI CYNEFIN**

Mae'r ardal yn cynnwys amrediad o fathau o gynefin, o arfordir i odreon yr uwchdiroedd. Mae gan y nifer o rhain warchodaeth statudol. Dylai unrhyw raglen ddatblygu neu reoli:


- Barchu safleoedd sydd dan warchodaeth
- Ddatblygu cyfleon i gynyddu amrywiaeth y cynefin oedd drwy reoli'r cynefinoedd allweddol – twyni, traethau rhwng dau lanw, ffridd goediog.
- Sicrhau y cedwir nodweddion neu elfennau arbennig.
- Sicrhau yr ystyrir argymhellion ar gyfer datblygu a gwella cynefinoedd yn rhoi ystyriaeth i ac yn cysylltu â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gwynedd

## CYMERIAD



- Mae'n cynnwys rhannau uchaf dyffrynnoedd Dulas a Llefenni sy'n bwydo i'r Dyfi ac yn cynnwys uwchdiroedd agored a phlanigfeydd conwydd helaeth, ynghyd â choetiroedd llydanddail.
- Ar ymyl deheuol y Parc Cenedlaethol, hen ddyffryn cloddio llechi, gyda hen chwareli a gwastraff llechi.
- Yr effaith weledol yn llai nag mewn ardaloedd eraill lle bu chwareli llechi.

## LLEOLIAD




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**RHEOLI COEDWIGAETH**

Mae planigfeydd conwydd a choetiroedd llydanddail yn dominyddu'r tirlun. Dylai cynigion i dorri, ailstocio a rheoli'r coed yn yr ardaloedd hyn sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei roi i faterion gweledol a chynefin, e.e. rhywogaethau llydanddail ar hyd afonydd, creu llanerchau.



**GWASTRAFF LLECHI**

Mae nifer o hen chwareli llechi yma ac acw drwy'r ardal gyfan. Dylai unrhyw gynigion datblygu ystyried agweddau gweledol, hanesyddol, diwylliannol a bioamrywiaeth pob chwarel.

## CYMERIAD



- Anheddiad hynafol cysylltiedig â Chadfan Sant, bellach wedi'i oresgyn gan datblygiadau twristiaeth
- Tirlun arfordirol agored, gwastad, nesaf at aber Afon Dysynni heb ddim neu fawr ddim llystyfiant i sgrinio'r adeiladau, felly ceir ymylon swta rhwng y dref a'r wlad, a'r cyffiniau uwchdirol ymhellach oddi wrth yr arfordir.
- Cynefinoedd arfordirol pwysig, yn cynnwys systemau twyni, gyda dynodiadau statudol

## LLEOLIAD




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**FFIN YR ANHEDDIAD**
Nodweddir ffin bresennol yr anheddiad gan ymyl swta. Ychydig o gyfleon i guddio datblygiad sy'n bodoli ac mae'n bwysig fod datblygiadau yn y dyfodol yn ceisio lliniaru'r effeithiau gweledol drwy ddyluniad, agwedd a lleoliad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i feysydd carafanau a datblygiadau twristiaeth eraill.



**RHEOLI CYNEFIN** O fewn yr Ardal NT mae nifer o nodweddion cynefin sydd o bwys cenedlaethol. Yn y dyfodol rhaid i unrhyw gynlluniau rheoli neu ddatblygu roi ystyriaeth briodol i'r effeithiau tebygol ar eu statws. Dylid sicrhau fod yr argymhellion ar gyfer datblygu a chyfoethogi cynefin oedd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gwynedd.


## CYMERIAD






- Ardal gul, arfordirol sy'n ymestyn o Ddinas Dinlle yn y gorllewin, cyn belled â Bangor.
- Mae amrywiaeth eang o fathau o dirweddau yn nodweddiadol o'r ardal hon – coetir, addysgol, hanesyddol, cadwraeth natur, maes awyr masnachol.
- Mae patrwm amrywiol i'r dirwedd sy'n adlewyrchu'r defnydd a wneir o'r tir.
- Y nodwedd fwyaf trawiadol yw'r dylanwad a gaiff y môr ar y llygad a'r synhwyrau - y llanwau, y gwynt, y patrymau symud.
- Y gwahanol arweddion terfyn pendant sydd yno.
- Nid yw'n cynnwys ardal Caernarfon sy'n cael ei chynnwys yn yr Ardal Cadwraeth ac yn Nynodiad Safle Treftadaeth y Byd.

## LLEOLIAD



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd – 100023387 – 2005.

Trosodd …

## MATERION CYNLLUNIO ALLWEDDOL



**RHEOLI'R CYNEFINOEDD**

Mae'r ardal yn cynnwys nifer o gynefinoedd pwysig yn gysylltiedig ag Afon Menai ac ardaloedd rhynglanwol cysylltiedig fel Bae Foryd. Dylai unrhyw gynlluniau datblygu neu reoli sicrhau bod:

- Unrhyw effeithiau uniongyrchol a chanlyniadol ar gynefinoedd yn cael eu trin a'u trafod yn briodol
- Y posibilrwydd o ddatblygu neu hybu cynefinoedd yn cael ei ystyried.
- Gofynion Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Gwynedd yn cael eu trin a'u trafod



**TIRWEDDAU HANESYDDOL**

Un o nodweddion pwysig yr ardal yw Ystâd y Faenol, sydd rhwng y Felinheli a Bangor. Mae hi wedi'i chynnwys yng Nghofrestr y Tirweddau Eithriadol o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Mae cynnal digwyddiadau, defnyddio'r plas a'r tiroedd, yn ogystal â'r datblygu sy'n mynd rhagddo ar safle Plas Menai, yn rhoi pwysau aruthrol ar yr ardal hon. Dylai'r holl gynigion ar gyfer datblygiadau:

- Sicrhau bod rhagoriaethau a nodweddion hanesyddol sylfaenol y parcdir yn cael eu parchu
- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol a geir ar yr arweddion sy'n dal i sefyll ac ar yr olion llosgedig
- Sicrhau bod rhagoriaethau gweledol yr ardal – y golygfeydd, y golygfannau a'r lleoliad – yn cael eu hystyried mewn modd priodol



**DEFNYDD HAMDDENA**

Mae nifer o nodweddion hamddena yn yr ardal yn enwedig felly yn Nhreborth ger Bangor a Phier Bangor. Mae'n bwysig bod cynigion at y dyfodol yn y safle hwn ac mewn lleoedd eraill yn yr ardal, yn rhoi ystyriaeth briodol i'r ffaith y byddant ochr yn ochr ag Afon Menai a bod ganddynt gysylltiad, sy'n amlwg i'w weld, ag Ynys Môn. Rhaid rhoi ystyriaeth bwyllog i'r golygfeydd o bob tu.



**DEFNYDD MASNACHOL**

Mae'r tir masnachol yn cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd yn yr ardal; fel yng Nghroesfan Griffiths a chyn ffatri Ferodo gerllaw, yn ogystal â Maes Awyr Caernarfon. Dylai'r defnydd a wneir o'r ardaloedd hyn at y dyfodol:

- Sicrhau nad yw'r golygfeydd i mewn i ac allan o'r safle yn lleihau ar ragoriaethau'r ardal
- Ystyried yr effeithiau a geir ar y defnydd tir gerllaw
- Sicrhau nad yw'r ffurf adeiledig yn lleihau ar ragoriaethau'r ardal



**YMYL ANEDDIADAU**

Mae'r ardal yn cynnwys cyrion arfordirol Caernarfon a Bangor ac aneddiadau Dinas Dinlle a'r Felinheli. Dylai cynlluniau datblygu a rheoli sicrhau:

- Eu bod ar ffurf ac ar raddfa sy'n adlewyrchu cymeriadau pob anheddiad
- Eu bod yn cael eu hystyried o ran yr effeithiau ehangach a gânt ar y dirwedd
- Eu bod yn ceisio defnyddio tirffurf a llystyfiant i gynorthwyo i leihau unrhyw effeithiau a geir
- Eu bod yn defnyddio arweddion terfyn – cloddiau, gwrychoedd, waliau
- Mae'n bwysig peidio a defnyddio atebion safonol er mwyn sicrhau bod cymeriad cynhenid yr ardal leol yn cael ei gynnwys yn y dyluniad.



**DEFNYDD TIR ADDYSGOL**

Prif nodwedd yr ardal o Bont Britannia hyd at Fangor, yw bod ganddi nifer fawr o safleoedd y mae'r Brifysgol yn berchen arnynt, fel Campws y Coleg Normal. Mae'r egwyddorion cyffredinol a nodwyd eisoes yn berthnasol i'r ardal hon, yn enwedig felly'r effeithiau gweledol ehangach a'r lleoliad.

**MATERION Y DYFODOL**

Mae Bangor a Chaernarfon yn agos at yr ardal hon; bydd hynny'n sicrhau bod rhan o'r ardal yn dal i fod o dan bwysau datblygu. Rhaid rhoi ystyriaeth bwyllog i'r manylion, ond hefyd i'r ymgasglu ehangach, fel a geir yn ardal y Brifysgol ym Mangor. Mae Afon Menai yn ardal bioamrywiaeth sy'n bwysig ledled y byd a bydd yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn gofyn am fwy a mwy o ystyriaeth ac adolygu pwyllog.

# GWYNEDD
## CORIDORAU TRAFNIDIAETH

Croesir Ynys Môn a Gwynedd gan nifer o brif lwybrau trafnidiaeth y rhanbarth, gan gynnwys:-

| | | |
|---|---|---|
| A5/A55(T) | - | Ynys Môn a Gwynedd |
| A487(T) | - | Gwynedd |
| A497 | - | Gwynedd |
| A499 | - | Gwynedd |
| A5025 | - | Ynys Môn |
| A4080 | - | Ynys Môn |

Mae rheilffordd Caer – Caergybi yn rhedeg trwy Fangor ar ei ffordd i Gaergybi. Mae gan y ffyrdd hyn a'r rheilffordd ddylanwad pwysig ar ganfyddiad pobl leol ac ymwelwyr o Ynys Môn a Gwynedd. Dylanwadir ar y canfyddiad yma gan y cyflymder y bydd pobl yn teithio. Po gyflyma y byddant yn teithio, y pwysicaf fydd graddfa y tirwedd cyfagos. Wrth ddatblygu cyfarwyddyd cynllunio priodol ystyrir y ffactorau canlynol yn rhai pwysig.





Trosodd …

**STRWYTHUR TIRWEDD**

Mae llawer o'r tirwedd sy'n gysylltiedig â ffyrdd a rheilffyrdd eisoes yn cael ei reoli a'i gynnal Mae hyn yn arbennig o wir am y rhwydwaith priffyrdd. Wrth gyfeirio at hyn o fewn y tirwedd ehangach, dylid rhoi sylw i:-

- Sicrhau y caiff y coridor tirwedd ehangach sy'n gysylltiedig â llwybrau trafnidiaeth ei ystyried. Mae hyn yn cynnwys golygfeydd allan a golygfeydd i mewn i'r coridor.
- Ceisio gwella gwerth bioamrywiaeth cynefinoedd, e.e. drwy ddulliau rheoli sydd yn annog amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid
- Sicrhau bod cynigion yn gweddu i nodweddion cynefinoedd a thirwedd cyfagos e.e. drwy sicrhau bod cynlluniau yn cydweddu gyda'r elfennau tirwedd sydd yn bodoli'n barod.
- Sicrhau y caiff materion iechyd a diogelwch eu hystyried
- Sicrhau bod lleoliad nodweddion/adeiladau hanesyddol yn cael eu diogelu
- Darparu diddordeb gydol y flwyddyn i ddefnyddiwr y ffordd – gellir gwneud hyn drwy gymysgedd o haenau perlysiau, plannu llwyni a choed a rheolaeth briodol o'r llystyfiant presennol.

**GOLYGFEYDD A GOLYGFANNAU**

Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu yn agos neu o fewn parth gweledol coridor trafnidiaeth gael eu harchwilio am eu heffaith ar olygfeydd a golygfannau allweddol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:-

- Dynesfa i Fangor o'r dwyrain a lleoliad gweledol Castell a Stad y Penrhyn
- Afon Menai – golygfeydd o'r ddwy bont geir
- Cors Malltraeth ar goridor yr A5/A55, Ynys Môn
- Dynesfeydd yr A5/A55 i Gaergybi ar draws y Môr Mewndirol ac ar draws Bae Beddmenarch
- A487 o Gaernarfon i'r Felinheli – golygfeydd wedi eu benthyg ar draws yr afon i Ynys Môn
- A487 rhwng Nebo a Bryncir – golygfeydd ar draws copaon talsyth Penrhyn Lly^n
- A487 Penmorfa – Tremadog – golygfeydd ar draws Glaslyn i Eryri
- A499 – Arfordir Gogledd Lly^n – golygfeydd o gopaon talsyth ar hyd arfordir Lly^n
- A497 – Abererch – Cricieth – golygfeydd eang ar draws cyrion arfordirol a Bae Tremadog Hefyd dylid rhoi sylw gofalus i leoliadau arwyddion a chynlluniau goleuo. Mae hyn yn arbennig o bwysig ble y gwrthdarir ar y tywyllwch gan y posibilrwydd o lygredd golau.

**GRADDFA TIRWEDD**

Nodwedd bwysig o'r coridorau trafnidiaeth yn yr ardal yw eu cydberthynas agos yn aml gyda graddfa a phatrwm y tirwedd y byddant yn pasio trwyddo. Er gwaethaf yr angen am ddiogelwch ar y ffyrdd, dylai datblygiadau sy'n gyfagos i goridorau ffyrdd a gwelliannau i'r ffyrdd:-

- Ystyried graddfa a phatrwm y tirwedd
- Osgoi cyflwyno elfennau trefol, megis ymylon palmentydd a goleuadau, i'r hyn sydd yn y bôn yn dirweddau gwledig
- Dalu sylw gofalus i fanylion ffiniau, eu graddfa a'u lleoliad
- Sicrhau bod cynigion datblygu yn cael eu gweld yng nghyd-destun y tirwedd ehangach yn ogystal â'r tirwedd lleol
- Ystyried bod yr holl ffyrdd, rheilffyrdd a.y.y.b, i ryw raddau neu'i gilydd, yn elfennau o'r tirwedd hanesyddol y dylid eu hystyried pan yn cynllunio gwaith.

Mae'n bwysig cofio bod nifer o'r ffyrdd hyn yn pasio drwy, neu yn agos i, dirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol, er enghraifft Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Lly^n.


# GWYNEDD
## TIRWEDDAU AMAETHYDDOL

Mae'r rhan fwyaf o'r tirwedd yn Ynys Môn a Gwynedd yn amaethyddol ei gymeriad a'i fath. Yn aml, mewn ardaloedd gwledig, dylai cynllunio ystyried yr angen i ddatblygu er mwyn cadw'r ieuenctid a chefnogi cymuned gytbwys. Nodweddir yr ardal gan ardaloedd eang o laswelltiroedd wedi eu gwella yn wasgaredig ymhlith ystod o gynefinoedd eraill – araloedd dwˆ r, cors, rhostir, prysgwydd a thir coediog. Caiff y ddwy ardal eu harchwilio yn y nodyn cyfarwyddyd cynllunio hwn, gyda nifer o ffactorau generig yn cael eu hystyried. Mae'n bwysig hefyd cyfeirio at y taflenni cyfarwyddyd ar gyfer pob ardal cymeriad. Felly wrth ystyried cynigion datblygu neu reolaeth tir, mae angen ystyried y ffactorau canlynol:-

- Ffiniau – mae amrywiaeth o ffiniau i'r caeau drwy'r sir ac maent yn nodweddiadol o gyfnod penodol yn ogystal a'r ardal leol. Mae enghreifftiau'n cynnwys



**Waliau cerrig**



**Cloddiau**



**Ffensys Llechi**



**Gwrychoedd**



**Ffensys Post a Gwifren**



**Ffensys gwlyb (ffosydd)**



**Giatiau/camfeydd**

Mae pob un ohonynt yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr ardal. Yn gyffredinol, dylid gwneud pob ymdrech i ddal gafael ar ffiniau a'u rheoli mewn modd sy'n briodol i'r ardal leol, a pheidio â defnyddio defnyddiau amhriodol. Pe byddai tirddaliadaeth yn cael ei had-drefnu, dylid sicrhau bod cymaint ag y bo modd o'r ffiniau presennol yn cael eu cadw. Dylai'r ffiniau newydd (e.e. waliau min ffordd) gael eu codi yn ôl y dull lleol.

- Cynefinoedd – gyda chynefinoedd amaethyddol mae modd cynnal a chadw a chynyddu amrywiaeth a safon cynefinoedd cefn gwlad. Ymysg y prif ardaloedd allweddol mae:



**Yn gyfagos I, ac o fewn ffiniau, caeau**



**Ardaloedd gyda traeniad gwael**



**Nentydd a ffosydd**



**Ardaloedd corsiog a thir coediog**



**Pentiroedd sy'n gaeau**



**Caeau âr ymylon**

Yn ogystal, drwy newid arferion rheoli, dylid ystyried manteisio ar y cyfleon i wella diddordeb neu amrywiaeth glaswelltiroedd sydd eisoes yn bodoli. Dylid ystyried cynlluniau ar gyfer yr ardal yng nghyd-destun eu goblygiadau ehangach a dylent gyd fynd ag arferion amaethyddol dda

Trosodd …

Adeiladau – mae datblygiad adeiladau o fewn cefn gwlad ehangach yn codi nifer o faterion. Tra na ddylid peryglu ymarferoldeb uned fferm, mae adeiladau fferm modern yn aml ar raddfa wahanol i adeiladau fferm traddodiadol o fewn yr ardal ac maent ynddynt eu hunain yn amrywio mewn cymeriad/ymddangosiad yn ôl eu hoedran, defnydd, ardal a.y.y.b. Dylid ystyried y canlynol yn ofalus:-



**Lleoliad adeilad mewn perthynas â golygfeydd a golygfannau**



**Lliw a graddfa**



**Defnyddiau**



**Arddull**



**Lliniaru**

Mae Cadw: Henebion Hanesyddol Cymru, ICOMOS (D.U.) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi llunio Cofrestr an- statudol o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r dimensiwn hanesyddol ochr yn ochr â'r pryderon mwy traddodiadol o ddiogelu bywyd gwyllt a phrydferthwch golygfaol. Mae tua tri deg a chwech o ardaloedd tirwedd ar y gofrestr, gyda nifer ohonynt wedi eu crynhoi yng ngogledd orllewin y wlad. Mae angen ystyried lliniaru yn ofalus gan nad oes llawer o'r ardal yn cael ei nodweddu gan leiniau helaeth o goed neu dir coediog. O ganlyniad mae'r ffactorau eraill a ddynodwyd yn dod yn fwyfwy pwysig.

Bydd y mudiadau canlynol yn gallu cynnig cyngor ac arweiniad ar sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn, ynghyd â nodi ffynonellau ariannu.

Cyngor Gwynedd Adran Cynllunia a Datblygu Economaidd Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
Ffôn: 01286 672255
Ffacs: 01286 673324

Cyngor Sir Ynys Môn Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffôn: 01248 752400
Ffacs: 01248 725412

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ardal Gogledd Orllewin Cymru
Llys y Bont
Ffordd Y Parc
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4BH
Ffôn: 01248 672500
Ffacs: 01248 679259

Asiantaeth yr Amgylchedd
Ffordd Penlan
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4BP
Ffôn: 01248 670770
Ffacs: 01248 670561

Comisiwn Coedwigaeth Bwrdd Gwarchod Gogledd Cymru
Clawdd Newydd
Rhuthun Sir
Ddinbych
LL15 2NL
Ffôn: 01824 750492
Ffacs: 01824 750483

Coed Cyrmu
D/o Swyddog Prosiect Cyngor Sir Ynys Môn / Cyngor Sir Gwynedd Tir Gofal
D/o Swyddog Prosiect
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Rhanbarth Gogledd Cymru
Uned 7
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy Sir
Ddinbych
LL17 0LJ
Ffôn: 01745 586293
Ffacs: 01745 586262

**CYFEIRIADAU** Mae Strategaethau Cefn Gwlad a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth lleol yn cael eu datblygu gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, a byddant ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor. Swyddogion Tir Gofal ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Dylai unrhyw gynigion gydfynd a amcanion y cynllun hwn sydd ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a'r prif lyfrgelloedd. Mae Cynlluniau Datblygu Unedol, Cynllun Fframwaith a Chynlluniau Lleol ar gyfer Cyngor Gwynedd ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor. Llawlyfr Cynllunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd, Cyfrol 10, ac yn arbennig y canllawiau atodol ar gyfer Cymru "Ffyrdd mewn Ardaloedd Tir Isel", ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor.

**Asesiad LANDMAP – Ymdriniaeth a Methodoleg**

Mae broses a ddefnyddir gan GCGC/ Grwˆ p Partneriaeth Tirlun Cymru i asesu tirlun *LANDMAP (*asesiad tirlun a phroses gwneud penderfyniadau) wedi bod yn destun cyfres o astudiaethau peilot ac mae asesiadau manwl o nifer cyfyngedig o ardaloedd awdurdod lleol drwy Gymru. Mae manylion y fethodoleg yn cael eu cwblhau gan CCGC ar hyn o bryd.

Sail methodoleg LANDMAP yw darparu modd o asesu tirluniau ar gyfer pob math o benderfyniadau – amaeth-amgylcheddol, rheoli cefn gwlad, datblygu, gwellianau a choedwigaeth. Mae'r broses yn ceisio gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy ddod a nifer o agweddau o'r tirlun ynghyd i un asesiad aml ddefnydd. Mae'n mabwysiadu'r dull sy'n caniatáu'r data a gasglwyd i gael ei wella a'i ddatblygu fel y bydd cyfleon yn caniatáu hynny. Mae'r broses yn isrannu'r tirlun i gyfres o ddarnau cydrannol neu 'agweddau'. Pan gynhaliwyd yr arolwg a'r dadansoddiad, archwiliwyd yr agweddau canlynol yn fanwl:-

- Gweledol a Synhwyraidd
- Bioamrywiaeth (llystyfiant a chynefinoedd)
- Gwyddor y Ddaear (daeareg, geomorffoleg a hydroleg)
- Hanes
- Diwylliant - gan gynnwys cysylltiadau artistig a llên gwerin Ble na wnaethpwyd asesiad ffurfiol, cefnogir y rhain gan ddata cyd-destunol, ond casglwyd gwybodaeth sydd wedi cefnogi'r broses o ddatblygu strategaeth. Mae hyn wedi cynnwys:-

- Anheddiad a Defnydd Tir
- Amaethyddiaeth
- Coedwigaeth
- Canfyddiad y Cyhoedd
- Fframwaith Cynllunio a Datblygu
- Strategau a mentrau perthynol Ymhob achos, pan fo hynny'n bosib, defnyddir setiau data cenedlaethol er mwyn gwneud yn siwr bod cysondeb rhwng gwahanol ardaloedd sy'n cynnal LANDMAP ac felly'n darparu:-

- Fframwaith cyffredin ar gyfer data tirlun (ecolegol, hanesyddol a diwylliannol) ar lefel genedlaethol.
- Cydgrynhoad a dad-gydgrynhoad data rhwng lefel genedlaethol, rhanbarthol, Awdurdod Unedol/Parc Cenedlaethol a lleol.
- Modd o ddarganfod a monitro newid yn y tirlun.

Mae nifer o gamau allweddol ym mhroses LANDMAP sy'n berthnasol i'r astudiaeth yma. Gellir crynhoi y rhain yn y modd canlynol:-

Trosodd …

***Cam 1: Lleoliad***

Mae'r cam cyntaf yma'n ymwneud â sefydlu sgop yr asesiad, y defnydd a wneir o'r wybodaeth sy'n deillio ohono, amserlen a rhaglennu, adnoddau a'r defnydd a wneir o'r System Wybodaeth Daearyddol (GIS) i gofnodi data, yn ogystal â sefydlu'r Grwp Llywio Lleol, sydd yn arolygu rheolaeth a chyfeiriad yr astudiaeth. Mae'r aelodau yn dod o sefydliadau awdurdod lleol, llywodraethol a rheolwyr tir.

***Cam 2: Creu Ardaloedd Agwedd*** Mae'r cam yma'n allweddol i ddatblygiad cyffredinol asesu tirlun a strategaethau cysylltiedig. Cofnodir y wybodaeth ar gyfer pob agwedd ar ffurf mapiau a thablau data perthynol. Rhennir yr agweddau eu hunain i ddau fath:

(i) Gwybodaeth Gyd-destunol - haenau disgrifiadol o wybodaeth yw'r rhain, ond nid ydynt o reidrwydd yn perthyn i un ddisgyblaeth. Felly nid yw'n bosib gwerthuso gwerth gynhenid yr elfennau yn yr haen yma gan nad oes cyfiawnhad cadarn dros roi gwerth i un elfen yn erbyn y llall.

Y meysydd gaiff sylw yn y categori ardal hwn:

(a) Datblygiad
(b) Patrwm Anheddiad
(c) Amaethyddiaeth
(d) Coedwigaeth

(ii) Agweddau a Werthuswyd – mae'r rhain yn adlewyrchu fod proses LANDMAP wedi ei seilio ar y ffaith y gellir gweld bod gan y mwyafrif o elfennau yn y tirlun werth cynhenid o fewn agwedd eu hunain o fewn rhain, mae hi'n bosib gwerthuso gwerth cynhenid perthynol y gwahanol elfennau. Yr ardaloedd agwedd o fewn y categori yma yw:-

(a) Gweledol a Synhwyraidd
(b) Bioamryiaeth (llystyfiant a chynefin)
(c) Gwyddor y Ddaear (daeareg, geomorffoleg a hydroleg)
(ch) Hanes
(d) Diwylliant gan gynnwys cysylltiadau artistig a llên gwerin Er mwyn cynorthwyo rheoli'r data a'i drawsgrifio i ffurf GIS, caiff y wybodaeth a gesglir yn y broses asesu hon, ei chofnodi ar ffurflen safonol.

Ar gyfer pob agwedd, caiff yr astudiaeth ei isrannu i nifer o unedau daearyddol didoledig neu 'Ardaloedd Agwedd' a chesglir data am y canlynol:

- Disgrifiad o'r Ardal
- Gwerthusiad
- Argymhellion Rheoli
- Cyflwr Presennol
- Cyflwr Delfrydol
- Amcanion Rheolaeth Cyffredinol
- Brys Mewnbynnau Rheoli

Trosodd …

O fewn hyn, mae'r broses werthuso yn mabwysiadu ymdriniaeth safonol sydd yn caniatáu cymharu rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Mewn rhagor o fanylder mae'r categorïau gwerthuso fel a ganlyn:-

***Eithriadol*** - ardaloedd neu safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol
***Uchel*** - ardaloedd neu safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol/sirol
***Cymedrol*** - ardaloedd neu safleoedd o bwysigrwydd lleol
***Isel*** - ardaloedd neu safleoedd o werth isel
***Diffyg gwybodaeth*** - pan nad oes digon o wybodaeth ar gael i allu gwerthuso'r elfen yn iawn Cyfraniad pwysig arall i'r cam yma o'r broses yw sicrhau bod safbwyntiau y cyhoedd yn cael eu hymgorf- fori i'r broses mewn perthynas â:

- Nodweddion/tirlun sydd o werth i'r gymuned leol
- Y synnwyr o hunaniaeth leol o fewn y tirlun
- Y gwerth a roddir gan y cyhoedd i dirluniau ac i nodweddion unigol
- Yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei ystyried yn bwysig i'w gadw, ei wella a'i newid
- Y gwahaniaeth rhwng safbwyntiau trigolion lleol ac ymwelwyr Yn yr astudiaeth, Fe gynhaliwyd yr elfen o ganfyddiad y cyhoedd o'r tirlun gan Ymchwil Marchnad Cymru Cyf. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys cyfuniad o dechnegau ansoddol (grwpiau ffocws) a mesurol (holiaduron cartref). Nodwedd allweddol o'r ymarfer hwn oedd dynodi data penodol y gellir ei ddigideiddio o fewn fformat GIS, gan ddarparu haen arall o wybodaeth i gynorthwyo'r defnyddwyr.

***Cam 3 : Asesiad Tirlun ac Argymhellion*** Mae Cam 3 yr astudiaeth yn ymwneud â sefydlu cymeriad y tirlun ar gyfer ardal yr astudiaeth, ynghyd â darparu cyfarwyddyd rheoli ar gyfer y gwahanol rai fydd yn gwneud penderfyniadau. Yn allweddol i'r dasg yma yw dadansoddiad ac asesiad o'r agweddau a werthuswyd i roi Ardaloedd Cymeriad Tirlun (ACT). Yn hyn o beth, mae defnydd o'r dull GIS yn bwysig gan ei fod yn ei gwneud yn haws i drin y gwahanol haenau o wybodaeth.

Yn ei hanfod mae ACT yn darparu cyfres o unedau daearyddol sydd yn debyg o ran cymeriad a phryderon, ac mae'r ffiniau yn adlewyrchu ffurf gynhenid y tirlun. O fewn yr ardal astudiaeth mae'n amlwg bod data'r gwyddorau daear yn dylanwadu'n gryf ar y tirlun, ac wrth ddatblygu'r ACT, bu'r agweddau hyn yn rhoi y fframwaith gychwynnol er mwyn gwerthuso agweddau ardaloedd eraill yn ei herbyn. Gwneir ddiffiniad terfynol yr ACT yn cael ei wneud drwy ddefnyddio dull matrics, ble ystyrir pynciau agweddau a werthuswyd yn erbyn y lefel werthuso.

Pan fydd anhawster wrth benderfynu ar wir raddau yr Ardal Cymeriad Tirlun mae'n bwysig darganfod pa rinweddau sylfaenol sy'n pennu cymeriad y tirlun. Bydd angen adolygiad trylwyr o'r data agwedd a werthuswyd gan ddechrau gyda'r rhinweddau gweledol a synhwyraidd ac ystyried agweddau eraill yn eu tro. Ar gyfer pob Ardal Cymeriad Tirlun fe ddarperir cyfres o argymhellion rheoli sydd wedi'u seilio ar y gwerthusiad manwl. Byddant yn adlewyrchu arweiniad polisi perthnasol yr Awdurdod Lleol, CCGC, ADC a mudiadau eraill.